



Arolwg 2013 o Etholaethau Seneddol

---

**Adroddiad Cynigion Diwygiedig**

Hydref 2012

© Hawlfraint y Goron 2012

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu anfonwch neges e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn [comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk](mailto:comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk)

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar ein gwefan yn [www.comffin-cymru.gov.uk](http://www.comffin-cymru.gov.uk)

# **COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

## **Arolwg 2013 o Etholaethau Seneddol Adroddiad Cynigion Diwygiedig**

**Hydref 2012**

Comisiwn Ffiniau i Gymru  
Tŷ Caradog  
1-6 Plas Sant Andreas  
Caerdydd  
CF10 3BE  
Rhif Ffôn: +44 (0)29 20395031  
Rhif Ffacs: +44 (0)29 20395250  
E-bost: [comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk](mailto:comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk)



# Cynnwys

	Para	Tud
<b>1 Cyflwyniad</b>	<b>1.1</b>	<b>1</b>
<b>2 Meini Prawf ar gyfer Arolygu Etholaethau Seneddol</b>	<b>2.1</b>	<b>3</b>
Cymhwyso darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd)	2.1	3
Cydadwaith yr ystyriaethau	2.3	4
Ffactorau na fydd y Comisiwn yn eu hystyried	2.6	4
Enwi a dynodi etholaethau	2.10	5
<b>3 Datblygu'r Etholaethau</b>	<b>3.1</b>	<b>7</b>
Nifer yr Etholwyr	3.1	7
Maint Etholaethau	3.3	7
Patrwm yr Etholaeth	3.4	7
Cynigion Cychwynnol	3.5	7
Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol	3.7	8
Cynigion Diwygiedig	3.9	8
Beth Nesaf?	3.12	9
<b>4 Crynodeb o'r Cynigion Diwygiedig</b>	<b>4.1</b>	<b>10</b>
<b>5 Cynigion Diwygiedig yn Fanwl</b>	<b>5.1</b>	<b>11</b>
1. Ceredigion and North Pembrokeshire (Ceredigion a Gogledd Sir Benfro)	5.2	11
2. South Pembrokeshire (De Sir Benfro)	5.10	13
3. Caerfyrddin (Carmarthen)	5.18	15
<i>Nodyn am y cynigion cychwynnol ar gyfer Gower and Swansea West, Llanelli a Swansea East</i>	5.26	17
4. Llanelli	5.30	18
5. Gower and Swansea West (Gŵyr a Gorllewin Abertawe)	5.39	20
6. Swansea East (Dwyrain Abertawe)	5.49	22
7. Neath and the Swansea Valley (Castell-nedd a Chwm Tawe)	5.58	24
8. Aberavon and Ogmore (Aberafan ac Ogwr)	5.67	26
9. Bridgend (Pen-y-Bont)	5.75	28
10. The Vale of Glamorgan (Bro Morgannwg)	5.83	29
<i>Nodyn am Gaerffili, Caerdydd a Chasnewydd</i>	5.92	31
11. Cardiff West (Gorllewin Caerdydd)	5.97	32
12. Cardiff South and Penarth (De Caerdydd a Phenarth)	5.105	34

13. Cardiff Central (Canol Caerdydd)	<b>5.114</b>	<b>36</b>
14. Cardiff North and South West Gwent (Gogledd Caerdydd a De Orllewin Gwent)	<b>5.125</b>	<b>38</b>
15. Caerphilly (Caerffili)	<b>5.137</b>	<b>41</b>
16. Newport (Casnewydd)	<b>5.147</b>	<b>43</b>
17. Monmouthshire (Sir Fynwy)	<b>5.155</b>	<b>44</b>
18. Torfaen (Tor-faen)	<b>5.163</b>	<b>46</b>
19. Blaenau Gwent	<b>5.173</b>	<b>48</b>
<i>Nodyn am etholaethau presennol Cynon Valley, Merthyr Tydfil and Rhymney, Pontypridd, a Rhondda</i>	<b>5.181</b>	<b>49</b>
20. Merthyr Tydfil, Rhymney and Lower Cynon (Merthyr Tudful, Rhymni a Chynon Isaf)	<b>5.193</b>	<b>51</b>
21. Rhondda and Aberdare (Rhondda ac Aberdâr)	<b>5.202</b>	<b>53</b>
22. Pontypridd	<b>5.213</b>	<b>55</b>
<i>Nodyn am etholaeth bresennol Montgomeryshire</i>	<b>5.222</b>	<b>57</b>
23. Brecon, Radnor and Montgomery (Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn)	<b>5.226</b>	<b>58</b>
24. Denbigh and North Montgomeryshire (Dinbych a Gogledd Sir Drefaldwyn)	<b>5.239</b>	<b>60</b>
25. Gwynedd	<b>5.249</b>	<b>63</b>
26. Ynys Môn a Bangor (Isle of Anglesey and Bangor)	<b>5.262</b>	<b>66</b>
27. Conwy and Colwyn (Conwy a Cholwyn)	<b>5.272</b>	<b>68</b>
28. Flint and North Denbighshire (Fflint a Gogledd Sir Ddinbych)	<b>5.283</b>	<b>70</b>
29. Alyn and Deeside (Alun a Glannau Dyfrdwy)	<b>5.291</b>	<b>72</b>
30. Wrexham Maelor (Wrecsam Maelor)	<b>5.299</b>	<b>74</b>
<b>6 Manylion Cyhoeddi</b>	<b>6.1</b>	<b>77</b>
<b>7 Y Cyfnod Ymgynghori</b>	<b>7.1</b>	<b>78</b>
<b>8 Gwybodaeth Ychwanegol</b>	<b>8.1</b>	<b>80</b>
<b>Atodiad 1: Etholaethau Diwygiedig yn ôl Etholwyr mewn Adrannau Etholiadol</b>		
<b>Atodiad 2: Mynegai o'r Etholaethau Presennol</b>		
<b>Atodiad 3: Mannau Adneuo</b>		
<b>Atodiad 4: Map Cymru Gyfan o Etholaethau Diwygiedig Arfaethedig</b>		
<b>Atodiad 5: Map Cymru Gyfan o Etholaethau'r Cychwynnol Arfaethedig</b>		
<b>Atodiad 6: Map Cymru Gyfan o'r Etholaethau Presennol</b>		
<b>Atodiad 7: Esboniad o'r Mapiau Manwl ac Allwedd</b>		
<b>Atodiadau 8 - 37: Mapiau Unigol o'r Holl Etholaethau Arfaethedig</b>		

# 1 Cyflwyniad

- 1.1 Ar 4 Mawrth 2011, cyhoeddodd y Comisiwn Ffiniau i Gymru (y Comisiwn) Arolwg 2013 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru, yn unol â darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011. Ceir crynodeb o'r fframwaith statudol perthnasol a'r meini prawf, ac ymagwedd gyffredinol y Comisiwn tuag at yr arolwg ym mhennod 2, a cheir mwy o fanylion yn llyfryn gwybodaeth y Comisiwn, "*Arolwg 2013 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru – Llyfryn Gwybodaeth*" (2011), sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg gan y Comisiwn neu ar wefan y Comisiwn, sef [www.comffin-cymru.gov.uk](http://www.comffin-cymru.gov.uk).
- 1.2 Cyhoeddodd y Comisiwn ei gynigion cychwynnol ar 11 Ionawr 2012. Datblygodd y cynigion ar sail y meini prawf statudol newydd. Pwysleisiwyd, fodd bynnag, bod pob un o'r cynigion yn rhai dros dro. Roedd lansio'r cynigion cychwynnol yn ddechrau ymgyngoriad 12 wythnos ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, gwahoddwyd y cyhoedd i gyflwyno'u cynrychiolaethau yn ysgrifenedig neu i fynychu un o bum gwrandawriad cyhoeddus a gynhaliwyd ar hyd a lled Cymru. Roedd y Comisiwn yn rhoi pwys mawr i'r cyfle i gyflwyno cynrychiolaethau i'r Comisiwn, p'un a oeddent o blaid y cynigion neu'n eu gwrthwynebu.
- 1.3 Ym mis Mehefin 2012 cyhoeddodd y Comisiwn yr holl ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgyngori cychwynnol hwn o 12 wythnos. Roedd cyfnod statudol ychwanegol o bedair wythnos ar gael wedyn i unigolion a sefydliadau gynnig sylwadau ar y cynrychiolaethau a wnaed gan eraill.
- 1.4 Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi cynigion diwygiedig nawr i ymgyngori'n gyhoeddus yn eu cylch. Mae'r cynigion hyn yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r holl gynrychiolaethau a wnaed i'r Comisiwn yn ystod y cyfnod ymgyngori cyntaf a'r ail gyfnod ymgyngori, gan gydymffurfio â'r rheolau a bennwyd yn y ddeddfwriaeth. Bu'r Comisiynwyr Cynorthwyol yn adolygu'r holl gynrychiolaethau a dderbyniodd y Comisiwn yn ystod y cyfnod ymgyngori cyntaf a'r ail gyfnod ymgyngori, a lluniwyd Adroddiad ar gyfer y Comisiwn.
- 1.5 Mae'r Comisiwn wedi penderfynu cyhoeddi cynigion diwygiedig ar gyfer Cymru gyfan mewn un ddogfen. Golygai natur y fframwaith statudol a'r meini prawf y bu'n angenrheidiol cynnal yr arolwg hwn ar sail Cymru gyfan.
- 1.6 Rhoddir pwys mawr i'r cyfle sydd ar gael yn awr i bawb dan sylw gyflwyno cynrychiolaethau i'r Comisiwn, p'un a ydynt o blaid y cynigion neu'n eu gwrthwynebu. Hwn fydd y cyfle olaf i'r rhai â diddordeb leisio'u barnau. Rhoddir manylion am sut i gyflwyno cynrychiolaethau yn nes ymlaen yn y ddogfen hon (gweler Pennod 7).

- 1.7 Yn sgil y cyfnod ymgynghori ynghylch y cynigion diwygiedig hyn, a chyn mis Hydref 2013, bydd y Comisiwn yn cyflwyno ei argymhellion terfynol i'r Llywodraeth (yn yr un modd â Chomisiynau Ffiniau eraill yn y Deyrnas Unedig). Er mwyn dod â'r argymhellion i rym, mae'n rhaid i'r Llywodraeth gyflwyno Gorchymyn Cyngor gerbron y Senedd, a mae'n rhaid i ddau Dŷ'r Senedd trafod a chymeradwyo (neu wrthod) y Gorchymyn. Mae'r Comisiwn yn ymwybodol o'r dyfalu mewn perthynas â chanlyniad posibl unrhyw bleidlais yn y Senedd. Fodd bynnag, mae gan y Comisiwn rwymedigaeth gyfreithiol i ddilyn rheolau Arolwg 2013, fel y'u hamlinellir yn Neddf System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011. Y gobaith yw na fydd unrhyw ddyfalu o'r fath yn annog unigolion a sefyliadau i beidio â bod ynghlwm wrth yr arolwg hwn.



## 2 Meini Prawf ar gyfer Arolygu Etholaethau Seneddol

### Cymhwyso darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd)

2.1 Mae'r Comisiwn wedi cymhwyso darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 fel y'i diwygiwyd (yn bennaf gan y Ddeddf Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011). Rhoddir crynodeb o'r darpariaethau hyn ym Mhennod 3 o Lyfryn Gwybodaeth y Comisiwn a Phennod 2 o adroddiad cynigion cychwynnol y Comisiwn. Mae'r ddau gyhoeddiad hwn ar gael ar wefan y Comisiwn.

2.2 Dyma'r meini prawf allweddol yn yr arolwg o etholaethau seneddol:

- **Lleihau nifer yr etholaethau:** Bydd cwota etholiadol y DU a'r lleihad yn nifer yr etholaethau yn y DU o 650 i 600 yn golygu y bydd nifer yr etholaethau yng Nghymru yn lleihau o 40 i 30. Y canlyniad fydd newid sylfaenol i batrwm presennol etholaethau ym mhob rhan o Gymru.
- **Amrediad etholwyr statudol:** Mae'r Ddeddf fel y'i diwygiwyd yn pennu'r Rheolau yn Atodlen 2 ar gyfer ailddosbarthu etholaethau. Yr un fwyaf blaenllaw o'r rhain yw Rheol 2, sy'n amodi – ar wahân i bedwar eithriad penodol (ac nid yw'r un o'r rhain yn gymwys i Gymru) – bod rhaid i bob etholaeth gael cyfanswm o etholwyr (ar ddyddiad yr arolwg) nad yw'n llai na 95% ac nad yw'n uwch na 105% o 'gwota etholiadol y DU'. Cwota etholiadol y DU ar gyfer Arolwg 2013, i'r cyfanrif agosaf, yw 76,641.<sup>1</sup> Yn unol â hynny, rhaid i bob etholaeth yng Nghymru fod â chyfanswm o etholwyr ar ddyddiad yr arolwg nad yw'n llai na 72,810 ac nad yw'n uwch nag 80,473 (yr amrediad etholwyr statudol).
- **Ffactorau statudol eraill:** Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 ("Rheol 5") yn darparu ar gyfer nifer o ffactorau eraill y gall y Comisiwn eu hystyried wrth bennu map newydd o'r etholaethau ar gyfer Arolwg 2013, yn benodol:
  1. ystyriaethau daearyddol arbennig gan gynnwys, yn benodol, maint, ffurf a hygyrchedd etholaeth;
  2. ffiniau llywodraeth leol fel yr oeddent ar 6 Mai 2010 (gweler y Llyfryn Gwybodaeth: Pennod 2 paragraff 2);
  3. ffiniau etholaethau presennol; ac,
  4. unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau.<sup>2</sup>

<sup>1</sup> Yn ôl Rheol 2(3) yn Atodlen 2 i'r Ddeddf, cwota etholiadol y DU yw 45,678,175 (cyfanswm yr etholwyr yn y DU ar ddyddiad yr arolwg) wedi'i rannu â 596.

<sup>2</sup> Mae ffactor pellach – 'yr anghyfleustra sydd ynghlwm wrth newidiadau tebyg' – wedi'i hepgor yn benodol ar gyfer Arolwg 2013, ond gellir ei ystyried ar gyfer arolygon dilynol.

## Cydadwaith yr ystyriaethau

- 2.3 Polisi'r Comisiwn yw ystyried yr holl ffactorau a restrir yn Rheol 5 cyn belled ag y bo modd, yn amodol ar ystyriaeth bennaf yr amrediad etholwyr statudol dan Reol 2. Ambell waith, mae graddfa lleihau nifer yr etholaethau yng Nghymru o 40 i 30 wedi ei gwneud yn arbennig o anodd i gyfleu'r ffactorau yn Rheol 5. Felly, er enghraifft, bu rhaid anwybyddu rhai cysylltiadau hirsefydlog a ffurfio rhai cysylltiadau llai amlwg ambell waith.
- 2.4 Nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn geisio cyflawni cyfanswm etholwyr mewn etholaethau sydd 'mor agos â phosibl' at gwota etholiadol y DU. Nid yw'r Comisiwn ychwaith yn ei hystyried yn briodol gosod amcanion polisi ar y cynllun statudol o geisio lleihau gwyro oddi wrth gwota etholiadol y DU. Byddai amcan tebyg yn tanseilio gallu'r Comisiwn i roi ystyriaeth briodol i'r ffactorau a restrir uchod. Felly, i ddangos hynny, gallai fod yn well gan y Comisiwn bennu etholaeth ag amrywiant o 4% o gwota etholiadol y DU, er enghraifft, ond sy'n parchu cysylltiadau lleol, yn hytrach na dewis arall a fyddai'n creu etholaeth ag amrywiant o 1% yn unig, ond a fyddai'n rhannu cymunedau.
- 2.5 Cyn belled ag y bo modd, mae'r Comisiwn am greu etholaethau:
- o adrannau etholiadol sy'n gyfagos at ei gilydd;
  - o gymunedau cyfan; ac,
  - nad ydynt yn cynnwys 'rhannau datgysylltiedig', h.y. lle byddai'r unig gysylltiad ffisegol rhwng un rhan o'r etholaeth a'r gweddill ohoni yn golygu teithio trwy etholaeth wahanol.

## Ffactorau na wnaeth y Comisiwn eu hystyried

### Effaith ar ganlyniadau etholiadol yn y dyfodol

- 2.6 Mae'r Comisiwn yn gorff annibynnol a diduedd. Mae'n pwysleisio'n gryf iawn nad yw patrymau pleidleisio presennol a ffawd pleidiau gwleidyddol yn y dyfodol yn rhan o'i ystyriaethau.

### Ffiniau llywodraeth leol newydd

- 2.7 Y ffiniau llywodraeth leol y gall y Comisiwn eu hystyried – fel y nodwyd uchod – yw'r rheiny a oedd yn bodoli ar 6 Mai 2010. O ganlyniad, nid yw'r Comisiwn wedi ystyried ffiniau newydd a gafodd eu creu ar ôl y dyddiad hwnnw.

### Newidiadau i nifer yr etholwyr ar ôl dyddiad yr arolwg

- 2.8 Mae'n ofynnol i'r Comisiwn weithio ar sail niferoedd yr etholwyr ar y cofrestr etholiadol ar 'ddyddiad yr arolwg'. Ni all ystyried newidiadau i faint etholaethau ar ôl 'dyddiad yr arolwg'. Hefyd, nid yw'n gallu ystyried unrhyw

achosion o dangofrestru neu orgofrestru y gellir eu hawlio mewn ardal benodol.

### **Enwi a dynodi etholaethau**

- 2.9 Wrth wneud ei gynigion, mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn bennu enw a dynodiad ar gyfer pob etholaeth arfaethedig. Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys llawer o arweiniad ar y pwyntiau hyn.

#### Enwi

- 2.10 Polisi'r Comisiwn ar enwi etholaethau yw, os yw'r etholaethau yn aros yn bur ddigyfnawid, y dylid cadw enw presennol yr etholaeth fel arfer. Yn yr achosion hyn, mae enwau etholaethau'n debygol o gael eu newid dim ond pan fydd rheswm da dros newid.
- 2.11 Ar gyfer etholaeth newydd, fel arfer dylai'r enw adlewyrchu enw'r Awdurdod Unedol neu'r Awdurdodau Unedol sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf o fewn yr etholaeth. Fodd bynnag, os oes enw arall addas sy'n mynnu mwy o gefnogaeth leol yn gyffredinol, bydd y Comisiwn yn ystyried yr enw arall hwnnw.
- 2.12 Mae'r Comisiwn yn mabwysiadu enwau pwyntiau'r cwmpawd pan nad oes enw mwy addas. Yn gyffredinol, bydd y cyfeiriad pwynt cwmpawd a ddefnyddir yn ffurfio rhagddodiad mewn achosion lle mae enw etholaeth yn cyfeirio at ardal yr Awdurdod Unedol neu hen gyngor dosbarth, ond yn ffurfio ôl-ddodiad lle mae gweddill yr enw yn cyfeirio at ganolfan boblogaeth. Mae enghreifftiau o etholaethau presennol sy'n dangos yr egwyddor hon yn cynnwys 'Carmarthen West and South Pembrokeshire' a 'Swansea West'.
- 2.13 Yn ei adroddiad yn cyhoeddi ei gynigion cychwynnol, soniodd y Comisiwn ym mharagraff 2.2 *"gan mai dim ond un enw a ganiateir, ni fydd yn bosibl meddu ar enw Cymraeg ac enw Saesneg cyfatebol ar gyfer etholaeth (neu i'r gwrthwyneb)".* Cafodd yr ymagwedd hon ei seilio ar ddarlleniad o adran 3(4) Deddf Etholaethau Seneddol 1986 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn argymhell yr etholaethau ar gyfer gwahanu unrhyw ardal, ac mewn perthynas â phob etholaeth, yr enw ar yr ardal honno. Roedd yr ymagwedd hon yn gyson â'r ymagwedd a fabwysiadwyd gan Gomisiynau Ffiniau eraill yn y Deyrnas Unedig.
- 2.14 Fodd bynnag, yn ystod ei gyfnod ymgynghori cychwynnol, daeth cynrychiolaethau i law'r Comisiwn lle y cynigir enw Saesneg, y dylai'r Comisiwn ddarparu enw cyfatebol swyddogol yn Gymraeg. Mae'r Comisiwn wedi ystyried y mater ymhellach yng ngoleuni'r argymhellion hynny.
- 2.15 Mae Adran 3(5A) Deddf 1986 yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno Gorchymyn Cyngor drafft gerbron y Senedd er mwyn dod ag argymhellion y

Comisiwn i rym, yn cynnwys argymhellion ynglŷn â'r enw'r etholaeth. Yn ogystal, mae Adran 25(2) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn gofyn, lle bod Deddf Seneddol yn rhoi pŵer, y mae modd ei ymarfer drwy offerynnau statudol, i gyflwyno enw ar unrhyw gorff, swyddfa neu fan, y bydd y pŵer yn cynnwys pŵer i gyflwyno enwau cyfatebol yn Gymraeg a Saesneg. Felly, mae'r Comisiwn o'r farn, os bydd yn argymhell y dylai etholaeth fod ag enw cyfatebol yn Gymraeg a Saesneg, byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu dod â'r argymhelliad hwnnw i rym wrth osod Gorchymyn Cyngor drafft gerbron y Senedd.

- 2.16 Ar ôl ystyried y mater yn ddwys, mae'r Comisiwn o'r farn ei fod yn briodol i bob etholaeth yng Nghymru feddu ar enwau cyfatebol yn Gymraeg a Saesneg. Felly mae'r Comisiwn yn argymhell yn gryf y dylid darparu enwau cyfatebol swyddogol yn Gymraeg ar gyfer enwau'r etholaethau hynny yn Saesneg, ac i'r gwrthwyneb. Fel hyn caiff y ddwy iaith eu trin yn gyfartal. Felly, yn yr adroddiad hwn, caiff enwau cyfatebol eu darparu yn Gymraeg lle bo prif enw'r etholaeth yn Saesneg a chânt eu darparu yn Saesneg lle bo prif enw'r etholaeth yn Gymraeg. Lle bo enw etholaeth yn ddwyieithog, er enghraifft Llanelli, ni fydd unrhyw enw cyfatebol.

### Dynodi

- 2.17 Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn i ddynodi pob etholaeth fel naill ai 'etholaeth sirol' neu 'etholaeth fwrdeistrefol'. Mae'r Comisiwn o'r farn, fel egwyddor gyffredinol, lle bod etholaethau'n cynnwys mwy nag un elfen wledig fach, y dylid eu dynodi fel etholaethau sirol fel arfer. Mewn achosion eraill, dylid eu dynodi fel etholaethau bwrdeistrefol. Caiff y dynodiad ei ychwanegu at enw'r etholaeth a chaiff ei dalfyrru fel arfer: BC am etholaeth fwrdeistrefol ac CC am etholaeth sirol.
- 2.18 Yn gyffredinol, y dynodiad sy'n pennu pwy fydd yn gweithredu fel Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholaethau Seneddol. Mae'r dynodiad hefyd yn pennu'r terfyn ar y swm y gall ymgeisydd ei wario yn ystod etholiad Seneddol yn yr etholaeth. Mae'r terfyn ychydig yn is mewn etholaethau bwrdeistrefol, er mwyn adlewyrchu'r costau is sy'n gysylltiedig â chynnal ymgyrch mewn ardal drefol, sy'n gywasgedig fel arfer.

## 3 Datblygu'r Etholaethau

### Nifer yr Etholwyr

- 3.1 Ar hyn o bryd, mae 40 o etholaethau yng Nghymru. Mae nifer yr etholwyr yn yr etholaethau yn amrywio o 40,707 (Arfon CC) i 73,690 (Cardiff South and Penarth BC) a nifer gyfartalog yr etholwyr yn y 40 o etholaethau presennol yng Nghymru yw 57,040. Dan y ddeddfwriaeth newydd, caiff nifer yr etholaethau yng Nghymru ei lleihau o 40 i 30, ac mae'r amrediad etholwyr statudol rhwng 72,810 ac 80,473. Oherwydd hynny, un etholaeth bresennol yn unig, sef Cardiff South and Penarth BC, sydd o fewn yr amrediad statudol. Felly, bydd patrwm newydd yr etholaethau yn amrywio'n fawr o batrwm yr etholaethau presennol.
- 3.2 Un o effeithiau gostwng nifer gyffredinol yr etholaethau a ddyrannwyd i Gymru, ynghyd â gofynion yr amrediad etholwyr statudol, yw y gall fod angen newid etholaeth bresennol y mae ei chyfanswm etholwyr o fewn yr amrediad statudol, o ganlyniad i'r angen i greu etholaethau ymarferol mewn ardaloedd eraill.

### Maint Etholaethau

- 3.3 Mae maint (o ran arwynebedd) yr etholaethau presennol yn amrywio o 17km<sup>2</sup> (Cardiff Central BC) i 3,014km<sup>2</sup> (Brecon and Radnorshire CC). Y maint mwyaf a ganiateir ar gyfer etholaeth gan y ddeddfwriaeth newydd yw 13,000km<sup>2</sup>. Byddai etholaeth o'r maint hwnnw yn gorchuddio tua 61% o Gymru. Nid oes yr un o'r etholaethau arfaethedig yn dod yn agos at y maint mwyaf.

### Patrwm yr Etholaethau

- 3.4 O ystyried y nifer gymharol fach o etholwyr mewn rhannau gwledig o Gymru, mae'n anochel y bydd rhai etholaethau'n fawr iawn o ran eu harwynebedd, dan y trefniadau newydd. Yn ogystal, oherwydd niferoedd cyfyngedig yr etholwyr mewn rhai o gymoedd de Cymru, bydd rhaid i rai etholaethau gynnwys fwy nag un cwm. Yn yr un modd, efallai y bydd angen rhannu Awdurdodau Unedol mewn rhai ardaloedd trefol. Bydd angen cyfaddawdu er mwyn creu patrwm o etholaethau ledled Cymru sy'n dilyn Rheolau'r ddeddfwriaeth newydd. Mae'n bwysig deall y bydd hyd yn oed mân newidiadau i un etholaeth yn cael effeithiau ôl-ddilynol ar ardaloedd cyfagos ac yn ehangach, o bosibl.

### Cynigion Cychwynnol

- 3.5 Byddai unrhyw set o gynigion gan y Comisiwn yn arwain at fap Seneddol o Gymru sy'n wahanol iawn i'r hyn yr ydym yn gyfarwydd ag ef. Mae'r

Comisiwn wedi wynebu'r dasg o lunio cynigion ar gyfer y 30 etholaeth ofynnol yn lle'r 40 etholaeth bresennol. Wrth wneud hynny, fe'i cyfyngwyd ymhellach gan y gofyniad absoliwt bod rhaid i nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth ddisgyn o fewn yr amrediad statudol. Oherwydd hynny, mae rhyddid y Comisiwn i roi ystyriaethau statudol eraill ar waith wedi'i gyfyngu, ar adegau. Yn yr un modd, wrth ystyried teilyngdod cynlluniau amgen, nid ystyriwyd atebion amlwg yn ymarferol, mewn rhai achosion, oherwydd na allent eu cynnwys o fewn y gofynion o ran maint yr etholaeth neu oherwydd eu heffaith ôl-ddilynol ar etholaethau eraill, y mae'n rhaid i bob un ohonynt gydymffurfio â'r un gofynion. Fodd bynnag, ym mhob cam o'i ystyriaethau, mae'r Comisiwn wedi ceisio dod o hyd i'r atebion mwyaf addas ar gyfer anghenion lleol ledled Cymru, y gellir eu bodloni o fewn y Rheolau statudol.

- 3.6 Roedd cynigion cychwynnol y Comisiwn, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2012, yn cyflwyno map diwygiedig o Etholaethau Seneddol yng Nghymru gyda newidiadau i bob etholaeth bresennol. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau helaeth, adeiladol a defnyddiol gan unigolion a sefydliadau mewn perthynas â'r cynigion cychwynnol gan gynnwys nifer o gynrychiolaethau a oedd yn berthnasol i Gymru gyfan, neu rannau sylweddol ohoni. Derbyniwyd dros 700 o gynrychiolaethau ysgrifenedig a deisebau (yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf a'r ail gyfnod ymgynghori) ac fe wnaeth dros 100 o unigolion siarad mewn gwrandawliadau cyhoeddus. Mae'r Comisiwn yn ddiolchgar iawn am y cynrychiolaethau sydd wedi dod i law.

### **Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol**

- 3.7 Mae Atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, ar gais y Comisiwn, benodi un neu fwy o Gomisiynwyr Cynorthwyol i gynorthwyo'r Comisiwn i gyflawni'i swyddogaethau. Penodwyd tri Chomisiynydd Cynorthwyol ar gyfer Arolwg 2013 yng Nghymru. Rôl y Comisiynwyr Cynorthwyol oedd cadeirio'r gwrandawliadau cyhoeddus a rhoi adroddiad annibynnol a diduedd i'r Comisiwn ar sail cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn y gwrandawliadau ac yn ysgrifenedig.
- 3.8 Bu'r Comisiynwyr Cynorthwyol yn adolygu'r holl gynrychiolaethau a dderbyniodd y Comisiwn yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf a'r ail gyfnod ymgynghori, a lluniwyd Adroddiad ar gyfer y Comisiwn. Roedd yr Adroddiad yn crynhoi'r hyn yr ystyriai'r Comisiynwyr Cynorthwyol oedd y pwyntiau amlwg a godwyd gan gynrychiolaethau, a gwnaeth argymhellion i'r Comisiwn ar ddiwygiadau y gellid eu gwneud i'r Cynigion Cychwynnol. Gellir gweld Adroddiad y comisiynwyr cynorthwyol ar wefan y Comisiwn.

### **Cynigion Diwygiedig**

- 3.9 Mae Adran 5(5) y Ddeddf yn rhoi'r pŵer i'r Comisiwn ddiwygio'i gynigion cychwynnol yng ngolau cynrychiolaethau a dderbyniwyd. Mae'r Ddeddf yn

darllen fel a ganlyn:

*(5) Os yw'r Comisiwn, ar ddiwedd yr ail gyfnod ymgynghori, â'u bryd ar ddiwygio'u cynigion gwreiddiol er mwyn argymhell etholaethau gwahanol, byddant yn cymryd camau fel y gwelant yn dda i hysbysu pobl ym mhob un o'r etholaethau arfaethedig diwygiedig hynny—*

*(a) beth yw'r cynigion diwygiedig,*

*(b) bod copi o'r cynigion diwygiedig yn agored i'w archwilio mewn lle penodedig yn yr etholaeth arfaethedig ddiwygiedig, ac*

*(c) y gellir gwneud cynrychiolaethau ysgrifenedig mewn perthynas â'r cynigion diwygiedig i'r Comisiwn yn ystod cyfnod penodedig o wyth wythnos."*

- 3.10 Yng ngoleuni'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd mewn perthynas â chynigion cychwynnol y Comisiwn, mae'r Comisiwn wedi penderfynu diwygio'i gynigion. Wrth ddatblygu cynigion diwygiedig, mae'r Comisiwn wedi ystyried y cynrychiolaethau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf a'r ail gyfnod ymgynghori, a'r argymhellion a wnaed gan y Comisiynwyr Cynorthwyol.
- 3.11 Amlinellir yr etholaethau arfaethedig ym Mhennod 5, a rhoddir manylion amdanynt yn Atodiadau 8 i 37 ac fe'u dangosir ar fapiau amlinell yn Atodiadau 4 i 6. Mae mapiau manylach ar gael hefyd ar wefan y Comisiwn yn [www.comffin-cymru.gov.uk](http://www.comffin-cymru.gov.uk), ac maent wedi'u rhoi ar adnau mewn lle dynodedig ym mhob etholaeth bresennol (gweler Atodiad 2 am fanylion pob etholaeth bresennol). Mae'r mapiau i'w defnyddio ar y cyd â'r wybodaeth ystadegol yn ymwneud â'r adrannau etholiadol, a gyflwynir ar ffurf tabl yn Atodiad 1. Mae'r wybodaeth hon yn dangos nifer etholwyr adrannau etholiadol 2011 y mae'r gyfraith yn mynnu bod y Comisiwn yn eu defnyddio ar gyfer yr arolwg hwn. Nodwch y rhybudd ynglŷn â hawlfraint, ym mharagraff 8.1, mewn perthynas â'r mapiau. Dylid nodi hefyd yn yr Adroddiad Cynigion Diwygiedig, y caiff yr etholaethau arfaethedig eu cyflwyno mewn trefn wahanol o'u cymharu â'r cynigion cychwynnol, gan ddechrau gyda 'Ceredigion and North Pembrokeshire' yn hytrach na 'Menai ac Ynys Môn'. Mae'r drefn hon at ddibenion cyflwyniadol yn unig, fel bod modd ymdrin â newidiadau arfaethedig a'u heffeithiau trawstoriadol mewn trefn synhwyrol, ac nid yw'n adlewyrchu sut y cafodd newidiadau eu gwneud.

### **Beth Nesaf?**

- 3.12 Yn dilyn y cyfnod ymgynghori o wyth wythnos ar y cynigion diwygiedig, a fydd yn rhedeg o 24 Hydref i 18 Rhagfyr 2012, bydd y Comisiwn yn ystyried p'un ai i wneud unrhyw newidiadau pellach i'w gynigion. Bydd argymhellion terfynol yn cael eu gwneud i'r Ysgrifennydd Gwladol erbyn mis Hydref 2013.

## 4 Crynodeb o'r Cynigion Diwygiedig

- Ar ôl archwilio'r cynrychiolaethau a gyflwynwyd ac ystyried argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi diwygio:
  - 21 o'i gynigion cychwynnol o ran eu cyfansoddiad daearyddol; mae rhai o'r newidiadau hyn yn sylweddol.
  - 14 o'r enwau arfaethedig.
- Cwota etholiadol y DU yw 76,641 gyda goddefiant o rhwng 95% a 105% o'r ffigur hwn (72,810 ac 80,473 yn y drefn honno). O dan y cynigion diwygiedig, byddai pob un o'r etholaethau o fewn yr amrediad statudol gyda 18 o etholaethau yn is na'r cwota etholiadol a 12 yn uwch na'r cwota etholiadol.
- Byddai 14 o'r etholaethau presennol yn gyfan gwbl o fewn etholaeth newydd (Alyn and Deeside, Blaenau Gwent, Brecon and Radnorshire, Bridgend, Cardiff West, Ceredigion, Dwyfor Meirionnydd, Llanelli, Merthyr Tydfil and Rhymney, Neath, Torfaen, Vale of Glamorgan, Wrexham, ac Ynys Môn).
- Byddai 6 Awdurdod Unedol yn gyfan gwbl o fewn etholaeth newydd (Blaenau Gwent, Ceredigion, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Sir Fynwy a Thor-faen).
- Byddai 6 o etholaethau dros 1,000 km<sup>2</sup> (Brecon, Radnor and Montgomery, Caerfyrddin, Ceredigion and North Pembrokeshire, Denbigh and North Montgomeryshire, Gwynedd, and South Pembrokeshire). Byddai 4 o'r etholaethau hyn rhwng 2,000 a 3,000 km<sup>2</sup> (Caerfyrddin, Ceredigion and North Pembrokeshire, Denbigh and North Montgomeryshire, a Gwynedd), a byddai un etholaeth dros 4,000 km<sup>2</sup> (Brecon, Radnor and Montgomery).
- Byddai 11 o'r enwau presennol yn cael eu cadw.
- Byddai 878 o'r 881 o adrannau etholiadol yng Nghymru yn gyfan gwbl o fewn etholaeth newydd. Ystyriwyd ei bod yn briodol rhannu 3 o adrannau etholiadol er mwyn cydymffurfio â Rheolau 2 a 5 (byddai Llansamlet, Ponciau a Thremeirchion yn cael eu rhannu i'w Cymunedau).



## 5 Cynigion Diwygiedig yn Fanwl

5.1 Disgrifir cynigion diwygiedig y Comisiwn yn fanwl yn y bennod hon. Ar gyfer pob etholaeth arfaethedig, mae'r adroddiad yn amlinellu:

- Enw'r etholaeth o dan y cynigion diwygiedig, gan gynnwys yr enw cyfatebol swyddogol arfaethedig os yw'n berthnasol.
- Pob etholaeth bresennol y mae'r cynnig yn effeithio arni yn uniongyrchol, gan gynnwys nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth a'r amrywiant canran o'r cwota etholiadol a lleiafswm yr amrediad statudol.
- Cyfansoddiad yr etholaeth y cynigiodd y Comisiwn yn y lle cyntaf, yr adrannau etholiadol roedd yn ei chynnwys, ei hamrywiant o'r cwota etholiadol a'r enw a awgrymwyd.
- Y prif ddadleuon a wnaed yn ystod yr ymgynghori cyhoeddus i gefnogi neu i wrthwynebu'r cynigion cychwynnol. Er na sonnir am yr holl gynrychiolaethau yn yr adroddiad hwn, mae'r Comisiwn wedi ystyried pob cynrychiolaeth a wnaed wrth benderfynu ar ddiwygiadau i'w gynigion. Mae rhagor o fanylion am y cynrychiolaethau a ddaeth i law ar gael yn Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol.
- Sylwadau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol.
- Ymateb y Comisiwn i'r cynrychiolaethau a'r argymhellion a wnaed.
- Cyfansoddiad yr etholaeth arfaethedig ddiwygiedig a'r enw arfaethedig.

Mewn nifer o achosion, mae materion yn cael effaith ar amrywiaeth o etholaethau arfaethedig y mae angen eu hystyried yn y rownd cyn bod modd ystyried etholaethau unigol. Yn yr achosion hyn, mae'r Comisiwn wedi ymdrin â'r materion hyn mewn blwch sydd wedi ei liwddangos.

### 1. Ceredigion and North Pembrokeshire (Ceredigion a Gogledd Sir Benfro)

5.2 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

1. Mae gan etholaeth bresennol **Carmarthen East and Dinefwr** CC gyfanswm o 54,285 o etholwyr sydd 29% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 25% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
2. Mae gan etholaeth bresennol **Ceredigion** CC gyfanswm o 56,006 o etholwyr sydd 27% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 23% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
3. Mae gan etholaeth bresennol **Preseli Pembrokeshire** CC gyfanswm o 57,966 o etholwyr sydd 24% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 ym mhob etholaeth a 20% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 ym mhob etholaeth.

5.3 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol;

1. etholaeth bresennol Ceredigion CC;
2. adran etholiadol Sir Gaerfyrddin Cenarth (1,705); ac,
3. adrannau etholiadol Sir Benfro Cilgerran (1,577), Clydau (1,170), Crymych (1,936), Dinas Cross (1,322), Gogledd Ddwyrain Abergwaun (1,481), Gogledd Orllewin Abergwaun (1,206), Wdig (1,512), Maenclochog (2,408), Trefdraeth (942), Scleddau (1,153) a Llandudoch (1,755).

Byddai gan yr etholaeth hon 74,173 o etholwyr sydd 3.2% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Ceredigion and North Pembrokeshire**.

5.4 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau ysgrifenedig, yn ogystal â chynrychiolaethau yn y gwrandawriadau cyhoeddus gan yr AS presennol dros Breseli Sir Benfro a Chynghorydd annibynnol Maenclochog, o blaid lleoli adran etholaethol Maenclochog yn 'South and West Pembrokeshire' yn hytrach na 'Ceredigion and North Pembrokeshire'. Roedd bron pob un o'r cynrychiolaethau hyn yn gynnwys gwrthgynnig i gynnwys adran etholiadol Sir Gaerfyrddin Llangeler yn 'Ceredigion and North Pembrokeshire' er mwyn bodloni'r amrediad statudol. Dadleuai'r cynrychiolaethau mai Llangeler oedd yr adran fwyaf priodol i ddod yn rhan o etholaeth 'Ceredigion and North Pembrokeshire' oherwydd ei chysylltiadau agos â Chastellnewydd Emlyn (yng Cenarth) a Llandysul (yng Ngheredigion).

5.5 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad canlynol: *"Rydym o'r farn bod cysylltiadau cryf eisoes yn bodoli rhwng adran etholiadol Maenclochog ac adrannau etholaethol eraill yn adran arfaethedig South and West Pembrokeshire. Câi'r cysylltiadau hynny eu torri, pe câi Maenclochog ei leoli mewn etholaeth wahanol, fel y'i cynigir yn y Cynigion Cychwynnol. Felly argymhellwn y dylid cynnwys adran etholiadol Maenclochog yn etholaeth South and West Pembrokeshire."* a *"Sylwn fod cryn gefnogaeth dros y cynnig, pe câi adran etholiadol Maenclochog ei chynnwys o fewn etholaeth arfaethedig South and West Pembrokeshire, yna byddai'n briodol cynnwys adran etholiadol Llangeler o fewn etholaeth arfaethedig Ceredigion and North Pembrokeshire gan fod ganddi gysylltiadau ag adrannau etholiadol a gynhwysir yn yr etholaeth arfaethedig honno."*

5.6 Mae'r argymhelliad hwn wedi'i seilio ar nifer o gynrychiolaethau sy'n amlinellu'r cysylltiadau cryf sydd gan adran etholiadol Maenclochog â Hwlfordd ac ardaloedd i'r de yn hytrach nag Aberteifi i'r gogledd. Mae trigolion Maenclochog hefyd yn troi at Arberth o fewn etholaeth 'South and West Pembrokeshire' am gyflogaeth, gwasanaethau, eu cysylltiadau diwylliannol a chymdeithasol a chysylltiadau â thrafnidiaeth. Ar ôl ystyried cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r

Comisiwn wedi dod i'r casgliad ei bod yn briodol dileu adran etholiadol Maenclochog o etholaeth arfaethedig 'Ceredigion and North Pembrokeshire' a lleoli adran etholiadol Sir Gaerfyrddin Llangeler yn yr etholaeth hon yn ei lle.

5.7 **Felly mae'r Comisiwn yn bwriadu creu etholaeth sirol o'r canlynol:**

1. etholaeth bresennol Ceredigion CC;
2. adrannau etholiadol Sir Gaerfyrddin Cenarth (1,705) a Llangeler (2,612); ac,
3. adrannau etholiadol Sir Benfro Cilgerran (1,577), Clydau (1,170), Crymych (1,936), Dinas Cross (1,322), Gogledd Ddwyrain Abergwaun (1,481), Gogledd Orllewin Abergwaun (1,206), Wdig (1,512), Trefdraeth (942), Scloddau (1,153) a Llandudoch (1,755).

**Byddai gan yr etholaeth hon 74,377 o etholwyr sydd 3% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.**

5.8 Cyn belled ag y mae enw'r etholaeth yn y cwestiwn, cafodd yr enw ei herio a'i dderbyn i'r un graddau. Dadleuai rhai fod yr ardal yn cynnwys llawer o amrediad Preseli a chyfran fawr o siaradwyr Cymraeg, ac felly y dylai'r enw gynnwys y term 'Preseli'. Fodd bynnag, cafodd yr enw gefnogaeth hefyd ar y sail bod yr etholaeth yn debyg iawn o ran cyfansoddiad i hen etholaeth 'Ceredigion and North Pembrokeshire'.

5.9 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid newid enw arfaethedig Ceredigion and North Pembrokeshire gan yr ystyriwyd bod yr enw "*yr un mor briodol neu'n fwy priodol na'r rhai a gynigir yn y cynrychiolaethau rydym wedi'u cael.*" Ar ôl ystyried y mater, mae'r Comisiwn yn parhau i fod o'r farn mai **Ceredigion and North Pembrokeshire** yw'r enw priodol ar yr etholaeth (gydag enw cyfatebol swyddogol **Ceredigion a Gogledd Sir Benfro**).

## **2. South Pembrokeshire (De Sir Benfro)**

5.10 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

1. Mae gan etholaeth bresennol **Carmarthen West and South Pembrokeshire** CC gyfanswm o 58,504 o etholwyr sydd 24% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth ac 20% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
2. Mae gan etholaeth bresennol **Preseli Pembrokeshire** CC gyfanswm o 57,966 o etholwyr sydd 24% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth ac 20% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.

- 5.11 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o adrannau etholiadol Sir Benfro Amroth (995), Burton (1,448), Camrose (2,081), Caerew (1,193), East Williamston (1,888), Hwlfordd: Y Castell (1,620), Hwlfordd: Garth (1,737), Hwlfordd: Portfield (1,723), Hwlfordd: Prendergast (1,315), Hwlfordd: Priordy (1,935), Hundleton (1,464), Johnston (1,911), Cilgeti/Begeli (1,748), Llanbedr Felfre (1,292), Lamphey (1,350), Treletert (1,741), Llangwm (1,746), Llanrhian (1,228), Manorbier (1,608), Martletwy (1,104), Merlin's Bridge (1,611), Milford: Canol (1,499), Milford: Dwyrain (1,501), Milford: Hakin (1,813), Milford: Hubberston (1,804), Milford: Gogledd (1,979), Milford: Gorllewin (1,622), Arberth (1,546), Arberth Wledig (1,237), Neyland: Dwyrain (1,801), Neyland: Gorllewin (1,643), Doc Penfro: Canol (1,087), Doc Penfro: Llanion (2,039), Doc Penfro: Market (1,263), Doc Penfro: Pennar (2,387), Penfro: Monkton (1,076), Penfro: Gogledd St. Mary (1,410), Penfro: De St. Mary (1,034), Penfro: St. Michael (1,999), Penalun (1,269), Rudbaxton (1,359), Saundersfoot (2,065), Solfach (1,155), St. David's (1,503), St. Ishmael's (1,127), Dinbych-y-Pysgod: Gogledd (1,659), Dinbych-y-Pysgod: De (1,802), The Havens (1,143) ac Wiston (1,459). Byddai gan yr etholaeth hon 76,039 o etholwyr sydd 0.8% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **South and West Pembrokeshire**.
- 5.12 Fel y soniwyd yn gynharach yn 5.4, cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau o blaid lleoli adran etholiadol Maenclochog yn 'South and West Pembrokeshire' yn hytrach na 'Ceredigion and North Pembrokeshire'. Roedd bron pob un o'r cynrychiolaethau hyn yn cynnwys gwrthgynnig cynnwys adran etholiadol Sir Gaerfyrddin Llangeler yn 'Ceredigion and North Pembrokeshire' er mwyn bodloni'r amrediad statudol. Dadleuai'r cynrychiolaethau mai Llangeler oedd yr adran fwyaf priodol i ddod yn rhan o etholaeth 'Ceredigion and North Pembrokeshire' oherwydd ei chysylltiadau agos â Chastellnewydd Emlyn (yng Cenarth) a Llandysul (yng Ngheredigion).
- 5.13 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad canlynol: *"Rydym o'r farn bod cysylltiadau cryf eisoes yn bodoli rhwng adran etholiadol Maenclochog ac adrannau etholaethol eraill yn adran arfaethedig South and West Pembrokeshire. Câi'r cysylltiadau hynny eu torri, pe câi Maenclochog ei leoli mewn etholaeth wahanol, fel y'i cynigir yn y Cynigion Cychwynnol. Felly argymhellwn y dylid cynnwys adran etholiadol Maenclochog yn etholaeth South and West Pembrokeshire."*
- 5.14 Amlinellodd nifer o gynrychiolaethau y cysylltiadau cryf sydd gan adran etholiadol Maenclochog â Hwlfordd ac ardaloedd i'r de yn hytrach nag ag Aberteifi i'r gogledd. Mae trigolion Maenclochog hefyd yn troi at Arberth o fewn etholaeth 'South and West Pembrokeshire' am gyflogaeth, gwasanaethau, eu cysylltiadau diwylliannol a chymdeithasol a chysylltiadau â thrafnidiaeth. Ar ôl ystyried cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad ei bod yn briodol cynnwys

adran etholiadol Maenclochog yn etholaeth arfaethedig 'South and West Pembrokeshire'.

- 5.15 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o adrannau etholiadol Sir Benfro Amroth (995), Burton (1,448), Camrose (2,081), Caerew (1,193), East Williamston (1,888), Hwlffordd: Y Castell (1,620), Hwlffordd: Garth (1,737), Hwlffordd: Portfield (1,723), Hwlffordd: Prendergast (1,315), Hwlffordd: Priordy (1,935), Hundleton (1,464), Johnston (1,911), Cilgeti/Begeli (1,748), Llanbedr Felfre (1,292), Lamphey (1,350), Treletert (1,741), Llangwm (1,746), Llanrhian (1,228), Maenclochog (2,408), Manorbier (1,608), Martletwy (1,104), Merlin's Bridge (1,611), Milford: Canol (1,499), Milford: Dwyrain (1,501), Milford: Hakin (1,813), Milford: Hubberston (1,804), Milford: Gogledd (1,979), Milford: Gorllewin (1,622), Arberth (1,546), Arberth Wledig (1,237), Neyland: Dwyrain (1,801), Neyland: Gorllewin (1,643), Doc Penfro: Canol (1,087), Doc Penfro: Llanion (2,039), Doc Penfro: Market (1,263), Doc Penfro: Pennar (2,387), Penfro: Monkton (1,076), Penfro: Gogledd St. Mary (1,410), Penfro: De St. Mary (1,034), Penfro: St. Michael (1,999), Penalun (1,269), Rudbaxton (1,359), Saundersfoot (2,065), Solfach (1,155), St. David's (1,503), St. Ishmael's (1,127), Dinbych-y-Pysgod: Gogledd (1,659), Dinbych-y-Pysgod: De (1,802), The Havens (1,143) ac Wiston (1,459). Byddai gan yr etholaeth hon 78,447 o etholwyr sydd 2.4% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 5.16 Derbyniwyd yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth yn gyffredinol ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ei fod yn cyfeirio'n fras at yr ardal y mae'n ei gwmpasu. Fodd bynnag, awgrymwyd enwau byrrach eraill.
- 5.17 Daeth Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad canlynol: *"Argymhellwn y dylid enwi etholaeth arfaethedig South and West Pembrokeshire yn South Pembrokeshire. Yn ein barn ni, mae South Pembrokeshire yn disgrifio'n gywir ardal ddaearyddol yr etholaeth."* Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r argymhelliad hwn ac felly mae'n cynnig yr enw **South Pembrokeshire** ar gyfer yr etholaeth (gydag enw cyfatebol swyddogol **De Sir Benfro**).

### 3. Caerfyrddin (Carmarthen)

- 5.18 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
1. Mae gan etholaeth bresennol **Carmarthen East and Dinefwr** CC gyfanswm o 54,285 o etholwyr sydd 29% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 25% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  2. Mae gan etholaeth bresennol **Carmarthen West and South Pembrokeshire** CC gyfanswm o 58,504 o etholwyr sydd 24% yn is na

chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 20% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 ym mhob etholaeth.

- 5.19 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o adrannau etholiadol Sir Gaerfyrddin Abergwili (1,822), Rhydaman (1,907), Betws (1,616), Tref Caerfyrddin Gogledd (3,800), Tref Caerfyrddin De (2,791), Tref Caerfyrddin Gorllewin (3,681), Cilycwm (1,155), Cynwyl Elfed (2,471), Cynwyl Gaeo (1,306), Garnant (1,535), Glanaman (1,785), Gorslas (3,160), Maestref Talacharn (2,236), Llanboidy (1,606), Llanddarog (1,565), Llandeilo (2,262), Llanymddyfri (2,082), Llandybie (3,017), Llanegwad (1,949), Llanfihangel Aberbythych (1,435), Llanfihangel-ar-Arth (2,155), Llangadog (1,547), Llangeler (2,612), Llangynnwr (1,895), Llangyndeyrn (2,401), Llansteffan (1,676), Llanybydder (1,932), Manordeilo a Salem (1,765), Penygroes (2,134), Pontaman (DET)(2,123), Cwarter Bach (2,156), Sanctlêr (2,312), Llanismel (2,168), Saron (3,096), Trelech (1,700) a Hendy-gwyn-ar-Daf (1,696). Byddai gan yr etholaeth hon 76,549 o etholwyr sydd 0.1% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Caerfyrddin**.
- 5.20 Fel y soniwyd yn gynharach yn 5.4, cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau o blaid lleoli adran etholiadol Maenclochog yn 'South and West Pembrokeshire' yn hytrach na 'Ceredigion and North Pembrokeshire', ynghyd â gwrthgynnig cynnwys adran etholiadol Sir Gaerfyrddin Llangeler yn 'Ceredigion and North Pembrokeshire' er mwyn sicrhau bod pob etholaeth yn bodloni'r amrediad statudol.
- 5.21 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad canlynol: *"Rydym o'r farn bod cysylltiadau cryf eisoes yn bodoli rhwng adran etholiadol Maenclochog ac adrannau etholaethol eraill yn adran arfaethedig South and West Pembrokeshire. Câl'r cysylltiadau hynny eu torri, pe câi Maenclochog ei leoli mewn etholaeth wahanol, fel y'i cynigir yn y Cynigion Cychwynnol. Felly argymhellwn y dylid cynnwys adran etholiadol Maenclochog yn etholaeth South and West Pembrokeshire."* a *"Sylwn fod cryn gefnogaeth dros y cynnig, pe câi adran etholiadol Maenclochog ei chynnwys o fewn etholaeth arfaethedig South and West Pembrokeshire, yna byddai'n briodol cynnwys adran etholiadol Llangeler o fewn etholaeth arfaethedig Ceredigion and North Pembrokeshire gan fod ganddi gysylltiadau ag adrannau etholiadol a gynhwysir yn yr etholaeth arfaethedig honno."*
- 5.22 Ar ôl ystyried cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad ei bod yn briodol dileu adran etholiadol Llangeler o etholaeth arfaethedig Caerfyrddin. Mae hyn yn adlewyrchu'r cysylltiadau cryf sydd gan Llangeler â Chastellnewydd Emlyn a Llandysul ac mae'n caniatáu cynnwys adran etholiadol Maenclochog ynghyd ag etholaeth newydd 'South Pembrokeshire'.

- 5.23 Felly mae'r Comisiwn yn bwriadu creu etholaeth sirol o adrannau etholiadol Sir Gaerfyrddin Abergwili (1,822), Rhydaman (1,907), Betws (1,616), Tref Caerfyrddin Gogledd (3,800), Tref Caerfyrddin De (2,791), Tref Caerfyrddin Gorllewin (3,681), Cilycwm (1,155), Cynwyl Elfed (2,471), Cynwyl Gaeo (1,306), Garnant (1,535), Glanaman (1,785), Gorslas (3,160), Maestref Talacharn (2,236), Llanboidy (1,606), Llanddarog (1,565), Llandeilo (2,262), Llanymddyfri (2,082), Llandybie (3,017), Llanegwad (1,949), Llanfihangel Aberbythych (1,435), Llanfihangel-ar-Arth (2,155), Llangadog (1,547), Llangeler (2,612), Llangynnwr (1,895), Llangyndeyrn (2,401), Llansteffan (1,676), Llanybydder (1,932), Manordeilo a Salem (1,765), Penygroes (2,134), Pontaman (DET)(2,123), Cwarter Bach (2,156), Sanclêr (2,312), Llanismel (2,168), Saron (3,096), Trelech (1,700) a Hendy-gwyn-ar Daf (1,696). Byddai gan yr etholaeth hon 73,937 o etholwyr sydd 3.5% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 5.24 Mae rhywfaint o wrthwynebiad wedi codi ynghylch rhoi enw Cymraeg ar yr etholaeth hon a gallai fod yn anodd i unigolyn Saesneg ei iaith ei ynganu o bosibl. Felly cynigwyd enwau megis 'Carmarthen' neu 'Carmarthenshire'. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn hefyd wedi cael cefnogaeth mewn perthynas â defnyddio'r enw Cymraeg hanesyddol.
- 5.25 Nid argymellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid newid enw etholaeth arfaethedig Caerfyrddin gan yr ystyriwyd bod yr enw "*yr un mor briodol â'r rhai a gynigir yn y cynrychiolaethau rydym wedi'u cael, neu'n fwy priodol na nhw.*" Ar ôl ystyried y mater, mae'r Comisiwn yn parhau i fod o'r farn mai **Caerfyrddin** yw'r enw priodol ar yr etholaeth (gydag enw cyfatebol swyddogol **Carmarthen**).

#### **Nodyn ar y cynigion cychwynnol ar gyfer Gower and Swansea West, Llanelli a Swansea East**

- 5.26 Cafodd y Comisiwn nifer sylweddol o gynrychiolaethau mewn perthynas â'r etholaethau hyn ac mae pob un ohonynt yn rhyng-gysylltiedig. Yn benodol, awgrymodd y Blaid Lafur ac eraill:
- Y dylid rhannu adran etholiadol Y Castell yn Abertawe o 'Swansea East' yn ymyl afon Tawe ac mai dyma ffin naturiol etholaeth. Haerwyd hefyd nad oes gan adran etholiadol Y Castell fawr ddim yn gyffredin gyda'r ardal ar ochr ddwyreiniol yr afon.
  - Mae gan Gymunedau Gorseinon (adrannau etholiadol Gorseinon a Penyrheol) a Lluchwr (adrannau etholiadol Pontybrenin, Lluchwr Isaf a Lluchwr Uchaf) gysylltiadau cynhenid ac ni ddylid eu rhannu rhwng etholaethau, ac roedd hyn yn wir yn achos cynigion cychwynnol y Comisiwn.

5.27 Cafodd cynigion cychwynnol y Comisiwn ar gyfer yr ardal hon rywfaint o gefnogaeth ar y sail eu bod yn bodloni gofynion y Ddeddf, eu bod yn parchu cysylltiadau cymunedol, yn rhannu Dinas Abertawe mewn man priodol ac yn lleoli rhannau priodol o Awdurdod Unedol Abertawe gyda Llanelli. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau penodol fel a ganlyn:

- Yn wir, mae gan adran etholiadol Y Castell gysylltiadau ag ochr ddwyreiniol Afon Tawe a bod y datblygiadau newydd ar hyd glannau Abertawe wedi gwella'r cyswllt hwn ond mae ganddo gysylltiadau hefyd â Townhill.
- Mae cysylltiadau sylweddol a hanesyddol rhwng Pontarddulais a'r Hendy a chafodd y rhain eu hadlewyrchu yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn.
- Dylai tref Tre-gŵyr barhau i fod yn rhan o unrhyw etholaeth sy'n cynnwys Penrhyn Gŵyr.

5.28 Mae'r Comisiwn wedi ystyried pob cynrychiolaeth a wnaed ac mae'n cydnabod yr achosion cryf a wnaed o blaid pob cynnig ac yn eu herbyn ar gyfer yr ardal hon. Mae prif gasgliadau'r Comisiwn fel a ganlyn:

- Er bod Afon Tawe yn ffin naturiol yn hanesyddol ar gyfer etholaethau yn Abertawe, mae gan adran etholiadol Y Castell gysylltiadau ag ochr ddwyreiniol Afon Tawe ac mae'r datblygiadau newydd ar hyd glannau Abertawe wedi gwella'r cysylltiad hwn.
- Mae gan Gymunedau Gorseinon a Lluchwr gysylltiadau cynhenid ac ni ddylid eu rhannu rhwng etholaethau.
- Mae Cymuned Pontarddulais (adran etholiadol Pontarddulais) a thref Yr Hendy (adran etholiadol Yr Hendy) yn gysylltiedig ac ni ddylid eu rhannu rhwng etholaethau.
- Dylai tref Tre-Gŵyr fod yn etholaeth 'Gower'. Byddai gwahanu tref Tre-Gŵyr oddi wrth benrhyn Gŵyr yn amhriodol.

5.29 Mae'r Comisiwn yn cynnig y tair etholaeth ddiwygiedig a ganlyn gan ystyried yr argymhellion a wnaed, y gefnogaeth a gafwyd a'r dewisiadau amgen a awgrymwyd ac yn sgil gwerthuso'r sylwadau yn erbyn y meini prawf statudol yn ofalus.

#### 4. Llanelli

5.30 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

1. Mae gan etholaeth bresennol **Gower** CC gyfanswm o 62,148 o etholwyr sydd 19% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 ym mhob etholaeth a 15% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.



2. Mae gan etholaeth bresennol **Llanelli** CC gyfanswm o 58,447 o etholwyr sydd 24% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 20% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.

5.31 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. etholaeth bresennol Llanelli CC ac,
2. adrannau etholiadol Dinas a Sir Abertawe Gorseinon (3,199), Llangyfelach (3,865), Penlle'r-gaer (2,248), Penyrheol (4,435) a Phontarddulais (4,776).

Byddai gan yr etholaeth hon 76,970 o etholwyr sydd 0.4% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Llanelli**.

5.32 Fel y'i disgrifiwyd yn 5.26 i 5.29, cafodd y Comisiwn nifer sylweddol o gynrychiolaethau mewn perthynas â'r etholaeth hon a rhai 'Gower and Swansea West' a 'Swansea East', y mae pob un ohonynt yn rhyng-gysylltiedig. Yn benodol, haerodd y Blaid Lafur ac eraill fod gan Gymunedau Gorseinon (adrannau etholiadol Gorseinon a Penyrheol) a Lluchwr (adrannau etholiadol Pontybrenin, Lluchwr Isaf a Lluchwr Uchaf) gysylltiadau cynhenid ac na ddylid eu rhannu rhwng etholaethau. Haerodd Cyngor Cymuned Llangyfelach hefyd fod ganddynt gysylltiadau agosach â Threforys a Mynyddbach yn 'Swansea East' na'r cymunedau i'r gorllewin o Abertawe.

5.33 Cafodd cynigion cychwynnol y Comisiwn gefnogaeth y Blaid Geidwadol yn bennaf ond maent hefyd wedi cael cefnogaeth gan eraill ar y sail eu bod yn bodloni gofynion y Ddeddf, yn parchu cysylltiadau cymunedol, yn rhannu Dinas Abertawe mewn man priodol ac yn lleoli rhannau priodol o Awdurdod Unedol Abertawe gyda Llanelli. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau penodol fod cysylltiadau sylweddol a hanesyddol rhwng Pontarddulais a'r Hendy a adlewyrchwyd gan gynigion cychwynnol y Comisiwn ac y dylai tref Tre-gŵyr barhau i fod yn rhan o unrhyw etholaeth sy'n cynnwys penrhyn Gŵyr.

5.34 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad: *"Felly, rydym o'r farn, y dylid cynnwys adrannau etholiadol Lluchwr Isaf, Lluchwr Uchaf a Pontybrenin o fewn etholaeth arfaethedig Llanelli ynghyd ag adrannau etholiadol Gorseinon a Penyrheol."*, *"...rydym yn fodlon ei bod yn briodol cynnwys adran etholiadol Pontarddulais o fewn etholaeth arfaethedig Llanelli fel y mae'r Cynigion Cychwynnol yn ei gynnig."* ac *"Rydym o'r farn y dylid cynnwys adrannau etholiadol Llangyfelach a Penlle'r-gaer o fewn etholaeth arfaethedig Swansea East yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Llanelli er mwyn osgoi newidiadau a fyddai'n torri'r cysylltiadau lleol presennol rhwng yr adrannau etholiadol hyn."*

5.35 Ar ôl ystyried cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad y dylid diwygio eu cynnig cychwynnol ar gyfer etholaeth 'Llanelli' er mwyn sicrhau bod Cymunedau Gorseinon a Llchwyr yn dod ynghyd mewn un etholaeth, bod y cysylltiad rhwng Pontarddulais a'r Hendy yn cael ei gadw, bod Tre-gŵyr yn parhau i fod yn etholaeth 'Gower' a bod Llangyfelach a Penlle'r-gaer mewn etholaeth gyda Treforys a Mynydd-bach y mae ganddynt gysylltiadau economaidd a chymdeithasol cryfach gyda nhw. Mae'r newidiadau hyn yn caniatáu creu etholaethau yn yr ardal hon sy'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well.

5.36 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**

1. **etholaeth bresennol Llanelli CC ac,**
2. **adrannau etholiadol Dinas a Sir Abertawe Gorseinon (3,199), Pontybrenin (3,275), Llchwyr Isaf (1,821), Penyrheol (4,435), Pontarddulais (4,776) a Llchwyr Uchaf (2,194).**

**Byddai gan yr etholaeth hon 78,147 o etholwyr sydd 2% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.**

5.37 Er nad oedd llawer iawn o wrthwynebiad i'r enw arfaethedig ar gyfer etholaeth arfaethedig 'Llanelli', roedd rhai pobl yn teimlo y dylid cydnabod y rhannau a oedd newydd eu cynnwys yn yr etholaeth o Abertawe neu Ddyffryn Lliw, yn enw'r etholaeth.

5.38 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid newid yr enw ar etholaeth arfaethedig Llanelli gan yr ystyriwyd bod yr enw "*yr un mor briodol na'r rhai a gynigir yn y cynrychiolaethau rydym wedi'u cael, neu'n fwy priodol na nhw.*" Ar ôl ystyried y mater, mae'r Comisiwn yn parhau i fod o'r farn mai **Llanelli** yw'r enw priodol ar yr etholaeth.

## **5. Gower and Swansea West (Gŵyr a Gorllewin Abertawe)**

5.39 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig arnynt fel a ganlyn:

1. Mae gan etholaeth bresennol **Gower** CC gyfanswm o 62,148 o etholwyr sydd 19% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 15% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
2. Mae gan etholaeth bresennol **Swansea West** BC gyfanswm o 62,152 o etholwyr sydd 19% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 15% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.

5.40 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o adrannau etholiadol Dinas a Sir Abertawe Llandeilo Ferwallt (2,758), Dunfant

(3,607), Fairwood (2,319), Gŵyr (3,039), Tre-gŵyr (4,063), Gogledd Cilâ (3,317), De Cilâ (1,963), Pontybrenin (3,275), Llwchwr Isaf (1,821), Maylas (2,199), Newton (2,831), Ystumllwynarth (3,407), Penclawdd (3,024), Pennard (2,247), Sgeti (11,976), Townhill (6,083), Uplands (12,018), Llwchwr Uchaf (2,194) ac West Cross (5,312). Byddai gan yr etholaeth 77,453 o etholwyr sydd 1.1% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Gower and Swansea West**.

- 5.41 Fel y'i disgrifiwyd yn 5.26 i 5.29, cafodd y Comisiwn nifer sylweddol o gynrychiolaethau mewn perthynas â'r etholaeth hon ac etholaethau 'Llanelli' a 'Swansea East' y mae pob un o'r rhain yn rhyng-gysylltiedig. Yn benodol, ar gyfer yr etholaeth hon, cafodd y Comisiwn nifer fawr o gynrychiolaethau yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori yn gwrthwynebu gwrthgynnig y Blaid Lafur a fyddai'n golygu y câi Tre-gŵyr ei gynnwys yn etholaeth Llanelli.
- 5.42 Awgrymodd y Blaid Lafur ac eraill y dylid rhannu adran etholiadol Y Castell yn Abertawe o 'Swansea East' yn ymyl afon Tawe gan fod hon yn ffin naturiol ar gyfer etholaeth. Haeriwyd hefyd nad oes gan adran etholiadol Y Castell fawr ddim yn gyffredin gyda'r ardal ar ochr ddwyreiniol yr afon a bod gan Gymunedau Gorseinon (adrannau etholiadol Gorseinon a Penyrheol) a Llwchwr (adrannau etholiadol Pontybrenin, Llwchwr Isaf a Llwchwr Uchaf) gysylltiadau cynhenid ac na ddylid eu rhannu rhwng etholaethau.
- 5.43 Cafodd cynigion cychwynnol y Comisiwn eu cefnogi gan y Blaid Geidwadol yn bennaf ond maent hefyd wedi cael cefnogaeth gan eraill ar y sail eu bod yn bodloni gofynion y Ddeddf, yn parchu cysylltiadau cymunedol, yn rhannu Dinas Abertawe mewn man priodol ac yn lleoli rhannau priodol o Awdurdod Unedol Abertawe gyda Llanelli. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau penodol fod gan adran etholiadol Y Castell gysylltiadau ag ochr ddwyreiniol Afon Tawe a bod y datblygiadau newydd ar hyd glannau Abertawe wedi gwella'r cysylltiad hwn. Cafodd gynrychiolaethau hefyd y dylai tref Tre-gŵyr barhau i fod yn rhan o unrhyw etholaeth sy'n cynnwys Penrhyn Gŵyr. Cafodd y Comisiwn dystiolaeth hefyd am y cysylltiad rhwng adran etholiadol Y Castell a Townhill.
- 5.44 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad: *"Felly, rydym o'r farn y dylid cynnwys adrannau etholiadol Llwchwr Isaf, Llwchwr Uchaf a Pontybrenin o fewn etholaeth arfaethedig Llanelli..."* a *"y newidiadau sy'n adlewyrchu'r meini prawf statudol orau yw cynnwys adran etholiadol Townhill o fewn etholaeth arfaethedig Swansea East ac adran etholiadol Cocyd o fewn etholaeth arfaethedig Gower and Swansea West."*
- 5.45 Ar ôl ystyried cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwywr, mae'r Comisiwn, am y rhesymau a roddwyd gan y Comisiynwyr Cynorthwyol, wedi dod i'r casgliad y dylid diwygio ei gynnig cychwynnol ar gyfer etholaeth 'Gower and Swansea West' fel bod Cymunedau Gorseinon a Llwchwr yn dod

ynghyd mewn un etholaeth a bod Tre-gŵyr yn parhau i fod mewn etholaeth 'Gower'. Mae'r newidiadau hyn yn caniatáu creu etholaethau yn yr ardal hon sy'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well.

- 5.46 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o adrannau etholiadol Dinas a Sir Abertawe Llandeilo Ferwallt (2,758), Cocyd (10,435), Dunfant (3,607), Fairwood (2,319), Gŵyr (3,039), Tre-gŵyr (4,063), Gogledd Cilâ (3,317), De Cilâ (1,963), Maylas (2,199), Newton (2,831), Ystumllwynarth (3,407), Penclawdd (3,024), Pennard (2,247), Sgeti (11,976), Uplands (12,018), ac West Cross (5,312). Byddai gan yr etholaeth hon 74,515 o etholwyr sydd 2.8% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 5.47 Derbyniwyd yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth yn gyffredinol ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ei fod yn cyfeirio'n fras at yr ardal y mae'n ei gwmpasu.
- 5.48 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid newid enw etholaeth arfaethedig Gower and Swansea West gan yr ystyriwyd bod yr enw "*yr un mor briodol â'r enwau a gynigiwyd yn y cynrychiolaethau rydym wedi'u cael, neu'n fwy priodol na nhw.*" Ar ôl ystyried y mater, mae'r Comisiwn yn parhau i fod o'r farn mai **Gower and Swansea West** (gydag enw cyfatebol swyddogol **Gŵyr a Gorllewin Abertawe**) yw'r enw priodol ar yr etholaeth.

### Swansea East (Dwyrain Abertawe)

- 5.49 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
1. Mae gan etholaeth bresennol **Gower** CC gyfanswm o 62,148 o etholwyr sydd 19% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 15% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  2. Mae gan etholaeth bresennol **Swansea East** BC gyfanswm o 60,554 o etholwyr sydd 21% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 17% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  3. Mae gan etholaeth bresennol **Swansea West** BC gyfanswm o 62,152 o etholwyr sydd 19% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 15% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 5.50 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth fwrdeistrefol o adrannau etholiadol Sir Abertawe Bôn-y-maen (5,122), Y Castell (10,544), Cocyd (10,435), Cwmbwrla (6,095), Glandwr (4,599), Llansamlet (heb Gymuned Birchgrove) (5,994), Treforys (13,160), Mynyddbach (7,085), Penderi (8,360) a St. Thomas (5,233). Byddai gan yr etholaeth

hon 76,637 o etholwyr sydd pedwar etholwr yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Swansea East**.

- 5.51 Fel y'i disgrifir yn 5.26 i 5.29, cafodd y Comisiwn nifer sylweddol o gynrychiolaethau mewn perthynas â'r etholaeth hon a rhai 'Gower and Swansea West' a 'Llanelli', y mae pob un ohonynt yn rhyng-gysylltiedig. Yn benodol, haerodd y Blaid Lafur ac eraill y dylai adran etholiadol Y Castell yn Abertawe gael ei rhannu oddi wrth 'Swansea East' yn ymyl afon Tawe ac mai hon oedd ffin naturiol yr etholaeth. Haerwyd hefyd nad oes gan adran etholiadol Y Castell fawr ddim yn gyffredin gyda'r ardal ar ochr ddwyreiniol yr afon. Haerodd Cyngor Cymuned Llangyfelach hefyd fod ganddynt gysylltiadau agosach â Treforys a Mynydd-bach yn 'Swansea East' na'r cymunedau i'r gorllewin o Abertawe a Llanelli.
- 5.52 Cafodd cynigion cychwynnol y Comisiwn gefnogaeth y Blaid Geidwadol yn bennaf ond maent hefyd wedi cael cefnogaeth gan eraill ar y sail eu bod yn bodloni gofynion y Ddeddf, yn parchu cysylltiadau cymunedol, yn rhannu Dinas Abertawe mewn man priodol a rhoi rhannau priodol o Awdurdod Unedol Abertawe gyda Llanelli. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau penodol fod cysylltiadau sylweddol a hanesyddol rhwng Pontarddulais a'r Hendy a adlewyrchwyd gan gynigion cychwynnol y Comisiwn a bod gan adran etholiadol Y Castell gysylltiadau ag ochr ddwyreiniol Afon Tawe a bod y datblygiadau newydd ar hyd glannau Abertawe wedi gwella'r cysylltiad hwn.
- 5.53 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad: *"...rydym yn fodlon ei bod yn briodol cynnwys adran etholiadol Pontarddulais o fewn etholaeth arfaethedig Llanelli fel y mae'r Cynigion Cychwynnol yn ei gynnig."* a bod *"Rydym o'r farn y dylid cynnwys adrannau etholiadol Llangyfelach a Penlle'r-gaer o fewn etholaeth arfaethedig Swansea East yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Llanelli er mwyn osgoi newidiadau a fyddai'n torri'r cysylltiadau lleol sydd eisoes yn bodoli rhwng yr adrannau etholiadol hyn."* a *"y newidiadau sy'n adlewyrchu'r meini prawf statudol orau yw cynnwys adran etholiadol Townhill o fewn etholaeth arfaethedig Swansea East ac adran etholiadol Cocyd o fewn etholaeth arfaethedig Gower and Swansea West."*
- 5.54 Ar ôl ystyried cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad, am y rhesymau a roddwyd gan y Comisiynwyr Cynorthwyol, y dylid diwygio ei gynnig cychwynnol ar gyfer etholaeth 'Swansea East' er mwyn sicrhau bod Llangyfelach a Penlle'r-gaer mewn etholaeth â Treforys a Mynydd-bach, y caiff y cysylltiad rhwng Pontarddulais a'r Hendy ei gadw a bod Tre-gŵyr yn parhau i fod yn etholaeth 'Gower'. Mae'r newidiadau hyn yn caniatáu creu etholaethau yn yr ardal hon sy'n adlewyrchu'r meini prawf statudol hyn yn well.
- 5.55 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth fwrdeistrefol o adrannau etholiadol Dinas a Sir Abertawe Bôn-y-maen (5,122), Y Castell (10,544),**

**Cwmbwrla (6,095), Glandwr (4,599), Llangyfelach (3,865), Llansamlet (heb Gymuned Birchgrove) (5,994), Treforys (13,160), Mynydd-bach (7,085), Penderi (8,360), Penlle'r-gaer (2,248), St. Thomas (5,233) a Townhill (6,083). Byddai gan yr etholaeth hon 78,398 o etholwyr sydd 2.3% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.**

- 5.56 Derbyniwyd yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth yn gyffredinol ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ei fod yn cyfeirio'n fras am yr ardal y mae'n ei gwmpasu.
- 5.57 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid newid yr enw ar etholaeth arfaethedig Swansea East gan yr ystyriwyd bod yr enw "*yr un mor briodol â'r enwau a gynigiwyd yn y cynrychiolaethau rydym wedi'u cael, neu'n fwy priodol na nhw.*" Ar ôl ystyried y mater, mae'r Comisiwn yn parhau i fod o'r farn mai'r enw priodol ar gyfer yr etholaeth yw **Swansea East** (gydag enw cyfatebol swyddogol **Dwyrain Abertawe**).

## **7. Neath and the Swansea Valley (Castell-nedd a Chwm Tawe)**

- 5.58 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
1. Mae gan etholaeth bresennol **Aberavon** CC gyfanswm o 51,034 o etholwyr sydd 33% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 30% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  2. Mae gan etholaeth bresennol **Gower** CC gyfanswm o 62,148 o etholwyr sydd 19% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 15% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  3. Mae gan etholaeth bresennol **Neath** CC gyfanswm o 57,618 o etholwyr sydd 25% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 21% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  4. Mae gan etholaeth bresennol **Swansea East** BC gyfanswm o 60,554 o etholwyr sydd 21% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 17% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 5.59 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o:
1. etholaeth bresennol Neath CC;
  2. adrannau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot Coed-ffranc Ganol, (3,006), Gogledd Coed-ffranc (1,835) a Gorllewin Coed-ffranc (2,047); ac,
  3. adrannau etholiadol Dinas a Sir Abertawe Clydach (5,850), Mawr (1,485) a Llansamlet (heb Gymuned Llansamlet) (4,906).

Byddai gan yr etholaeth hon 76,747 o etholwyr sydd 0.1% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Neath**.

- 5.60 Cafodd y Comisiwn nifer fach yn unig o gynrychiolaethau yn ymwneud ag etholaeth arfaethedig 'Neath' ac roedd y cynrychiolaethau a gafodd y Comisiwn yn gefnogol i raddau helaeth. Fodd bynnag, cafodd y Comisiwn un gynrychiolaeth yn mynegi gwrthwynebiad mewn egwyddor at ychwanegu Cwm Tawe at Gastell-nedd Port Talbot.
- 5.61 Roedd y Comisiwn wedi ystyried y posibilrwydd o gynnwys pob rhan o Gwm Tawe neu ran ohono mewn etholaeth yn Abertawe. Fodd bynnag, byddai gwneud newid fel hyn yn cael effeithiau negyddol sylweddol o ganlyniad. I'r gorllewin, byddai'r rhain yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i etholaeth 'Llanelli' ymylu'n ymhellach i ddinas Abertawe a thorri ffiniau Awdurdodau Unedol yng Ngorllewin Cymru ymhellach. I'r dwyrain, byddai'n ei gwneud yn ofynnol torri ar draws ffiniau Awdurdodau Unedol ymhellach ym Mhen-y-Bont ac Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Casnewydd, Sir Fynwy a Phowys.
- 5.62 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol unrhyw newidiadau i gyfansoddiad etholaeth arfaethedig Neath. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad "*Mae etholaeth bresennol Neath eisoes yn cynnwys adrannau etholiadol yn cynnwys rhan fawr o Gwm Tawe ac yn ein barn ni, mae'r Cynigion Cychwynnol, yn estyniad rhesymegol o'r ymagwedd honno.*"
- 5.63 Ar ôl ystyried cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn yn parhau i fod o'r farn bod ymestyn Cwm Tawe ac ychwanegu Coed-ffranc yn gwneud etholaeth briodol. Daw'r Comisiwn i'r casgliad mai cynigion cychwynnol 'Neath' yw'r rhai mwyaf priodol ar gyfer yr ardal.
- 5.64 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o:**
1. **etholaeth bresennol Neath CC;**
  2. **adrannau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot Coed-ffranc Ganol, (3,006), Gogledd Coed-ffranc (1,835) a Gorllewin Coed-ffranc (2,047); ac,**
  3. **adrannau etholiadol Dinas a Sir Abertawe Clydach (5,850), Mawr (1,485) a Llansamlet (heb Gymuned Llansamlet) (4,906).**

**Byddai gan yr etholaeth hon 76,747 o etholwyr sydd 0.1% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.**

- 5.65 Cyn belled ag y mae enw'r etholaeth yn y cwestiwn, roedd rhai'n teimlo y dylid cydnabod y rhannau newydd eu cynnwys yn yr etholaeth o Gwm Tawe yn enw'r etholaeth.

- 5.66 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad: *“Rydym o’r farn ei bod yn briodol adlewyrchu’r ddwy ardal ar wahân o fewn enw’r etholaeth arfaethedig. Felly argymhellwn enwi’r etholaeth arfaethedig yn Neath and the Swansea Valley.” Mae’r Comisiwn yn cytuno gyda’r argymhelliad hwn ac felly mae’n cynnig enw ar yr etholaeth sef **Neath and the Swansea Valley** (gyda g enw cyfatebol swyddogol **Castell-nedd a Chwm Tawe**).*

## 8. Aberavon and Ogmore (Aberafan ac Ogwr)

- 5.67 Mae’r etholaethau presennol y mae’r etholaeth arfaethedig fel a ganlyn:
1. Mae gan etholaeth bresennol **Aberavon** CC gyfanswm o 51,034 o etholwyr sydd 33% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 30% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  2. Mae gan etholaeth bresennol **Ogmore** CC gyfanswm o 55,699 o etholwyr sydd 27% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr a 24% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 5.68 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o:
1. adrannau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Pen-y-Bont ar Ogwr Betws (1,603), Melin Ifan Ddu (1,883), Blaengarw (1,314), Caerau (5,115), Llangeinor (924), Llangynwyd (2,329), Dwyrain Maesteg (3,833), Gorllewin Maesteg (4,342), Nant-y-Moel (1,747), Ogmore Vale (2,335), Pontycymmer (1,770) ac Ynysawdre (2,554) a,
  2. adrannau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot Aberafan (4,151), Baglan (5,541), Dwyrain Llansawel (2,317), Gorllewin Llansawel (2,172), Bryn a Chwmafan (5,137), Y Cymer (2,171), Glyncorwg (870), Gwynfi (1,054), Margam (2,294), Port Talbot (4,368), Dwyrain Sandfields (DET)(5,160), Gorllewin Sandfields (5,079) a Thai-bach (3,832).
- Byddai gan yr etholaeth hon 73,895 o etholwyr sydd 3.6% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Aberavon and Ogmore**.
- 5.69 Cafodd y Comisiwn nifer fach o gynrychiolaethau yn unig yn ymwneud ag etholaeth arfaethedig ‘Aberavon and Ogmore’ ac roedd y cynrychiolaethau a ddaeth i law yn gefnogol i raddau helaeth. Fodd bynnag, cafodd y Comisiwn ddwy gynrychiolaeth a awgrymodd drefniant arall ar gyfer y ddwy etholaeth. Yn ei hanfod, lleolodd y cynnig hwn Cwm Ogwr a Chwm Garw yn etholaeth ‘Bridgend’ yn lle adrannau etholiadol Abercynffig, Corneli a’r Pîl a fyddai’n newid i ‘Aberavon and Ogmore’. Er y byddai’r gwrthgynnig hwn yn bodloni’r amrediad statudol ar gyfer y ddwy etholaeth, byddai’n anfanteisiol gan y byddai’n rhannu Cymuned Pen-y-Fai rhwng y ddwy etholaeth a rhannu etholaeth bresennol Bridgend rhwng etholaethau.



5.70 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid gwneud unrhyw newidiadau i gyfansoddiad etholaeth arfaethedig 'Aberavon and Ogmore'. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad *"Fodd bynnag, o ystyried y meini prawf statudol, nid ydym o'r farn y byddai'r newidiadau a gynigir gan y gwrthgynnig yn arwain at welliant mewn perthynas â'r Cynigion Cychwynnol."* ac *"Felly, ar y cyfan, rydym o'r farn na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn arwain at unrhyw welliant mewn perthynas â'r Cynigion Cychwynnol ac na fyddent yn arwain at etholaethau sy'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well."*

5.71 Ar ôl ystyried cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad mai'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer Aberavon and Ogmore sydd fwyaf priodol ar gyfer yr ardal. Byddai'r gwrthgynnig ar gyfer yr ardal hon yn torri cysylltiadau cymunedol ac ni fyddent yn adlewyrchu'r meini prawf statudol cystal â chynnig cychwynnol y Comisiwn. Er enghraifft, byddai'r gwrthgynnig yn arwain at ffurfio etholaeth o dair etholaeth sydd eisoes yn bodoli, yn hytrach nag o ddwy etholaeth.

5.72 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o:**

1. adrannau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Pen-y-Bont ar Ogwr Betws (1,603), Melin Ifan Ddu (1,883), Blaengarw (1,314), Caerau (5,115), Llangeinor (924), Llangynwyd (2,329), Dwyrain Maesteg (3,833), Gorllewin Maesteg (4,342), Nant-y-Moel (1,747), Ogmore Vale (2,335), Pontycymmer (1,770) ac Ynysawdre (2,554) a,
2. adrannau etholiadol Bwrdeistref Sirol Castellnedd Port Talbot Aberafan (4,151), Baglan (5,541), Dwyrain Llansawel (2,317), Gorllewin Llansawel (2,172), Bryn a Chwmafan (5,137), Cymmer (2,171), Glyncorrwg (870), Gwynfi (1,054), Margam (2,294), Port Talbot (4,368), Dwyrain Sandfields (DET)(5,160), Gorllewin Sandfields (5,079) a Thai-bach (3,832).

**Byddai gan yr etholaeth hon o 73,895 o etholwyr sydd 3.6% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.**

5.73 Cyn belled ag y mae enw'r etholaeth yn y cwestiwn, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon bod yr enw arfaethedig yn cyfeirio'n fras at yr ardal y mae'n ei gwmpasu.

5.74 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid newid yr enw arfaethedig ar gyfer etholaeth Aberavon and Ogmore gan yr ystyriwyd bod yr enw *"yr un mor briodol â'r rhai a gynigiwyd yn y cynrychiolaethau rydym wedi'u cael neu'n fwy priodol â nhw."* Ar ôl ystyried y mater, mae'r Comisiwn yn parhau i fod o'r farn mai'r enw priodol ar gyfer yr etholaeth yw **Aberavon and Ogmore** (gydag enw cyfatebol swyddogol **Aberafan ac Ogwr**).

## 9. Bridgend (Pen-y-Bont)

5.75 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

1. Mae gan etholaeth bresennol **Bridgend** CC gyfanswm o 58,936 o etholwyr sydd 23% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 19% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
2. Mae gan etholaeth bresennol **Ogmore** CC gyfanswm o 55,699 o etholwyr sydd 27% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 24% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.

5.76 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o:

1. etholaeth bresennol Bridgend CC a,
2. adrannau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Pen-y-Bont ar Ogwr Abercynffig (1,485), Bryncethin (994), Bryncoch (1,495), Cefn Cribwr (1,194), Felindre (2,153), Hendre (3,064), Penprysg (2,426) a Sarn (1,849).

Byddai gan yr etholaeth hon 73,596 o etholwyr sydd 4% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Bridgend**.

5.77 Cafodd y Comisiwn nifer fach o gynrychiolaethau yn unig yn ymwneud ag etholaeth arfaethedig 'Bridgend' ac roedd y cynrychiolaethau a ddaeth i law yn gefnogol i raddau helaeth. Fodd bynnag, fel y soniwyd ym mharagraff 5.69, cafodd y Comisiwn ddwy gynrychiolaeth a awgrymodd trefniant arall ar gyfer y ddwy etholaeth. Yn ei hanfod, lleolodd y cynnig hwn Cwm Ogwr a Chwm Garw yn etholaeth 'Bridgend' yn lle adrannau etholiadol Abercynffig, Corneli a'r Pîl a fyddai'n newid i 'Aberavon and Ogmore'. Er y byddai'r gwrthgynnig hwn yn bodloni'r amrediad statudol ar gyfer y ddwy etholaeth, byddai'n rhannu Cymuned Pen-y-Fai rhwng y ddwy etholaeth ac yn rhannu etholaeth bresennol Bridgend rhwng etholaethau.

5.78 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol unrhyw newidiadau i gyfansoddiad etholaeth arfaethedig 'Bridgend'. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad "*Fodd bynnag, yn y bôn, nid ydym o'r farn, o ystyried y meini prawf statudol, y byddai'r newidiadau a gynigir gan y gwrthgynnig yn arwain at welliant mewn perthynas â'r Cynigion Cychwynnol.*" ac "*Felly, ar y cyfan, rydym o'r farn na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn arwain at unrhyw welliant mewn perthynas â'r Cynigion Cychwynnol ac na fyddent yn arwain at etholaethau a oedd yn adlewyrchu'r meini prawf statudol orau.*"

5.79 Ar ôl ystyried cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad mai'r cynigion cychwynnol ar gyfer

Bridgend sydd fwyaf priodol ar gyfer yr ardal. Ystyrir bod ychwanegu ardaloedd o Fwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr at etholaeth bresennol Bridgend yn briodol. Byddai'r gwrthgynigion ar gyfer yr ardal hon yn torri cysylltiadau cymunedol ac ni fyddent yn adlewyrchu'r meini prawf statudol cystal â chynnig cychwynol y Comisiwn.

5.80 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o:**

1. **etholaeth sirol bresennol Bridgend ac,**
2. **adrannau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Pen-y-Bont ar Ogwr Abercynffig (1,485), Bryncethin (994), Bryncoch (1,495), Cefn Cribwr (1,194), Felindre (2,153), Hendre (3,064), Penprysg (2,426) a Sarn (1,849).**

**Byddai gan yr etholaeth hon 73,596 o etholwyr sydd 4% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.**

5.81 Cyn belled ag y mae enw'r etholaeth yn y cwestiwn, cafodd yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth ei derbyn yn gyffredinol ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ei fod yn cyfeirio'n fras am yr ardal y mae'n ei gwmpasu.

5.82 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid newid enw etholaeth arfaethedig Bridgend gan yr ystyriwyd bod yr enw "*yr un mor briodol na'r rhai a gynigiwyd yn y cynrychiolaethau rydym wedi'u cael neu'n fwy priodol na nhw.*" Ar ôl ystyried y mater, mae'r Comisiwn yn parhau i fod o'r fan mai'r enw priodol ar gyfer yr etholaeth yw **Bridgend** (gydag enw cyfatebol swyddogol **Pen-y-Bont**).

## **10. The Vale of Glamorgan (Bro Morgannwg)**

5.83 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

1. Mae gan etholaeth bresennol **Cardiff South and Penarth** BC gyfanswm o 73,690 o etholwyr sydd 4% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth ac o fewn lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
2. Mae gan etholaeth bresennol **Vale of Glamorgan** CC gyfanswm o 71,171 o etholwyr sydd 7% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 2% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.

5.84 Yng nghynigion cychwynol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o:

1. etholaeth bresennol Vale of Glamorgan CC ac,
2. adran etholiadol Cyngor Bwrdeistref Bro Morgannwg Y Sili (3,561).

Byddai gan yr etholaeth hon 74,728 o etholwyr sydd 2.5% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **The Vale of Glamorgan**.

- 5.85 Cafodd y Comisiwn nifer fach o gynrychiolaethau yn unig yn ymwneud ag etholaeth arfaethedig 'The Vale of Glamorgan' ac roedd y cynrychiolaethau a ddaeth i law yn gefnogol i raddau helaeth. Cafodd y Comisiwn gefnogaeth o bob cyfeiriad bron o ran ailddyrranu Y Sili i Fro Morgannwg a chadw Awdurdod Unedol Bro Morgannwg (er bod Penarth yn eithriad hirsefydlog, er 1983) yn un etholaeth.
- 5.86 Fodd bynnag, awgrymodd nifer o gynrychiolaethau mewn perthynas â De Cymru a Chymru gyfan, o ganlyniad i gynigion mewn ardaloedd eraill, y dylid rhannu Bro Morgannwg yn ddwy, gydag un hanner yn etholaeth Penarth a'r Barri gyda gweddill Bro Morgannwg yn cyfuno â rhannau o naill ai Pen-y-Bont ar Ogwr neu Rionda Cynon Taf. Cafodd y cynlluniau amgen hyn eu hystyried ond byddai'n tarfu'n fwy ar ffiniau a chysylltiadau cymunedol sydd eisoes yn bodoli na chynigion cychwynnol y Comisiwn. Er enghraifft, fe'i hystyrir yn ddymunol, lle bo'n bosibl, i leoli Awdurdod Unedol cyfan o fewn un etholaeth, fel y'i nodir yn Rheol 5. Adlewyrchir hyn yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn ac mae mwyafrif y cynrychiolaethau wedi cefnogi'r ymagwedd hon.
- 5.87 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid gwneud unrhyw newidiadau i gyfansoddiad etholaeth 'The Vale of Glamorgan'. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad "*Rydym o'r farn mai'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer etholaeth arfaethedig Bro Morgannwg sy'n adlewyrchu'r meini prawf statudol orau.*"
- 5.88 Ar ôl ystyried cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad mai'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer The Vale of Glamorgan sydd fwyaf priodol ar gyfer yr ardal.
- 5.89 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o:**
- 1. etholaeth bresennol Vale of Glamorgan CC ac,**
  - 2. adran etholiadol Cyngor Bwrdeistref Bro Morgannwg Y Sili (3,561).**

**Byddai gan yr etholaeth hon 74,728 o etholwyr sydd 2.5% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.**

- 5.90 Cyn belled ag y mae enw'r etholaeth yn y cwestiwn, cafodd yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth ei dderbyn yn gyffredinol ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ei fod yn cyfeirio'n fras am yr ardal y mae'n ei gwmpasu. Roedd peth amheuaeth ynghylch defnyddio'r fannod yn rhan o'r enw.

5.91 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid newid yr enw arfaethedig ar gyfer etholaeth 'The Vale of Glamorgan' gan yr ystyriwyd bod yr enw "*yr un mor briodol â'r rhai a gynigiwyd yn y cynrychiolaethau rydym wedi'u cael, neu'n fwy priodol â nhw.*" Ar ôl ystyried y mater, mae'r Comisiwn yn parhau i fod o'r farn mai **The Vale of Glamorgan** yw'r enw priodol ar yr etholaeth (gydag enw cyfatebol swyddogol **Bro Morgannwg**).

### **Nodyn am Gaerffili, Caerdydd a Chasnewydd**

5.92 Yn ei gynigion cychwynnol, cynigiodd y Comisiwn chwe etholaeth yn cwmpasu Caerffili, Caerdydd a Chasnewydd. Y rhain oedd:

- Cardiff West a oedd yn cynnwys etholaeth gyfan bresennol Cardiff West yn ogystal ag adran etholiadol Pont-y-clun.
- Caerphilly and Cardiff North a oedd yn cynnwys gogledd Caerdydd a thref Caerffili a chymunedau cyfagos.
- Cardiff Central and Penarth a oedd yn cynnwys Penarth a rhan o gyn etholaeth Cardiff Central.
- Cardiff East a oedd yn cynnwys rhannau o etholaethau presennol Cardiff Central, Cardiff North a Cardiff South a Penarth.
- Newport Central a oedd yn cynnwys rhannau o etholaethau presennol Newport East and Newport West.
- Newport West and Sirhowy Valley a oedd yn cynnwys rhannau gorllewinol Dinas Casnewydd a rhannau o gymunedau'r cymoedd yng Nghyngor Bwrdeistref Caerffili.

5.93 Cafodd y Comisiwn nifer sylweddol o gynrychiolaethau mewn perthynas â'r etholaethau hyn. Roedd cynrychiolaethau'n canolbwyntio ar:

- Y newid sylfaenol i'r etholaethau yn ne Caerdydd a chanol Caerdydd drwy greu dwy etholaeth gwbl newydd sef 'Cardiff Central and Penarth' a 'Cardiff East' o 'Cardiff South and Penarth' a 'Cardiff Central' sydd eisoes yn bodoli. Ystyriwyd y byddai hyn yn tarfu'n fwy ar y trefniadau presennol nag y byddai ei angen er mwyn bodloni'r meini prawf statudol.
- Cyfuno gogledd Caerdydd â thref Caerffili. Ystyriwyd nad oedd hyn yn gyfansoddiad naturiol ar gyfer etholaeth a haerwyd mai'r ffin ddaearyddol rhwng yr etholaethau (Mynydd Caerffili) oedd y ffin naturiol rhwng Caerdydd a Chaerffili.
- Gwrthwynebiad i etholaeth arfaethedig Newport West and Sirhowy Valley. Amlinellodd cynrychiolaethau ddiffyg cysylltiadau cymunedol a chydlyniant lle y cafodd rhan o Ddinas Casnewydd ei lleoli gyda chymunedau yn y cymoedd ymhellach i'r gogledd a'r gorllewin.
- Rhannu Awdurdod Unedol Caerffili rhwng pedair etholaeth ar wahân, nad oedd yr un ohonynt yn cynnwys adrannau etholiadol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gyfan gwbl.

- Cefnogaeth, yn gyffredinol, mewn perthynas â chyfansoddiad etholaethau arfaethedig Newport Central, Monmouthshire, Torfaen a Blaenau Gwent.

5.94 Ar sail y cynrychiolaethau a ddaeth i law mewn perthynas â Chaerffili, Caerdydd a Chasnewydd ac yn yr ardal ehangach, ystyriodd y Comisiwn nifer o gynigion amgen a allai leddfu rhai o'r anawsterau sy'n rhan gynhenid o'r cynigion cychwynnol, gan hefyd geisio cadw'r elfennau hynny o'r cynigion cychwynnol y cafodd y Comisiwn gefnogaeth yn eu cylch ac i gadw at y meini prawf statudol.

5.95 Prif gasgliadau'r Comisiwn yw:

- Bod cynigion cychwynnol y Comisiwn yn tarfu'n fwy ar etholaethau sydd eisoes yn bodloni yng Nghaerffili, Caerdydd a Chasnewydd nag roedd ei angen.
- Er bod cynrychiolaethau'n cydnabod bod rhai trigolion yng Nghaerffili yn cymudo i Gaerdydd drwy ogledd Caerdydd ac yn defnyddio Caerdydd fel canolfan hamdden a siopa ychwanegol, nodwyd ar y cyfan bod y trigolion hyn yn teithio drwy ogledd Caerdydd yn hytrach na bod ag ynghlwmiad na chysylltiad penodol â'r ardal.
- Nid oes gan drigolion yn ardaloedd y cymoedd fawr o gysylltiad â thrigolion dinasoedd Caerdydd a Chasnewydd.
- Dylai fod etholaeth gyfan o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili, os yw'n bosibl.

5.96 Cynigir y chwe etholaeth a ganlyn yng ngoleuni'r argymhellion a wnaed, y gefnogaeth a gafwyd, y dewisiadau amgen a awgrymwyd a chydbwysu'r cynrychiolaethau yn ofalus yn erbyn y meini prawf statudol.

## 11. Cardiff West (Gorllewin Caerdydd)

5.97 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

1. Mae gan etholaeth bresennol **Cardiff North** BC gyfanswm o 66,290 o etholwyr sydd 14% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 9% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
2. Mae gan etholaeth bresennol **Cardiff West** BC gyfanswm o 63,360 o etholwyr sydd 17% is na lefel gyfartal y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 13% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
3. Mae gan etholaeth bresennol **Pontypridd** CC gyfanswm o 60,016 o etholwyr sydd 22% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 18% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.

5.98 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o:

1. etholaeth bresennol Cardiff West BC;
2. adran etholiadol Dinas a Sir Caerdydd Ystum Taf (5,449) ac,
3. adran etholiadol Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf Pont-y-clun (6,035).

Byddai gan yr etholaeth hon 74,844 o etholwyr sydd 2.3% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Cardiff West**.

5.99 Cafodd y Comisiwn gryn gefnogaeth dros etholaeth arfaethedig Cardiff West gan ei bod yn agos iawn o ran ei chyfansoddiad at etholaeth bresennol Cardiff West. Mae'r Comisiwn, fel rhan o gynrychiolaethau ar gyfer Cymoedd Caerdydd a de Cymru wedi derbyn nifer o gynrychiolaethau hefyd yn awgrymu diwygio'r etholaeth. Fodd bynnag, lle yr awgrymwyd newidiadau i'r etholaeth, maent wedi dod o ganlyniad i anfodlonrwydd mewn ardaloedd eraill, yn hytrach na gwrthwynebiad i ffurfio'r etholaeth ei hun.

5.100 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid gwneud unrhyw newidiadau i gyfansoddiad etholaeth Cardiff West. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad *“Er y mynegwyd cefnogaeth a gwrthwynebiad i gynnwys y ddwy adran etholiadol hynny [Ystum Taf a Pont-y-clun], rydym o’r farn ei fod yn briodol eu cynnwys er mwyn sicrhau bod yr etholaeth arfaethedig yn bodloni’r amrediad etholiadol.”*

5.101 Ar ôl ystyried cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad mai'r cynigion cychwynnol ar gyfer Cardiff West yw'r rhai mwyaf priodol ar gyfer yr ardal. Mae cyfansoddiad yr etholaeth hon hefyd yn caniatáu argymhell etholaethau eraill ar draws Caerdydd a Chymoedd de Cymru sy'n cadw'n agos at y meini prawf statudol.

5.102 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o:**

1. etholaeth bresennol Cardiff West BC;
2. adran etholiadol Dinas a Sir Caerdydd Ystum Taf (5,449) ac,
3. adran etholiadol Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf Pont-y-clun (6,035).

**Byddai gan yr etholaeth hon 74,844 o etholwyr sydd 2.3% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.**

5.103 Cyn belled ag y mae enw'r etholaeth yn y cwestiwn, derbyniwyd yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth yn gyffredinol ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ei fod yn cyfeirio'n fras at yr ardal y mae'n ei gwmpasu.

5.104 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid newid yr enw arfaethedig ar gyfer Cardiff West gan yr ystyriwyd bod yr enw “yr un mor briodol na’r rhai a gynigiwyd yn y cynrychiolaethau rydym wedi’u cael, neu’n fwy priodol na nhw.” Ar ôl ystyried y mater, mae’r Comisiwn yn parhau i fod o’r farn mai **Cardiff West** (gydag enw cyfatebol swyddogol **Gorllewin Caerdydd**) yw’r enw priodol ar yr etholaeth.

## 12. Cardiff South and Penarth (De Caerdydd a Phenarth)

5.105 Mae’r etholaethau presennol y mae’r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

1. Mae gan etholaeth bresennol **Cardiff Central** BC gyfanswm o 62,218 etholwyr sydd 19% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 15% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
2. Mae gan etholaeth bresennol **Cardiff North** BC gyfanswm o 66,290 o etholwyr sydd 14% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 9% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
3. Mae gan etholaeth bresennol **Cardiff South and Penarth** BC gyfanswm o 73,690 o etholwyr sydd 4% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth ac o fewn lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.

5.106 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth fwrdeistrefol o:

1. adrannau etholiadol Dinas a Sir Caerdydd Adamsdown (5,730), Butetown (6,277), Cathays (14,857), Gabalfa (6,699), Grangetown (12,097) a Plasnewydd (12,807) ac,
2. adrannau etholiadol Cyngor Bwrdeistrefol Bro Morgannwg Cornerswell (3,955), Llandochoau (1,488), Plymouth (4,526), St. Augustine's (4,696) a Stanwell (3,214).

Byddai gan yr etholaeth hon 76,346 o etholwyr sydd 0.4% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Cardiff Central and Penarth**.

5.107 Fel y’i disgrifiwyd yn 5.92 to 5.96, cafodd y Comisiwn nifer sylweddol o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu’r ffordd roedd wedi rhannu Dinas Caerdydd yn bedair etholaeth newydd. Roedd cynrychiolaethau’n canolbwyntio ar newid sylfaenol i’r etholaethau yn ne a chanol Caerdydd drwy greu dwy etholaeth gwbl newydd sef ‘Cardiff Central and Penarth’ a ‘Cardiff East’ o Cardiff South and Penarth a Cardiff Central. Ystyriwyd y byddai hyn yn tarfu ar y trefniadau presennol yn fwy nag roedd ei angen i fodloni’r meini prawf statudol.



5.108 Ar sail y cynrychiolaethau a ddaeth i law mewn perthynas â Chaerdydd a'r ardal ehangach, ystyriodd y Comisiwn pob un o'r cynigion amgen ac awgrymwyd y gallai'r rhain liniaru rhai o'r anfanteision gan geisio cadw'r elfennau hynny o'r cynigion cychwynnol hefyd lle y cafodd y Comisiwn gefnogaeth.

5.109 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad: *"Mae etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth yn rhan o'r ystod etholiadol a ganiateir. Fodd bynnag, ni fyddai'r etholaeth bresennol heb adran etholiadol Y Sili yn rhan o'r ystod etholiadol a ganiateir. Argymhellwn y dylid cynnwys... adran etholiadol Adamsdown o fewn ... yr etholaeth [hon]"*

5.110 Ar ôl ystyried cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi penderfynu diwygio ei gynigion cychwynnol ar gyfer Caerdydd a'r ardaloedd cyfagos ac i dderbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol. Mae'r Comisiwn o'r farn bod y cynigion diwygiedig hyn yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well. Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig etholaeth sy'n debyg o ran cyfansoddiad i etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth. Drwy ddileu adran etholiadol y Sili a'i chynnwys yn The Vale of Glamorgan, byddai'r etholaeth bresennol yn gofyn am ychwanegu o leiaf un adran etholiadol arall yng Nghaerdydd er mwyn bodloni'r amrediad statudol. Mae'r Comisiwn yn derbyn argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid cynnwys Adamsdown yn yr etholaeth hon oherwydd y cysylltiadau cyfathrebu cryf rhwng Adamsdown, Butetown a'r Sblot.

5.111 **Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth fwrdeistrefol o:**

1. Dinas a Sir Caerdydd Adamsdown (5,730), Butetown (6,277), Grangetown (12,097), Llanrhymni (7,788), Tredelerch (6,199), Y Sblot (9,012) a Trowbridge (10,794) a,
2. Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg Cornerswell (3,955), Llandochau (1,488), Plymouth (4,526), St. Augustine's (4,696) a Stanwell (3,214).

**Mae gan yr etholaeth gyfanswm o 75,776 o etholwyr sydd 1.1% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.**

5.112 Cyn belled ag y mae enw'r etholaeth yn y cwestiwn, mae'r etholaeth yn cwmpasu'r rhan helaethaf o etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth ac roedd hwn yn enw derbynol ar gyfer yr etholaeth bresennol a'r ardal roedd yn ei gynrychioli.

5.113 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad: *"Gan fod yr etholaeth bresennol yn cael ei chadw i raddau helaeth, argymhellwn y dylid enw'r etholaeth ... Cardiff South and Penarth."* Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r argymhelliad ac felly, mae'n cynnig yr enw **Cardiff South and Penarth** (gydag enw cyfatebol swyddogol **De Caerdydd a Phenarth**) ar gyfer yr etholaeth.

### 13. Cardiff Central (Canol Caerdydd)

5.114 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

1. Mae gan etholaeth bresennol **Cardiff Central** BC gyfanswm o 62,218 o etholwyr sydd 19% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 15% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
2. Mae gan etholaeth bresennol **Cardiff North** BC gyfanswm o 66,290 o etholwyr sydd 14% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 9% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
3. Mae gan etholaeth bresennol **Cardiff South and Penarth** BC gyfanswm o 73,690 o etholwyr sydd 4% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth ac o fewn lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.

5.115 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth fwrdeistrefol o adrannau etholiadol Dinas a Sir Caerdydd Cyncoed (8,660), Y Mynydd Bychan (9,714), Llanrhymni (7,788), Pentwyn (10,363), Penylan (9,801), Pontprenau/Yr Hen Laneirwg (6,956), Tredelerch (6,199), Y Sblot (9,012) a Trowbridge (10,794). Byddai gan yr etholaeth 79,287 o etholwyr sydd 3.5% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Cardiff East**.

5.116 Fel y'i disgrifiwyd yn 5.92 to 5.96, cafodd y Comisiwn nifer sylweddol o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu'r ffordd roedd wedi rhannu Dinas Caerdydd yn bedair etholaeth newydd. Y prif bryder mewn perthynas â'r etholaeth hon oedd y newid sylfaenol i'r etholaethau yn ne Caerdydd a chanol Caerdydd drwy greu dwy etholaeth gwbl newydd sef 'Cardiff Central and Penarth' a 'Cardiff East' o Cardiff South and Penarth a Cardiff Central. Ystyriwyd y byddai hyn yn tarfu'n fwy ar y trefniadau presennol nag y byddai ei angen i fodloni'r meini prawf statudol.

5.117 Dangosodd y cynrychiolaethau y cysylltiadau cymunedol cryf rhwng adrannau etholiadol o fewn etholaeth bresennol Cardiff Central, yn benodol y cysylltiadau rhwng Pentwyn a Phenylan a rhwng Cyncoed, Plasnewydd a Phenylan, yn eu trefn. Mae trigolion yr adrannau hyn yn defnyddio ac yn rhannu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol ac mae llawer o'r rhain wedi'u lleoli ym Mhlasnewydd. Cafwyd cynrychiolaethau hefyd a ddangosodd y cysylltiadau rhwng Gabalfa a Butetown, Cathays a Phlasnewydd. At hynny, cafwyd cynrychiolaethau bod adran etholiadol Y Mynydd Bychan gysylltiadau â'r mwyafrif o'r adrannau etholiadol cyfagos gan gynnwys Cathays, Cyncoed, Gabalfa, Llanisien a Rhiwbeina.

- 5.118 Ar sail y cynrychiolaethau a ddaeth i law mewn perthynas â'r Caerdydd a'r ardal ehangach, ystyriodd y Comisiwn bob un o'r cynigion amgen ac awgrymwyd y gallent liniaru rhai o'r anafanteision gan geisio cadw'r elfennau hynny o'r cynigion cychwynol lle y cafodd y Comisiwn gefnogaeth.
- 5.119 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad: *"Argymhellwn gadw etholaeth bresennol Cardiff Central (ond heb adran etholiadol Adamsdown)." ac "Argymhellwn y dylid cynnwys adrannau etholiadol Gabalfa a'r Mynydd Bychan,"*
- 5.120 Ar ôl ystyried cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi penderfynu diwygio ei gynigion cychwynol ar gyfer Caerdydd a'r ardaloedd cyfagos. Mae'r Comisiwn o'r farn bod y cynigion diwygiedig hyn yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well. Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig etholaeth sy'n debyg o ran cyfansoddiad i etholaeth bresennol Cardiff Central. Drwy ddileu adran etholiadol Adamsdown a'i chynnwys yn Cardiff South and Penarth, byddai'r etholaeth bresennol yn gofyn am ychwanegu o leiaf un adran etholiadol arall yng Nghaerdydd er mwyn bodloni'r amrediad statudol. Ar sail y cynrychiolaethau a ddaeth i law, mae'r Comisiwn yn cynnig mai Gabalfa a'r Mynydd Bychan yw'r adrannau etholiadol y dylid eu cynnwys yn yr etholaeth hon.
- 5.121 Mae'r Comisiwn yn cydnabod mai dyma fyddai'r etholaeth leiaf yng Nghymru o ran ardal ddaearyddol a nifer yr etholwyr. Er bod y Comisiwn yn cydnabod nad dyma'r canlyniad mwyaf dymunol, mae'r Rheolau statudol a maint yr adrannau etholiadol yng Nghaerdydd yn cyfyngu ar y Comisiwn.
- 5.122 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth fwrdeistrefol o adrannau etholiadol Dinas a Sir Caerdydd Cathays (14,857), Cyncoed (8,660), Gabalfa (6,699), Y Mynydd Bychan (9,714), Pentwyn (10,363), Penylan (9,801) a Plasnewydd (12,807). Byddai gan yr etholaeth hon 72,901 o etholwyr sydd 4.9% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 5.123 Cyn belled ag y mae enw'r etholaeth yn y cwestiwn, mae'r etholaeth yn cwmpasu'r rhan helaeth o etholaeth bresennol Cardiff Central ac roedd hwn yn enw derbynol ar gyfer yr etholaeth a'r ardal roedd yn ei gwmpasu.
- 5.124 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad: *"Gan na chaiff yr etholaeth argymelledig ei newid o'r etholaeth bresennol i raddau helaeth, argymhellwn y dylid ei enwi Cardiff Central"* Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r ymagwedd hon ac felly, mae'n cynnig yr enw **Cardiff Central** ar yr etholaeth (gydag enw cyfatebol swyddogol **Canol Caerdydd**).

## 14. Cardiff North and South West Gwent (Gogledd Caerdydd a De Orllewin Gwent)

5.125 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

1. Mae gan etholaeth bresennol **Caerphilly** CC gyfanswm o 61,633 o etholwyr sydd 20% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 15% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
2. Mae gan etholaeth bresennol **Cardiff North** BC gyfanswm o 66,290 o etholwyr sydd 14% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr a 9% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
3. Mae gan etholaeth bresennol **Islwyn** CC gyfanswm o 54,611 o etholwyr sydd 29% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 25% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
4. Mae gan etholaeth bresennol **Newport West** CC gyfanswm o 62,465 o etholwyr sydd 18% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 14% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.

5.126 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o:

1. adrannau etholiadol Cyngor Bwrdeistrefol Caerffili Cwm Aber, (4,510), Bedwas, Trethomas a Machen (7,630), Morgan Jones (4,909), Penyrheol (8,777), St. James (4,153) a St. Martins (6,335), ac
2. adrannau etholiadol Dinas a Sir Caerdydd Llysfaen (2,839), Llanisien (12,945), Rhiwbeina (9,103) a'r Eglwys Newydd Tongwynlais (12,672).

Byddai gan yr etholaeth hon 73,873 o etholwyr sydd 3.6% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Caerphilly and Cardiff North**.

5.127 Fel y'i disgrifiwyd yn 5.92 i 5.96 uchod, cafodd y Comisiwn nifer sylweddol o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu'r ffordd roedd wedi rhannau Dinas Caerdydd yn bedair etholaeth newydd. Roedd cynrychiolaethau'n canolbwyntio ar y canlynol:

- cyfuno gogledd Caerdydd â thref Caerffili – gan gynnwys y ffin ddaearyddol rhwng yr etholaethau (Mynydd Caerffili), yr haerwyd, sy'n ffin naturiol rhwng Caerdydd a Chaerffili.
- Gwrthwynebiad i etholaeth arfaethedig Newport West and Sirhowy Valley – gan gynnwys diffyg cysylltiadau cymunedol a chydlyniant lle y cafodd rhan o Ddinas Casnewydd ei lleoli gyda chymuned yn y cymoedd ymhellach i'r gogledd ac i'r gorllewin.

- Rhannu Awdurdod Unedol Caerffili rhwng pedair etholaeth ar wahân, nad oedd yr un ohonynt yn cynnwys adrannau etholiadol cyfan o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.
- 5.128 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a amlygodd y cysylltiadau sydd eisoes yn bodloni rhwng adrannau etholiadol Llanisien, Llysfaen a Rhiwbeina. Dangosant fod yr adrannau etholiadol hyn yn defnyddio ac yn rhannu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, gan gynnwys ysgolion cynradd. Cafwyd cynrychiolaethau hefyd bod gan adrannau etholiadol Yr Eglwys Newydd Tongwynlais a Pontprennau/Yr Hen Laneirwg gysylltiadau agos ag adrannau etholiadol Llanisien, Llysfaen a Rhiwbeina; mae pob un o'r pum adran etholiadol o fewn etholaeth bresennol Gogledd Caerdydd. Roedd rhai cynrychiolaethau hefyd yn canolbwyntio ar gysylltiadau gogledd Caerdydd â rhannau o Orllewin Caerdydd, yn benodol cysylltiadau Yr Eglwys Newydd â Creigiau, Llandaf, Radyr a Sain Ffagan.
- 5.129 Ar sail y cynrychiolaethau a ddaeth i law mewn perthynas â Chaerdydd a'r ardal ehangach, ystyriodd y Comisiwn bob un o'r cynigion amgen ac awgrymwyd y gallai'r rhain liniaru rhai o'r anfanteision gan geisio cadw'r elfennau hynny ar y cynigion cychwynnol lle y cafodd y Comisiwn gefnogaeth.
- 5.130 Ar sail y cynrychiolaethau a wnaed, daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad a ganlyn: *“Yn ein barn ni, byddai'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well pa câi'r pum adran etholiadol hyn [Llysfaen, Llanisien, Pontprennau/Yr Hen Laneirwg, Rhiwbeina a'r Eglwys Newydd Tongwynlais] o fewn un etholaeth... a bod “rhai anawsterau rhwng ardaloedd yng ngorllewin Gwent, megis Maerun, a'r Graig gyda Chaerdydd (gweler y dystiolaeth yn y gwrandawriad cyhoeddus yng Nghaerdydd). Rydym hefyd wedi cael cynrychiolaethau yn gwrthwynebu'r Cynigion Cychwynnol a gynigiodd gynnwys adrannau etholiadol Maerun, Graig a Thŷ-du ynghyd ag adrannau etholiadol mor bell i'r gogledd â Bargoed, ac Aberbargoed a byddai'n creu etholaeth â chymunedau cyfunedig heb unrhyw gysylltiadau na pherthynas naturiol... Ar y cyfan, yn ein barn ni, yr ymagwedd y byddem yn ei hargymell fyddai etholaeth sy'n cyfuno pum adran etholiadol gogledd Caerdydd ag adrannau etholiadol o orllewin Gwent.”*
- 5.131 Ar ôl ystyried cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi penderfynu diwygio ei gynigion cychwynnol ar gyfer Caerdydd a'r ardaloedd cyfagos. Mae'r Comisiwn o'r farn bod y cynigion diwygiedig hyn yn adlewyrchu'r meini prawf yn well. Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig etholaeth sy'n debyg i etholaeth bresennol Cardiff North ond sy'n cynnwys ardaoedd y tu allan i Ddinas Caerdydd. Trwy ddileu adrannau etholiadol Gabalfa, y Mynydd Bychan ac Ystum Taf a'u cynnwys yn Cardiff Central and Cardiff West, byddai'r etholaeth bresennol yn ei gwneud yn ofynnol ychwanegu adrannau etholiadol o'r tu allan i Ddinas Caerdydd er mwyn bodloni'r amrediad statudol. Ar sail y cynrychiolaethau a ddaeth i law, yn benodol lefel y gwrthwynebiad mewn perthynas ag uno Caerdydd â

Caerffili, mae'r Comisiwn o'r farn mai'r adrannau etholiadol sydd fwyaf priodol i'w huno ag adrannau etholiadol sydd eisoes yn bodoli o fewn etholaeth bresennol Cardiff North yw adrannau etholiadol Dinas Casnewydd Graig, Maerun, Tŷ-du a Parc Tredegar.

5.132 Er mwyn bodloni'r amrediad statudol, mae adrannau etholiadol Dwyrain Rhisga a Gorllewin Rhisga o Gyngor Bwrdeistref Caerffili wedi'u cynnwys yn yr etholaeth hon hefyd. Mae'r Comisiwn hefyd yn cydnabod nad ystyrir uno Gogledd Caerdydd ag ardaloedd fel Rhisga a Parc Tredegar yn yr etholaeth hon yn ddymunol o bosibl o'u hystyried yn unigol. Fodd bynnag, ystyriwyd bod y cyfansoddiad hwn yn briodol o ystyried y cynrychiolaethau a ddaeth i law a chyfyngiadau'r gofynion statudol. Roedd y Comisiwn o'r farn bod cynnwys Cymuned Rudry yn yr etholaeth hon er mwyn gwella'r 'llun' ar yr etholaeth. Fodd bynnag, nid ystyriwyd y posibilrwydd hwn ymhellach gan y byddai'n rhannu Adran Etholiadol ac ni fyddai'n cynnig unrhyw welliant gwirioneddol i gyfansoddiad yr etholaeth.

5.133 Mae'r etholaeth newydd wedi'i seilio'n fras ar y cynrychiolaethau a glywyd yn y gwrandawriad cyhoeddus yng Nghaerdydd gan AS presennol Cardiff North a'r Cynghorwyr Sir ar gyfer adrannau etholiadol Maerun a'r Graig. Roedd gwrthgynigion amgen ar gyfer yr ardal hon yn cyfuno ardaloedd o ganol dinas Caerdydd â chymunedau yn y cymoedd, mae'r Comisiwn o'r farn bod ei etholaeth arfaethedig yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r gwrthgynigion amgen hyn.

5.134 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**

1. **adrannau etholiadol Cyngor Bwrdeistrefol Caerffili Dwyrain Rhisga (4,643), Gorllewin Rhisga (3,988),**
2. **adrannau etholiadol Dinas a Sir Caerdydd Llysfaen (2,839), Llanisien (12,945), Pontprennau/Yr Hen Laneirwg (6,956), Rhiwbeina (9,103) a'r, Eglwys Newydd Tongwynlais (12,672), ac**
3. **adrannau etholiadol Dinas Casnewydd Y Graig (4,620), Maerun (4,611), Tŷ-du (7,843) a Parc Tredegar (2,922).**

**Byddai gan yr etholaeth hon 73,978 o etholwyr sydd 3.5% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.**

5.135 Cyn belled ag y mae enw'r etholaeth yn y cwestiwn, mae'r etholaeth yn cwmpasu'r rhan helaethaf o etholaeth bresennol Cardiff North a hwn oedd yr enw derbynol ar gyfer yr etholaeth a'r ardal roedd yn ei gynrychioli. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn cynrychioli'r etholaeth newydd gyfan gan y dylid cynnwys y rhannau sydd newydd eu cynnwys yn yr etholaeth (Dwyrain Rhisga, Gorllewin Rhisga, Maerun, Tŷ-du a Pharc Tredegar) yn rhan o enw'r etholaeth.

5.136 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad: *"...rydym o'r farn mai'r enw priodol ar gyfer ein hetholaeth argymelledig fyddai Cardiff North and West*

*Gwent...*” Mae’r Comisiwn yn cytuno gyda’r ymagwedd hon ond tybia fod yr ardaloedd yng Ngwent sydd wedi’u cynnwys yn yr etholaeth hon yn ne-orllewin y sir yn fwy penodol. Felly mae’r Comisiwn yn cynnig yr enw **Cardiff North and South West Gwent** ar gyfer yr etholaeth (gydag enw cyfatebol swyddogol **Gogledd Caerdydd a De Gorllewin Gwent**).

## 15. Caerphilly (Caerffili)

5.137 Mae’r etholaethau presennol y mae’r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

1. Mae gan etholaeth bresennol **Caerphilly** CC gyfanswm o 61,633 o etholwyr sydd 20% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 15% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
2. Mae gan etholaeth bresennol **Islwyn** CC gyfanswm o 54,611 o etholwyr sydd 29% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 25% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
3. Mae gan etholaeth bresennol **Newport West** CC gyfanswm o 62,465 o etholwyr sydd 18% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 14% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.

5.138 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o:

1. adrannau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Caerffili Aberbargoed (2,509), Abercarn (3,881), Bargoed (4,331), Crosskeys (2,445), Gilfach (1,525), Hengoed (3,671), Llanbradach (3,171), Maesycwmmwr (1,707), Nelson (3,482), Pengam (2,681), Pontllanfraith (6,159), Dwyrain Rhisga (4,643), Gorllewin Rhisga (3,988), St. Cattwg (5,586), Ynysddu (2,811) ac Ystrad Mynach (3,553), ac
2. adrannau etholiadol Dinas Casnewydd Y Graig (4,620), Maerun (4,611) a Tŷ-du (7,843).

Byddai gan yr etholaeth hon 73,217 o etholwyr sydd 4.5% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Newport West and Sirhowy Valley**.

5.139 Fel y’i disgrifiwyd yn 5.92 i 5.96, cafodd y Comisiwn nifer sylweddol o gynrychiolaethau ar gyfer etholaethau yn yr ardal hon. Roedd cynrychiolaethau’n cynnwys ar y canlynol:

- Cyfuno gogledd Caerdydd â thref Caerffili – yn cynnwys y ffin ddaearyddol rhwng yr etholaethau (Mynydd Caerffili) yr haeriwyd sy’n ffin naturiol rhwng Caerdydd a Chaerffili

- Gwrthwynebiad i etholaeth arfaethedig Newport West and Sirhowy Valley – yn cynnwys diffyg cysylltiadau cymunedol a chydlyniant lle y cafodd rhan o Ddinas Casnewydd ei lleoli gyda chymunedau yn y cymoedd ymhellach i'r gogledd ac i'r gorllewin
- Rhannu Awdurdod Unedol Caerffili rhwng pedair etholaeth ar wahân, nad oedd yr un ohonynt yn cynnwys adrannau etholiadol cyfan o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

5.140 Ar sail y cynrychiolaethau a ddaeth i law mewn perthynas â Chaerdydd a'r ardal ehangach, ystyriodd y Comisiwn bob un o'r cynigion amgen ac awgrymwyd y gallai'r rhain liniaru rhai o'r anfanteision gan geisio cadw'r elfennau hynny ar y cynigion cychwynnol hefyd lle y cafodd y Comisiwn gefnogaeth.

5.141 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gyfansoddi etholaeth Caerphilly gyda 11 o'r 13 o adrannau etholiadol o etholaeth bresennol Caerphilly a chwe adran etholiadol o etholaeth bresennol Islwyn. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad: *"Argymhellwn y dylai fod etholaeth Caerphilly ... byddai'r etholaeth gyfan yn cynnwys adrannau etholiadol o un ardal awdurdod lleol, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili"*.

5.142 Ar ôl ystyried cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi penderfynu diwygio ei gynigion cychwynnol ar gyfer Caerffili a'r ardaloedd cyfagos. Mae'r Comisiwn o'r farn bod y cynigion diwygiedig hyn yn adlewyrchu'r meini prawf statudol hyn yn well. Felly mae'r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ac mae'n cynnig creu etholaeth sy'n debyg i etholaeth bresennol Caerphilly.

5.143 Ar sail y cynrychiolaethau a ddaeth i law, yn benodol lefel y gwrthwynebiad i uno Caerdydd â Chaerffili a'r gwrthwynebiad i gyfuno cymunedau yn y cymoedd â Dinas Casnewydd, mae'r Comisiwn wedi penderfynu mai'r adrannau etholiadol sydd fwyaf priodol i'w cyfuno ag etholaeth bresennol Caerphilly yw adrannau etholiadol Abercarn, Crosskeys, Maesycwmmmer, Pengam, Pontllanfraith ac Ynysddu. Mae pob un o'r adrannau hyn o fewn etholaeth Islwyn a Bwrdeistref Sirol Caerffili ar hyn o bryd. Mae'r cyfansoddiad hwn hefyd yn ystyried dileu adrannau etholiadol Bargoed a Gilfach o etholaeth bresennol Caerphilly y mae'r Comisiwn yn cynnig eu cynnwys yn etholaeth 'Merthyr Tydfil, Rhymney and Lower Cynon' (gweler isod).

5.144 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol o Gyngor Bwrdeistrefol Caerffili Abercarn (3,881), Cwm Aber (4,510), Bedwas, Trethomas a Machen (7,630), Crosskeys (2,445), Hengoed (3,671), Llanbradach (3,171), Maesycwmmmer (1,707), Morgan Jones (4,909), Nelson (3,482), Pengam (2,681), Penyrheol (8,777), Pontllanfraith (6,159), St. Cattwg (5,586), St. James (4,153), St. Martins (6,335), Ynysddu (2,811) ac Ystrad Mynach (3,553). Byddai gan yr etholaeth hon 74,625 o etholwyr sydd**



**2.6% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.**

- 5.145 Cyn belled ag y mae enw'r etholaeth yn y cwestiwn, mae'r etholaeth yn cwmpasu'r rhan helaethaf o etholaeth bresennol Caerphilly a bod hwn yn enw derbynol ar yr etholaeth a'r ardal roedd yn ei gynrychioli. Mae'r rhannau sydd newydd eu cynnwys yn yr etholaeth ym Mwrdeistref Sirol Caerffili hefyd.
- 5.146 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad: "...*argymhellwn y dylid enw'r etholaeth Caerphilly.*" Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r argymhelliad hwn ac felly mae'n cynnig yr enw **Caerphilly** ar gyfer yr etholaeth (gydag enw cyfatebol swyddogol **Caerffili**).

**16. Newport (Casnewydd)**

- 5.147 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
1. Mae gan etholaeth bresennol **Newport East** CC gyfanswm o 54,826 o etholwyr sydd 28% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 25% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  2. Mae gan etholaeth bresennol **Newport West** CC gyfanswm o 62,465 o etholwyr sydd 18% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 14% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 5.148 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth fwrdeistrefol o adrannau etholiadol Dinas Casnewydd Allt-yr-Ynn (6,555), Alway (5,664), Beechwood (5,601), Betws (5,452), Y Gaer (6,304), Liswerry (7,671), Llan-wern (2,264), Malpas (6,041), Pilgwenlli (4,382), Ringland (6,160), Shaftesbury (3,767), Sain Silian (6,144), Stow Hill (3,079), Parc Tredegar (2,922) a Victoria (4,455). Byddai gan yr etholaeth hon 76,461 o etholwyr sydd 0.2% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Newport Central**.
- 5.149 Cafodd y Comisiwn nifer fach o gynrychiolaethau yn unig mewn perthynas ag etholaeth arfaethedig 'Newport Central' ac roedd y cynrychiolaethau a ddaeth i law yn gefnogol i raddau helaeth. Fodd bynag, fel y nodwyd yn 5.93, cafodd y Comisiwn wrthwynebiad sylweddol i etholaeth arfaethedig Newport West and Sirhowy Valley. Roedd y cynrychiolaethau'n canolbwyntio ar ddiffyg cysylltiadau cymunedol a chydlyniant lle cafodd rhan o Ddinas Casnewydd ei lleoli gyda chymunedau yn y cymoedd ymhellach i'r gogledd ac i'r gorllewin.
- 5.150 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol newidiadau i gynigion y Comisiwn ar gyfer Caerdydd a Chymoedd De Cymru a fyddai'n bodloni'r meini prawf

statudol yn well. Mae'r newidiadau hyn yn cael effaith gymharol fach ar etholaeth arfaethedig 'Newport Central' a daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad: *"Argymhellwn y dylid cynnwys adran etholiadol Parc Tredegar o fewn ein hetholaeth argymelledig Cardiff North and West Gwent...Nid argymhellom unrhyw newid arall i etholaeth arfaethedig Newport Central..."*

- 5.151 Ar ôl ystyried cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad, o ganlyniad i etholaeth arfaethedig Cardiff North and South West Gwent, ei fod yn briodol diwygio etholaeth 'Newport Central' ychydig drwy ddileu adran etholiadol Parc Tredegar. Mae'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys adrannau etholiadol yn bennaf yn Ninas Casnewydd i'r de o'r M4. Bydd yr etholaeth hon yn parhau i fod o fewn yr amrediad etholiadol statudol ac mae'n caniatáu ffurfio etholaethau yn yr ardaloedd cyfagos sy'n bodloni'r meini prawf statudol.
- 5.152 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth fwrdeistrefol o adrannau etholiadol Dinas Casnewydd Allt-yr-Ynn (6,555), Alway (5,664), Beechwood (5,601), Betws (5,452), Y Gaer (6,304), Liswerry (7,671), Llan-wern (2,264), Malpas (6,041), Pilgwenlli (4,382), Ringland (6,160), Shaftesbury (3,767), Sain Silian (6,144), Stow Hill (3,079), a Victoria (4,455). Byddai gan yr etholaeth hon 73,539 o etholwyr sydd 4% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 5.153 Derbyniwyd enw'r etholaeth yn gyffredinol gan fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ei fod yn cyfeirio'n fras at yr ardal y mae'n ei gwmpasu. Roedd peth amheuaeth ynghylch yr angen i 'Central' fod yn rhan o'r enw gan y byddai'r etholaeth yn cynnwys y rhan helaethaf o Ddinas Casnewydd, nid yn unig canol y ddinas.
- 5.154 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad: *"dylid enw'r etholaeth hon Newport."* Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r ymagwedd hon ac felly mae'n cynnig yr enw **Newport** ar yr etholaeth (gydag enw cyfatebol swyddogol **Casnewydd**).

## 17. Monmouthshire (Sir Fynwy)

- 5.155 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
1. Mae gan etholaeth bresennol **Monmouth** CC gyfanswm o 65,101 o etholwyr sydd 15% yn is na chwota etholiadol y D o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 11% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  2. Mae gan etholaeth bresennol **Newport East** CC gyfanswm o 54,826 o etholwyr sydd 28% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 25% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.

5.156 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o adrannau etholiadol:

1. adrannau etholiadol Sir Fynwy Caer-went (1,434), Castell Caldicot (1,536), Cantref (1,693), Y Castell (1,616), Croesonnen (1,635), Crucornau Fawr (1,702), Devauden (1,175), Dewstow (1,485), Dixton gyda Osbaston (1,875), Drybridge (2,535), Goetre Fawr (1,862), Green Lane (1,523), Grofield (1,382), Lansdown (1,711), Larkfield (1,532), Llanbadog (1,038), Bryn Llanelli (3,157), Llan-ffwyst Fawr (DET)(1,409), Llanybi Fawr (1,483), Llanofer (1,841), Llandeilo Gresynni (1,414), Llanwenarth Tu Draw (1,126), Y Maerdy (1,414), Mill (2,180), Llanfihangel Troddi (977), Overmonnow (1,779), Porth Sgiwed (1,702), Y Priordy (1,508), Rhaglan (1,552), Rogiet (1,335), Hafren (1,395), Drenewydd Gelli-farch (1,778), St. Arvans (1,260), St. Christopher's (1,872), St. Kingsmark (2,275), St. Mary's (1,449), The Elms (2,435) Thornwell (2,038), Tryleg Unedig (2,155), Brynbuga (1,943), West End (1,536) ac Wyesham (1,673) ac,
2. adran etholiadol Dinas Casnewydd Langstone (3,442).

Byddai gan yr etholaeth hon 73,862 o etholwyr sydd 3.6% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Monmouthshire**.

5.157 Cafodd y Comisiwn nifer fach o gynrychiolaethau yn unig yn ymwneud ag etholaeth arfaethedig 'Monmouthshire' ac roedd y cynrychiolaethau a ddaeth i law yn gefnogol i raddau helaeth. Cafodd y Comisiwn gefnogaeth o bob cyfeiriad bron mewn perthynas ag uno Sir Fynwy yn un etholaeth. Fodd bynnag, awgrymodd nifer fach o gynlluniau amgen ar gyfer De Cymru, o ganlyniad i gynigion mewn ardaloedd eraill i raddau helaeth, y dylid rhannu Sir Fynwy. Awgrymodd cynrychiolaeth o Gymdeithas Sir Fynwy newid sylweddol i 'Monmouthshire' a'r etholaethau arfaethedig cyfagos. Fodd bynnag, cafodd y gwrthgynigion hyn eu gwrthwynebu gan nifer o gynrychiolaethau a wnaed yn ystod yr ail gyfnod ymgyngori ar y sail y byddent yn tarfu'n sylweddol ar yr etholaethau presennol ac y byddai'r cynigion yn rhannau nifer o Awdurdodau Unedol, gan gynnwys Sir Fynwy.

5.158 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol unrhyw newidiadau i etholaeth arfaethedig Monmouthshire.

5.159 Ar ôl ystyried cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, nid yw'r Comisiwn wedi diwygio ei gynigion cychwynnol ar gyfer yr etholaeth hon. Ystyrir ei fod yn briodol, lle bo'n bosibl, lleoli Awdurdod Unedol cyfan o fewn un etholaeth, fel y'i hamlinellir yn Rheol 5 ac mae'r mwyafrif o'r cynrychiolaethau hyn wedi adlewyrchu'r ymagwedd hon.

5.160 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r adrannau etholiadol fel a ganlyn:**

1. adrannau etholiadol Sir Fynwy Caer-went (1,434), Castell Caldicot (1,536), Cantref (1,693), Y Castell (1,616), Croesonnen (1,635), Crucornau Fawr (1,702), Devauden (1,175), Dewstow (1,485), Dixton gyda Osbaston (1,875), Drybridge (2,535), Goetre Fawr (1,862), Green Lane (1,523), Grofield (1,382), Lansdown (1,711), Larkfield (1,532), Llanbadog (1,038), Bryn Llanelli (3,157), Llanfoist Fawr (DET)(1,409), Llangybi Fawr (1,483), Llanofer (1,841), Llandeilo Gresynni (1,414), Llanwenarth Tu Draw (1,126), Y Maerdy (1,414), Mill (2,180), Llanfihangel Troddi (977), Overmonnow (1,779), Porth Sgiwed (1,702), Y Priordy (1,508), Rhaglan (1,552), Rogiet (1,335), Hafren (1,395), Drenewydd Gelli-farch (1,778), St. Arvans (1,260), St. Christopher's (1,872), St. Kingsmark (2,275), St. Mary's (1,449), The Elms (2,435) Thornwell (2,038), Tryleg Unedig (2,155), Brynbuga (1,943), West End (1,536) ac Wyesham (1,673), ac
2. adran etholiadol Dinas Casnewydd Langstone (3,442).

Byddai gan yr etholaeth hon 73,862 o etholwyr sydd 3.6% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.

- 5.161 Cyn belled ag y mae enw'r etholaeth yn y cwestiwn, derbyniwyd yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth yn gyffredinol ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ei fod yn cyfeirio'n fras at yr ardal y mae'n ei gwmpasu.
- 5.162 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid newid yr enw arfaethedig ar Sir Fynwy gan yr ystyriwyd bod yr enw "*yr un mor briodol, na'r rhai a gynigir yn y cynrychiolaethau rydym wedi'u cael, neu'n fwy priodol â nhw.*" Ar ôl ystyried y mater, mae'r Comisiwn yn parhau i fod o'r farn mai **Monmouthshire** yw'r enw priodol ar yr etholaeth (gydag enw cyfatebol swyddogol **Sir Fynwy**).

## 18. Torfaen (Tor-faen)

- 5.163 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
1. Mae gan etholaeth bresennol **Monmouth** CC gyfanswm o 65,101 o etholwyr sydd 15% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 11% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  2. Mae gan etholaeth bresennol **Newport West** CC gyfanswm o 62,465 o etholwyr sydd 18% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 14% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  3. Mae gan etholaeth bresennol **Torfaen** CC gyfanswm o 61,644 o etholwyr sydd 20% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 15% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.

5.164 Yng ngynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o:

1. etholaeth bresennol Torfaen CC;
2. adran etholiadol Dinas Casnewydd Caerllion (6,889); ac,
3. adrannau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Torfaen Gogledd Croesyceiliog (2,762), De Croesyceiliog (1,487), Gogledd Llanyrafon (1,621) a De Llanyrafon (2,236).

Byddai gan yr etholaeth hon 76,639 o etholwyr sydd dau etholwr yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Torfaen**.

5.165 Cafodd y Comisiwn nifer fach o gynrychiolaethau yn unig yn ymwneud ag etholaeth arfaethedig 'Torfaen' ac roedd y cynrychiolaethau a ddaeth i law yn gefnogol i raddau helaeth. Cafodd y Comisiwn gefnogaeth o bob cyfeiriad bron dros gadw Awdurdod Unedol Tor-faen mewn un etholaeth. Fodd bynnag, awgrymodd nifer fach o gynlluniau eraill ar gyfer De Cymru, o ganlyniad i gynigion mewn ardaloedd eraill y dylid rhannu Tor-faen.

5.166 Awgrymodd y Blaid Geidwadol gynnig arall a fyddai'n amnewid Betws am adran etholiadol Caerllion yng Nghasnewydd, a gynhwyswyd yn etholaeth Torfaen yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn. Haerodd y Blaid Geidwadol y byddai'r newid hwn yn golygu 'symud' llai o etholwyr rhwng etholaethau. Cafodd y Comisiwn rywfaint o wrthwynebiad i gynnwys Caerllion yn etholaeth Torfaen gan Gynghorwyr Lleol, er y derbyniwyd y cynnig gan eraill gan gynnwys AS presennol yr ardal.

5.167 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid gwneud unrhyw newidiadau i etholaeth arfaethedig Torfaen.

5.168 Ar ôl ystyried cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, nid yw'r Comisiwn wedi diwygio ei gynigion cychwynnol ar gyfer yr etholaeth hon. Ystyrir ei bod yn briodol, lle bo'n bosibl, i leoli Awdurdod Unedol cyfan o fewn un etholaeth, fel y'i hamlinellir yn Rheol 5 ac mae'r mwyafrif o'r cynrychiolaethau wedi adlewyrchu'r ymagwedd hon.

5.169 O ystyried y cynrychiolaethau a wnaed gan y Blaid Geidwadol, mae'r Comisiwn o'r farn nad yw Betws yn adran etholiadol briodol i'w chynnwys yn Torfaen. Yr unig ffyrdd uniongyrchol rhwng Betws a Thorfaen yw lonydd gwledig bach ac felly mae'r unig gysylltiadau sylweddol â thrafnidiaeth yn mynd drwy adran etholiadol Malpas yn etholaeth arfaethedig Newport. Byddai cynnwys Malpas a Betws yng nghyfansoddiad Torfaen yn creu etholaeth fwy na'r amrediad etholiadol statudol a byddai 'Newport' yn is na'r amrediad statudol.

5.170 Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. etholaeth bresennol Torfaen CC;
2. adrannau etholiadol Dinas Casnewydd Caerllion (6,889); ac,
3. adrannau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Torfaen Gogledd Croesyceiliog (2,762), De Croesyceiliog (1,487), Gogledd Llanyrafon (1,621) a De Llanyrafon (2,236).

Byddai gan yr etholaeth hon 76,639 o etholwyr sydd dau etholwr yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.

5.171 Cyn belled ag y mae enw'r etholaeth yn y cwestiwn, derbyniwyd yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth yn gyffredinol ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ei fod yn cyfeirio'n fras at yr ardal y mae'n ei gwmpasu.

5.172 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid newid yr enw arfaethedig ar gyfer Torfaen gan yr ystyriwyd bod yr enw "*yr un mor briodol na'r rhai a gynigir yn y cynrychiolaethau rydym wedi'u cael neu'n fwy priodol na nhw.*" Ar ôl ystyried y mater, mae'r Comisiwn yn parhau i fod o'r farn mai **Torfaen** yw'r enw priodol ar gyfer yr etholaeth (gydag enw cyfatebol swyddogol **Tor-faen**).

## 19. Blaenau Gwent

5.173 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

1. Mae gan etholaeth bresennol **Blaenau Gwent** CC gyfanswm o 53,517 o etholwyr sydd 30% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 27% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
2. Mae gan etholaeth bresennol **Islwyn** CC gyfanswm o 54,611 o etholwyr sydd 29% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 25% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.

5.174 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. etholaeth bresennol Blaenau Gwent CC ac,
2. adrannau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Caerffili Argoed (1,912), Y Coed Duon (6,168), Cefn Fforest (2,742), Crymlyn (4,334), Trecelyn (4,685) a Penmaen (3,946).

Byddai gan yr etholaeth hon 77,304 o etholwyr sydd 0.9% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Blaenau Gwent**.

- 5.175 Cafodd y Comisiwn nifer fach o gynrychiolaethau yn unig yn ymwneud ag etholaeth arfaethedig 'Blaenau Gwent' ac roedd y cynrychiolaethau a ddaeth i law yn gefnogol i raddau helaeth. Cafodd y Comisiwn gefnogaeth o bob cyfeiriad bron dros y cynnig i ymestyn yr etholaeth bresennol i'r de yn dilyn cymoedd Sirhowi ac Ebbw hyd at y Coed Duon a Trecelyn. Fodd bynnag, awgrymodd nifer o gynlluniau eraill ar gyfer De Cymru, o ganlyniad i gynigion mewn ardaloedd eraill, y dylid rhannu rhan o Flaenau Gwent.
- 5.176 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid gwneud unrhyw newidiadau i etholaeth arfaethedig Blaenau Gwent.
- 5.177 Ar ôl ystyried cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, nid yw'r Comisiwn wedi diwygio ei gynigion cychwynnol ar gyfer yr etholaeth hon. Ystyrir ei bod yn briodol, lle bo'n bosibl, i leoli Awdurdod Unedol cyfan o fewn un etholaeth, fel y'i hamlinellir yn Rheol 5 ac mae'r mwyafrif o'r cynrychiolaethau wedi mabwysiadu'r ymagwedd hon.

5.178 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**

1. **etholaeth bresennol Blaenau Gwent CC ac,**
2. **adrannau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Caerffili Argoed (1,912), Y Coed Duon (6,168), Cefn Fforest (2,742), Crymlyn (4,334), Trecelyn (4,685) a Penmaen (3,946).**

**Byddai gan yr etholaeth hon 77,304 o etholwyr sydd 0.9% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.**

- 5.179 Cyn belled ag y mae enw'r etholaeth yn y cwestiwn, derbyniwyd yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth yn gyffredinol ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ei fod yn cyfeirio'n fras at yr ardal y mae'n ei gwmpasu.
- 5.180 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid newid yr enw arfaethedig ar gyfer Blaenau Gwent gan yr ystyriwyd bod yr enw "*yr un mor briodol na'r rhai a gynigir yn y cynrychiolaethau rydym wedi'u cael neu'n fwy priodol na nhw.*" Ar ôl ystyried y mater, mae'r Comisiwn yn parhau i fod o'r farn mai **Blaenau Gwent** yw'r enw priodol ar gyfer yr etholaeth.

**Nodyn am etholaethau presennol Cynon Valley, Merthyr Tydfil and Rhymney, Pontypridd, a Rhondda**

5.181 Roedd cyfran sylweddol o'r cynrychiolaethau a gafodd y Comisiwn yn ymwneud â chynigion cychwynnol y Comisiwn i rannu etholaeth bresennol Cynon Valley rhwng tair etholaeth arfaethedig: 'Heads of the Valleys', 'Pontypridd', a 'Rhondda'.

5.182 Y prif bwyntiau i ddod o'r cynrychiolaethau oedd:

- Bod Cwm Cynon yn gymuned ar wahân y dylid ei chadw yn gyfan gwbl mewn unrhyw etholaeth newydd.
- Nad oes unrhyw gysylltiad ffisegol rhwng Cymunedau Aberaman, Cwmbach ac Aberpennar a Chwm Rhondda.
- Bod gan Gymunedau Aberaman a Chwmbach gysylltiad cynhenid â Thref Aberdâr ac y dylid eu cadw ynghyd o fewn etholaeth.

5.183 Fodd bynnag, cafodd y Comisiwn gefnogaeth helaeth dros rai o'i gynigion yn yr ardal ehangach. Y rhain oedd:

- 'Aduno' Tref Pontypridd mewn un etholaeth.
- Ychwanegu Ynysybwl at etholaeth o fewn Tref Pontypridd gan fod ganddi gysylltiad cynenid.
- Ychwanegu rhannau o Rondda Cynon Taf, o'r etholaeth bresennol Ogmored, at etholaeth arfaethedig Pontypridd gan eu bod yn ffurfio rhan o'r basn at Gyfoedd Taf, Cynon, Y Rhondda ac Elai y bydd etholaeth arfaethedig Pontypridd yn rhan ohono.

5.184 Awgrymodd ymgyrch leol, Ymgyrch Achub Cwm Cynon, gynnig arall a oedd yn rheoli rhan o Ferthyr Tudful â'r rhan helaethaf o Gwm Cynon, rhan o 'Pontypridd' gyda rhan o Ferthyr Tudful a Chwm Rhymni, a'r rhan o 'Pontypridd' a oedd ar ôl gydag etholaeth Rhondda. Mae'r Comisiwn yn deall y teimladau sydd ynghlwm wrth y gwrthgynnig hwn yn llwyr ac mae'n cofnodi ei werthfawrogiad o ymdrechion y gymuned leol i ymgysylltu mor adeiladol â'r broses ymgynghori.

5.185 Cafodd y Comisiwn nifer o gynigion amgen eraill yn ymweud â'r etholaethau hyn ac etholaethau eraill yn yr ardaloedd cyfagos. Awgrymodd llawer o'r cynigion amgen hyn y dylid cyfuno Cwm Cynon a Merthyr Tudful, y dylid ychwanegu'r rhan o Gwm Cynon a oedd ar ôl at ran o etholaeth arfaethedig Pontypridd ac y dylid ychwanegu'r rhan o Bontypridd a oedd ar ôl at Rhondda.

5.186 Byddai llawer o'r gwrthgynigion ar gyfer yr ardal hon yn creu etholaeth yn Y Rhondda gyda Chymuned Tonyrefail ac adrannau etholiadol Rhondda Cynon Taf, Brynna, Gilfach Goch, Llanharan, Llanhari a Tonysguboriau. Fodd bynnag, mae dau anhawster yn deillio o'r cynnig hwn:

1. Câl Cymuned Llantrisant ei rhannu rhwng etholaethau gan fod adran etholiadol Tonysguboriau yn ffurfio ward yn y Gymuned.
2. Mae'n torri'r cynnig ar gyfer Pontypridd a gafodd gefnogaeth helaeth.

5.187 Ystyriodd y Comisiwn y posibilrwydd o dorri Cymuned Llantrisant yn ddwys er gwaethaf y ffaith mai dyma'r unig achos o blith cynigion Cymru lle y câi cymuned ei thorri. Fodd bynnag, hyd yn oed pe câi torri Cymuned Llantrisant



ei derbyn, ystyriwyd bod goblygiadau pellach y gwrthgynigion ar gyfer yr ardal hon yn annerbyniol.

- 5.188 Byddai llawer o'r gwrthgynigion sydd â'r nod o gadw Cwm Cynon yn gyfan, neu bron yn gyfan, yn rhannu Awdurdod Unedol Merthyr Tudful rhwng etholaethau. Mae'n ffactor yn Rheol 5, yn ogystal ag yn amcan gan y Comisiwn, i gynnwys Awdurdodau Unedol yn gyfan gwbl o fewn etholaeth os yw'n bosibl gwneud hynny. Byddai'r gwrthgynigion hyn hefyd yn arwain at gyfuniadau annymunol drwy uno Pontypridd â Chwm Rhymni, a thrwy uno Brynna, Llanhari a Llanharan â'r Rhondda.
- 5.189 Mae'r Comisiwn wedi ystyried llawer o gynlluniau posibl a fyddai'n cadw Cwm Cynon yn gyfan. Fodd bynnag, ym mhob achos mae'r effetiâu mor sylweddol, o'u hystyried yng ngoleuni'r meini prawf statudol, er mawr ofid iddo, mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad nad yw'n bosibl cynnwys Cwm Cynon cyfan mewn un etholaeth.
- 5.190 Er hynny, yn ei ddiwygion diwygiedig, mae'r Comisiwn wedi ceisio lliniaru rhai o'r prif bryderon a godwyd. Er enghraifft, byddai'r cynigion diwygiedig yn cynnwys Gorllewin Aberdâr/Llwyd-coed, Dwyrain Aberdâr, Gogledd Aberaman, De Aberaman a Cwmbach ynghyd mewn un etholaeth a Dwyrain Aberpennar, Gorllewin Aberpennar, Penrhiw-ceibr ac Abercynon mewn un arall. Haeriwyd mewn cynrychiolaethau a wnaed pe câi Cwm Cynon ei rannau yna byddai'n briodol ei rannu rhwng Aberpennar ac Aberaman.
- 5.191 Cynigir y digwygiadau i'r tair etholaeth a ganlyn yng ngoleuni'r cyflwyniadau a wnaed, y gefnogaeth a gafwyd, y dewisiadau amgen a awgrymwyd a chydbwyso'n ofalus o ran y cynrychiolaethau yn erbyn y meini prawf statudol.
- 5.192 Ymdrinnir â'r etholaethau yn yr ardaloedd cyfagos yng nghynigion Caerphilly, Cardiff Central, Cardiff North and South West Gwent, Cardiff South and Penarth, Cardiff West a Newport uchod.

## 20. Merthyr Tydfil, Rhymney and Lower Cynon (Merthyr Tudful, Rhymni a Chynon Isaf)

- 5.193 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
1. Mae gan etholaeth bresennol **Caerphilly** CC gyfanswm o 61,633 o etholwyr sydd 20% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr a 15% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  2. Mae gan etholaeth bresennol **Cynon Valley** CC gyfanswm o 52,216 etholwyr sydd 32% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr

ym mhob etholaeth a 28% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.

3. Mae gan etholaeth bresennol **Islwyn** CC gyfanswm o 54,611 o etholwyr sydd 29% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 25% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
4. Mae gan etholaeth bresennol **Merthyr Tydfil and Rhymney** CC gyfanswm o 54,757 o etholwyr sydd 29% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 25% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.

5.194 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. etholaeth bresennol Merthyr Tydfil and Rhymney CC ac,
2. adrannau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf Dwyrain Aberdâr (5,236), Gorllewin Aberdâr/Llwyd-coed (7,324), Hirwaun (3,176), Pen-y-Waun (2,122) ac Y Rhigos (1,414).

Byddai gan yr etholaeth hon 74,029 o etholwyr sydd 3.4% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Heads of the Valleys**.

5.195 Fel y'i disgrifiwyd yn 5.181 i 5.192, cafodd y Comisiwn nifer sylweddol o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu etholaeth arfaethedig 'Heads of the Valleys' a'r cynigion a oedd yn effeithio ar etholaeth bresennol Cynon Valley, cafodd y Comisiwn nifer o gynigion eraill yn argymhell cyfuno rhanogleddol Cwm Cynon a Merthyr Tudful.

5.196 Ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau a'r gwrthgynigion a gafodd yn ofalus mewn perthynas â Chwm Cynon, yn benodol y cysylltiadau cymunedol agos iawn rhwng Cymunedau Aberaman, Aberdâr a Chwmbach. Wrth ystyried y cynigion ar gyfer yr ardal hon, ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau o blaid etholaeth arfaethedig Pontypridd hefyd, dymuniadau'r rhai yng Nghyngor Bwrdeistref Caerffili i feddu ar etholaeth gyfan o fewn yr Awdurdod hwnnw a'r Rheolau a amlinellir yn y ddeddfwriaeth mewn perthynas ag ystyried ffiniau'r Awdurdod Unedol a'r ffiniau etholaethol presennol.

5.197 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad: *"...argymhellwn y dylid cynnwys adrannau etholiadol Dwyrain Aberpennar, Gorllewin Aberpennar, Penrhiw-ceibr, ac Abercynon yn etholaeth arfaethedig Heads of the Valleys..."*

5.198 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiwn Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad anodd na allai Cwm Cynon Uchaf ffurfio etholaeth â Merthyr Tudful heb effeithiau negyddol o ganlyniad (o'u hasesu yn erbyn y meini prawf statudol) yng Nghaerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful a Phontypridd, gan gynnwys torri Awdurdod Unedol Merthyr Tudful. Mae'r

Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, ac felly, mae'n cynnig ffurfio etholaeth sy'n cynnwys etholaeth gyfan bresennol Merthyr Tydfil and Rhymni gyda Chymunedau Abercynon, Bargoed, Aberpennar a Phenrhiw-ceibr. Mae'r Cymunedau hyn yng Nghwm Cynon isaf yn gysylltiedig â Merthyr Tudful yn Fiddler's Elbow. Mae Cymuned Bargoed wedi'i chynnwys yn yr etholaeth er mwyn i'r etholaeth fodloni'r amrediad statudol. Ystyrir ei bod yn briodol ei chynnwys gan ei fod yng Nghwm Rhymni.

5.199 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**

1. **etholaeth bresennol Merthyr Tydfil and Rhymney CC,**
2. **adrannau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf Abercynon (4,740), Dwyrain Aberpennar (2,206), Gorllewin Aberpennar (3,159) a Penrhiw-ceibr (4,447), ac,**
3. **adrannau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Caerffili Aberbargoed (2,509), Bargoed (4,331) a Gilfach (1,525).**

**Byddai gan yr etholaeth hon 77,674 o etholwyr sydd 1.3% yn uwch na chwota etholiadaol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.**

5.200 Cyn belled ag y mae enw'r etholaeth yn y cwestiwn, mae'r etholaeth yn cwmpasu etholaeth gyfan 'Merthyr Tydfil and Rhymney' ac roedd hwn yn enw derbynol ar yr etholaeth flaenorol a'r ardal roedd yn ei gynrychioli. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn cynrychioli'r etholaeth newydd gyfan gan y dylid cydnabod y rhannau sydd newydd eu cynnwys yn yr etholaeth o Gwm Cynon isaf yn rhan o enw'r etholaeth.

5.201 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad: *"...argymhellwn enwi'r etholaeth yn Merthyr Tydfil and Lower Cynon."* Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r ymagwedd hon ond mae hefyd o'r farn y dylai'r enw adlewyrchu cynnwys Cwm Rhymni. Felly mae'r Comisiwn yn cynnig yr enw **Merthyr Tydfil, Rhymney and Lower Cynon** ar gyfer yr etholaeth (gyda chyfieithiad swyddogol **Merthyr Tudful, Rhymni a Chynon Isaf**).

## **21. Rhondda and Aberdare (Rhondda ac Aberdâr)**

5.202 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

1. Mae gan etholaeth bresennol **Cynon Valley** CC gyfanswm o 52,216 o etholwyr sydd 32% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 28% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
2. Mae gan etholaeth bresennol **Rhondda** CC gyfanswm o 52,765 o etholwyr sydd 31% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 28% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.

5.203 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o:

1. etholaeth bresennol Rhondda CC ac,
2. adrannau etholiadol Cyngor Rhondda Cynon Taf Gogledd Aberaman (3,873), De Aberaman (3,476), Cwmbach (3,268), Dwyrain Aberpennar (2,206), Gorllewin Aberpennar (3,159) a Penrhiw-ceibr (4,447).

Byddai gan yr etholaeth hon 73,194 o etholwyr sydd 4.5% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Rhondda**.

5.204 Fel y'i disgrifiwyd yn 5.181 i 5.192, cafodd y Comisiwn nifer sylweddol o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu cyfansoddiad etholaeth 'Rhondda' a'r cynigion a oedd yn effeithio ar etholaeth bresennol Cynon Valley.

5.205 Ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau a'r gwrthgynigion a ddaeth i law yn ofalus mewn perthynas â Chwm Cynon, yn benodol y cysylltiadau cymunedol agos iawn rhwng Cymunedau Aberaman, Aberdâr a Chwmbach. Wrth ystyried y cynigion ar gyfer yr ardal hon, ystyriodd y Comisiwn hefyd y cynrychiolaethau o blaid etholaeth arfaethedig Pontypridd a'r Rheolau a amlinellir yn y ddeddfwriaeth mewn perthynas ag ystyried ffiniau Awdurdodau Unedol a ffiniau etholaethau sydd eisoes yn bodoli.

5.206 Cafodd y Comisiwn nifer o gynigion amgen ar gyfer yr ardal hon ac roedd llawer ohonynt yn cyfuno Cwm Rhondda â Chymuned Tonyrefail ac adrannau etholiadol Rhondda Cynon Taf Brynna, Gilfach Goch, Llanharan, Llanhari a Tonysguboriau. Fel y'i hamlinellir ym mharagraff 5.186, byddai'r cynnig hwn yn rhannu Cymuned Llantrisant rhwng etholaethau ac yn torri'r cynnig ar gyfer Pontypridd roedd cefnogaeth yn ei gylch.

5.207 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad: *"Felly argymhellwn y dylid cynnwys Dwyrain Aberdâr a Gorllewin Aberdâr/Llwyd-coed gyda Gogledd Aberaman, De Aberaman a Cwmbach yn etholaeth arfaethedig Rhondda ... At hynny, câi adran etholiadol Cymer, yn etholaeth arfaethedig bresennol Rhondda, ei chynnwys o fewn etholaeth arfaethedig Pontypridd."*

5.208 Ar ôl ystyried cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad anodd na allai Cwm Cynon uwch ffurfio etholaeth gyda Merthyr Tudful heb effeithiau negyddol o ganlyniad (o'u hasesu yn erbyn y meini prawf statudol) yng Nghaerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful a Phontypridd, gan gynnwys torri Awdurdod Unedol Merthyr Tudful. Felly mae'r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ac mae'n cynnig ffurfio etholaeth sy'n cynnwys pob un adran etholiadol o etholaeth bresennol Rhondda ond un gyda Chymunedau Aberaman, Aberdâr, Cwmbach, Hirwaun, Llwyd-coed, Pen-y-Waun a Rhigos. Mae'r Cymunedau hyn yng Nghwm Cynon uchaf wedi'u cysylltu â'r Rhondda drwy'r A4233 a'r A4061.

- 5.209 Byddai cynnwys pob un o'r Cymunedau uchod o Gwm Cynon uchaf gydag etholaeth bresennol gyfan Rhondda yn ffurfio etholaeth a fyddai uwchben yr amrediad statudol. Er mwyn lliniaru'r anhawster hwn, mae'r Comisiwn yn cynnig y dylid cynnwys adran etholiadol Cymer, o etholaeth bresennol Rhondda, yn etholaeth Pontypridd. Er bod y Comisiwn yn cydnabod bod cynnwys Cymer yn etholaeth Pontypridd ymhell o fod yn ddelfrydol, oherwydd y cysylltiadau agos sydd gan Gymer â'r Porth, mae'n rhaid i'r Comisiwn sicrhau bod pob etholaeth o fewn yr amrediad etholiadol statudol. Mae gan Gymer gysylltiadau cyfathrebu cryf â Chymuned Tonyrefail (A4233) a Thref Pontypridd (A4058) ac felly ystyrir mai dyma'r ychwanegiad mwyaf priodol at etholaeth Pontypridd.
- 5.210 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol o adrannau etholiadol Cyngor Rhondda Cynnon Taf Gogledd Aberaman (3,873), De Aberaman (3,476), Dwyrain Aberdâr (5,236), Gorllewin Aberdâr/Llwyd-coed (7,324), Cwmbach (3,268), Cwm Clydach (2,198), Glyn Rhedyn (3,228), Hirwaun (3,176), Llwyn-y-Pia (1,698), Y Maerdy (2,373), Pentre (3,989), Pen-y-Graig (4,112), Pen-y-Waun (2,122), Y Porth (4,480), Y Rhigos (1,414), Tonypandy (2,727), Trealaw (2,936), Treherbert (4,477), Treorci (6,032), Tylorstown (3,327), Ynyshir (2,478) ac Ystrad (4,473). Byddai gan yr etholaeth hon 78,417 o etholwyr sydd 2.3% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 5.211 Cyn belled ag y mae enw'r etholaeth yn y cwestiwn, mae'r etholaeth yn cwmpasu'r rhan fwyaf o etholaeth bresennol Rhondda ac roedd hwn yn enw derbynol ar yr etholaeth flaenorol a'r ardal roedd yn ei gynrychioli. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn cynrychioli'r etholaeth newydd gyfan gan y dylid cydnabod y rhannau sydd newydd eu cynnwys yn yr etholaeth o Gwm Cynon uchaf yn rhan o enw'r etholaeth.
- 5.212 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad: "*y dylid enwi'r etholaeth Rhondda and Aberdare.*" Mae'r Comisiwn yn cytuno ac felly mae'n cynnig yr enw **Rhondda and Aberdare** (gyda chyfieithad swyddogol **Rhondda ac Aberdâr**) ar gyfer yr etholaeth.

## 22. Pontypridd

- 5.213 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig arnynt fel a ganlyn:
1. Mae gan etholaeth bresennol **Cynon Valley** CC gyfanswm o 52,216 o etholwyr sydd 32% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 28% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  2. Mae gan etholaeth bresennol **Ogmore** CC gyfanswm o 55,699 o etholwyr sydd 27% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob

etholaeth a 24% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.

3. Mae gan etholaeth bresennol **Pontypridd** CC gyfanswm o 60,016 o etholwyr sydd 22% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 18% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
4. Mae gan etholaeth bresennol **Rhondda** CC gyfanswm o 52,765 o etholwyr sydd 31% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 28% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.

5.214 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth fwrdeistrefol o adrannau etholiadol Rhondda Cynon Taf Abercynon (4,740), Beddau (3,208), Brynna (2,956), Pentre'r Eglwys (3,530), Cilfynydd (2,116), Gilfach Goch (2,499), Glyncoch (2,119), Graig (1,757), Y Ddraenen Wen (2,797), Llanharan (2,503), Llanhari (2,689), Tref Llantrisant (3,770), Llanilltud Faerdre (4,738), Tref Pontypridd (2,252), Rhondda (3,598), Canol Rhydfelen/Ilan (3,199), Ffynnon Taf (2,818), Tonysguboriau (2,029), Ton-Teg (3,383), Dwyrain Tonyrefail (4,429), Gorllewin Tonyrefail (4,641), Trallwng (2,842), Trefforest (3,066), Tyn-y-Nant (2,567) ac Ynysybwl (3,540). Byddai gan yr etholaeth hon 77,786 o etholwyr sydd 1.5% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Pontypridd**.

5.215 Fel y'i disgrifiwyd yn 5.181 i 5.192 uchod, cafodd etholaeth arfaethedig Pontypridd gefnogaeth sylweddol. Roedd y gefnogaeth hon yn bennaf dros 'aduno' Tref Pontypridd yn un etholaeth, ychwanegu Ynysybwl at etholaeth yn cynnwys Tref Pontypridd ac ychwanegu rhannau Rhondda Cynon Taf, o'r etholaeth bresennol Ogmored, sy'n ffurfio rhan o'r basn at Gymoedd Taf, Cynon, Y Rhondda ac Elai y bydd etholaeth arfaethedig Pontypridd yn rhan ohono.

5.216 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau yn awgrymu diwygio'r etholaeth. Fodd bynnag, roedd y rhain wedi codi o ganlyniad i anfodlonrwydd mewn ardaloedd eraill yn bennaf, yn hytrach nag oherwydd gwrthwynebiad i ffurfio'r etholaeth ei hun.

5.217 Er mwyn caniatáu cynnig etholaethau priodol mewn ardaloedd eraill, er enghraifft, Merthyr Tydfil, Rhymney and Lower Cynon, a'r Rhondda and Aberdare, argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol "*y dylid cynnwys Abercynon yn yr etholaeth arfaethedig [Merthyr Tydfil and Lower Cynon]. At hynny, câi adran etholiadol Cymer, yn etholaeth bresennol ac arfaethedig Rhondda, ei chynnwys o fewn etholaeth arfaethedig Pontypridd.*"

5.218 Ar ôl ystyried cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad mai etholaeth Pontypridd, gydag effeithiau'r ddau gynnig uwchben o ganlyniad sef dileu adran etholiadol

Abercynon a chynnwys adran etholiadol Cymmer, yw'r ateb mwyaf priodol ar gyfer Pontypridd a'r ardaloedd cyfagos.

- 5.219 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth fwrdeistrefol o'r canlynol o adrannau etholiadol Sir Rhondda Cynon Taf Beddau (3,208), Brynna (2,956), Pentre'r Eglwys (3,530), Cilfynydd (2,116), Cymer (4,237), Gilfach Goch (2,499), Glyncoch (2,119), Graig (1,757), Y Ddraenen Wen (2,797), Llanharan (2,503), Llanhari (2,689), Tref Llantrisant (3,770), Llanilltud Faerdre (4,738), Tref Pontypridd (2,252), Rhondda (3,598), Canol Rhydfelen/Ilan (3,199), Ffynnon Taf (2,818), Tonysguboriau (2,029), Ton-Teg (3,383), Dwyrain Tonyrefail (4,429), Gorllewin Tonyrefail (4,641), Trallwng (2,842), Trefforest (3,066), Tyn-y-Nant (2,567) ac Ynysybwl (3,540). Byddai gan yr etholaeth 77,283 o etholwyr sydd 0.8% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.**
- 5.220 Derbyniwyd yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth yn gyffredinol ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ei fod yn cyfeirio'n fras at yr ardal y mae'n ei gwmpasu.
- 5.221 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid newid enw'r arfaethedig ar Bontypridd. Ar ôl ystyried y mater, mae'r Comisiwn yn parhau i fod o'r farn mai **Pontypridd** yw'r enw priodol ar yr etholaeth.

#### **Nodyn am etholaeth bresennol Montgomeryshire**

- 5.222 Roedd cyfran sylweddol o'r cynrychiolaethau a gafodd y Comisiwn mewn perthynas â chynigion cychwynnol y Comisiwn i rannu yr etholaeth bresennol Montgomeryshire rhwng y tri etholaethau arfaethedig 'Glyndwr and North Powys', 'Gwynedd' a 'South Powys'.
- 5.223 Haerodd y cynrychiolaethau fod pobl Sir Drefaldwyn yn teimlo eu bod yn gymuned hanesyddol unigryw yng Nghymru. Haeriwyd y byddai rhannu Sir Drefaldwyn yn dri, yn arwain at golli un llais i Sir Drefaldwyn yn y Senedd.
- 5.224 Yn anffodus, ni chafodd y Comisiwn unrhyw gynigion amgen a fyddai'n cadw etholaeth bresennol Montgomeryshire yn gyfan a ystyriodd sgîl-ffeithiau creu etholaeth ar sail ar Sir Drefaldwyn, o gael eu hystyried yn erbyn y meini prawf statudol. Fodd bynnag, edrychodd y Comisiwn ar y mater yn fanwl ac ar drefniadau posibl eraill i'r rhai a gynigir yn y cynrychiolaethu. Yn anffodus, oherwydd y lleoliad daearyddol, ffiniau Awdurdodau Unedol a maint Cymunedau ac adrannau etholiadol, nid yw'r Comisiwn wedi dod o hyd i drefniant amgen ymarferol sy'n cadw Sir Drefaldwyn yn gyfan nad yw'n cael effeithiau andwyol sylweddol ar faint, siâp a chyfansoddiad etholaethau ar draws gweddill Cymru.

5.225 Fodd bynnag, roedd cynigion, megis y rhai a wnaed gan David Rossiter et al., a gefnogwyd gan eraill, a fyddai'n diwygio'r cynigion drwy rannu Sir Drefaldwyn rhwng dwy etholaeth yn hytrach nag ymhlith tair etholaeth. Mae'r cynigion hyn yn ychwanegu tair adrann etholiadol Sir Drefaldwyn a gynigir i fod yn etholaeth 'Gwynedd' ar hyn o bryd (Glantwymyn, Llanbryn-mair a Machynlleth) i etholaeth 'South Powys'. Er bod goblygiadau i'r newid hwn, y'u hesbonnir isod, mae'r Comisiwn o'r farn bod y gwrthgynnig hwn ar gyfer Montgomeryshire yn well na'i gynigion cychwynnol.

### 23. Brecon, Radnor and Montgomery (Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn)

5.226 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

1. Mae gan etholaeth bresennol **Brecon and Radnorshire** CC gyfanswm o 53,633 o etholwyr sydd 30% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 26% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
2. Mae gan etholaeth bresennol **Montgomeryshire** CC gyfanswm o 48,563 o etholwyr sydd 37% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 33% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.

5.227 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. etholaeth bresennol Brecon and Radnorshire CC ac,
2. adrannau etholiadol Sir Powys Aberriw (1,103), Blaen Hafren (1,880), Caersws (1,835), Yr Ystrog (1,260), Dolforwyn (1,590), Ffordun (1,107), Ceri (1,610), Llandinam (1,120), Llanidloes (2,222), Trefaldwyn (1,078), Canol y Drenewydd (2,177), Dwyrain y Drenewydd (1,449), Y Drenewydd Gogledd Llanllwchaiarn (1,742), Y Drenewydd Gorllewin Llanllwchaiarn (1,361), De y Drenewydd (1,261) a Rhiwcynon (1,708).

Byddai gan yr etholaeth hon 78,136 o etholwyr sydd 2% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **South Powys**.

5.228 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn herio maint yr etholaeth arfaethedig, gan y byddai'n un o'r etholaethau mwyaf yng Nghymru ar 3,898km<sup>2</sup>. Dangosodd nifer o gynrychiolaethau y dylai ardaloedd gwledig yng Nghymru gael eu heithrio o'r meini prawf statudol. O ystyried y nifer gymharol fach o etholwyr mewn rhannau gwledig o Gymru, mae'n anochel o dan y trefniadau newydd, y byddai rhai etholaethau'n fawr o ran arwynebedd. Ni all y Comisiwn wroddi wrth y rheolau a amlinellir yn y



ddeddfwriaeth. Felly nid yw'n bosibl creu 'achos arbennig' neu 'eithriad' ar gyfer 'South Powys'.

- 5.229 Fel y'i disgrifiwyd yn 5.222 i 5.225, cafodd y Comisiwn nifer sylweddol o gynrychiolaethau yn gwrthwynebu cynigion cychwynnol y Comisiwn a oedd yn effeithio ar etholaeth bresennol Montgomeryshire.
- 5.230 Roedd cynigion, fel y rhai a wnaed gan David Rossiter et al., a gefnogwyd gan eraill, a ddiwygiodd y cynigion fel y cafodd Sir Drefaldwyn ei rhannu rhwng dwy etholaeth yn hytrach nag ymhlith tair etholaeth. Mae'r cynigion yn ychwanegu'r tair adran etholiadol yn Sir Drefaldwyn a gynigir i fod yn etholaeth 'Gwynedd' ar hyn o bryd i etholaeth 'South Powys'. Byddai hyn yn golygu y byddai 'South Powys' uwchben chwota etholiadol y DU a byddai 'Gwynedd' oddi tano. Gallai etholaeth 'South Powys' fodloni'r amrediad statudol drwy symud adrannau etholiadol Aberriw a Ffordun i 'Glyndwr and North Powys'. Gellid bodloni gofynion Gwynedd yn hyn o beth drwy gynnwys yn yr etholaeth honno Gymuned Llanddeiniolen ac adran etholiadol arall o Awdurdod Unedol Conwy (gweler 5.254 i 5.256).
- 5.231 Ar wahân i'r cynrychiolaethau yn ymwneud â Sir Drefaldwyn yn gyffredinol, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau penodol yn ymwneud â phriodoldeb lleoli adrannau etholiadol Aberriw a Ffordun yn yr etholaeth hon ar sail bod ganddynt gysylltiadau ag ardal Y Trallwng. Y ddadl fwy cymhellol o blith y dadleuon hyn oedd bod Aberriw a Ffordun o fewn ardaloedd dalgylchoedd ysgolion yn Y Trallwng. Fodd bynnag, cafodd y Comisiwn dystiolaeth gan y Cynghorwr Sir dros Ffordun, a Chyngor Cymuned Ffordun gyda Threllystan eu bod am barhau i fod yn etholaeth 'South Powys'.
- 5.232 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol: *"... fod cynnwys adrannau etholiadol Glantwymyn, Llanbryn-mair, a Machynlleth o fewn etholaeth arfaethedig South Powys yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r Cynigion Cychwynnol. Byddai cynnwys adrannau etholiadol Aberriw, a Ffordun yn etholaeth arfaethedig Glyndwr and North Powys hefyd yn osgoi newidiadau a dorrodd eu cysylltiadau lleol presennol."*
- 5.233 Ar ôl ystyried cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad ei bod yn briodol cynnwys tair adran etholiadol Sir Drefaldwyn Glantwymyn, Llanbryn-mair a Machynlleth yn yr etholaeth arfaethedig hon ac i leoli adrannau etholiadol Aberriw a Ffordun yn 'Glyndwr and North Powys'.
- 5.234 Ystyriodd y Comisiwn y ddau sylw gwrthwynebol ar gynnwys neu eithrio Aberriw a Ffordun yn yr etholaeth hon. Roedd ymateb cryf gan Gyngor Cymuned Ffordun gyda Threllystan a haerodd y dylai Ffordun barhau i fod gydag etholaeth yn ne Powys. Haerodd Gyngor Cymuned Aberriw y dylent barhau i fod gyda gogledd Powys. Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod achos cryf dros gynnwys Aberriw gyda gogledd Powys. Roedd yr achos dros Ffordun

yn llai cryf ond dangosodd rhai cynrychiolaethau, fel y rhai a roddwyd ar ardaloedd dalgylchoedd ysgolion, gysylltiad rhwng Ffordun a'r Trallwng i'r gogledd. Er mwyn cynnwys Glantwymyn, Llanbryn-mair a Machynlleth yn etholaeth Brecon, Radnor and Montgomery yna byddai'n rhaid cynnwys Aberriw a Ffordun yn etholaeth gogledd Powys. Ar y cyfan, roedd y Comisiwn o'r farn bod hyn yn briodol.

5.235 Mae'r Comisiwn yn cydnabod mai hon fyddai'r etholaeth fwyaf yng Nghymru ar 4,172km<sup>2</sup> ac y byddai hefyd yn gymharol fawr o ran nifer etholwyr ar 4.3% yn uwch na chwota etholiadol y DU. Fodd bynnag, roedd yn rhaid i'r Comisiwn gydbwysu'r pryder hwn gyda'r pwysigrwydd i bobl leol a chymunedau drwy gadw Sir Drefaldwyn mewn un etholaeth gymaint â phosibl.

5.236 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**

1. **etholaeth bresennol Brecon and Radnorshire CC ac,**
2. **adrannau etholiadol Sir Powys Blaen Hafren (1,880), Caersws (1,835), Yr Ystog (1,260), Dolforwyn (1,590), Glantwymyn (1,624), Ceri (1,610), Llanbryn-mair (761), Llandinam (1,120), Llanidloes (2,222), Machynlleth (1,654), Trefaldwyn (1,078), Canol y Drenewydd (2,177), Dwyrain y Drenewydd (1,449), Y Drenewydd Gogledd Llanllwchaiarn (1,742), Y Drenewydd Gorllewin Llanllwchaiarn (1,361), Y Drenewydd De (1,261) a Rhiwcynon (1,708).**

**Byddai gan yr etholaeth hon 79,965 o etholwyr sydd 4.3% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.**

5.237 Derbyniwyd yr enw 'South Powys' yn gyffredinol fel yr enw ar yr etholaeth ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ei fod yn cyfeirio'n fras at yr ardal y mae'n ei gwmpasu. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o wrthwynebiad i'r penderfyniad i beidio â chynnwys enwau hanesyddol siroedd Brecknock, Radnor a Montgomery.

5.238 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol: "y dylid enw'r etholaeth yn *Brecon, Radnor and Montgomery*." Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r argymhelliad hwn ac felly mae'n cynnig yr enw **Brecon, Radnor and Montgomery** (gydag enw cyfatebol swyddogol **Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn**).

## **24. Denbigh and North Montgomeryshire (Dinbych a Gogledd Sir Drefaldwyn)**

5.239 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

1. Mae gan etholaeth bresennol **Clwyd South** CC gyfanswm o 54,243 o etholwyr sydd 29% yn is na chwota etholiadol y DU O 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 26% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.

2. Mae gan etholaeth bresennol **Clwyd West** CC gyfanswm o 58,215 o etholwyr sydd 24% yn is na chwota etholiadol y DU O 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 20% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
3. Mae gan etholaeth bresennol **Montgomery** CC gyfanswm o 48,563 o etholwyr sydd 37% yn is na chwota etholiadol y DU O 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 33% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
4. Mae gan etholaeth bresennol **Vale of Clwyd** CC gyfanswm o 56,264 o etholwyr sydd 27% yn is na chwota etholiadol y DU O 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 23% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.

5.240 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. adrannau etholiadol Sir Conwy Llangernyw (1,176), Llansannan (1,532) ac Uwchaled (1,153);
2. adrannau etholiadol Sir Ddinbych Corwen (1,864), Canol Dinbych (1,423), Dinbych Isaf (3,574), Dinbych Uchaf/Henllan (2,481), Efenechtyd (1,271), Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla (1,923), Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal (1,215), Llandrillo (935), Llandyrnog (1,740), Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern (1,855), Llangollen (3,349), Llanrhaeadr-Yng-Nghinmeirch (1,505), Ruthun (4,235) a Trefnant (1,601) a Chymuned Bodfari (290);
3. adrannau etholiadol Sir Powys Banwy (795), Cegidfa (1,833), Llandrinio (1,687), Llandysilio (1,387), Llanfair Caereinion (1,354), Llanfihangel (891), Llanfyllin (1,187), Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin (1,758), Llansanffraid (1,526), Llanwddyn (834), Meifod (1,064), Trewern (1,069), Castell y Trallwng (1,029), Y Trallwng Gungrog (1,954) ac Y Trallwng Llanerch Hudol (1,653); ac,
4. adrannau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Wrecsam Cefn (3,874), Gogledd y Waun (1,883), De'r Waun (1,580), Dyffryn Ceiriog/Ceiriog Valley (1,705), Johnstown (2,466), Llangollen Wledig (1,577), Pant (1,634), Pen-y-cae (1,549) a Plas Madoc (1,219) a ward Groes yng Nghymuned Pen-y-Cae (899) ac wardiau Ponciau North a South a Rhos yng Nghymuned Rhosllanerchrugog (3,025).

Byddai gan yr etholaeth hon 74,554 o etholwyr sydd 2.7% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Glyndwr and North Powys**.

5.241 Fel y'i disgrifiwyd yn 5.222 i 5.225, roedd nifer o gynrychiolaethau'n canolbwyntio ar faint daearyddol yr etholaeth, torri etholaeth bresennol Montgomeryshire a phriodoldeb cynnwys adrannau etholiadol Aberriw a Ffordun yn 'South Powys'.

- 5.242 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd yn ymwneud â phriodoldeb cynnwys Cymuned Rhiwabon yn etholaeth 'Wrexham Maelor' gan fod ganddynt gysylltiadau â'r cymunedau cyfagos sydd o fewn etholaeth ; 'Glyndwr and North Powys'. Fodd bynnag, cafod y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a awgrymodd fod y trefniant yn briodol fel y'i cynigiwyd.
- 5.243 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol: "y dylid cynnwys adrannau etholiadol Aberriw, a Ffordun o fewn etholaeth arfaethedig *Glyndwr and North Powys*;" ac "y dylid cynnwys adran etholiadol Rhiwabon, a Ward South yng Nghymuned Rhiwabon o fewn etholaeth arfaethedig *Glyndwr and North Powys*".
- 5.244 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, mae'r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ac mae'n cynnig y dylid cynnwys adrannau etholiadol Powys Aberriw a Ffordun ac adrannau etholiadol Wrecsam Penycae a De Rhiwabon a Rhiwabon yn gyfan gwbl yn yr etholaeth arfaethedig hon. Fel y'i disgrifiwyd yn 5.234, mae Aberriw a Ffordun wedi'u cynnwys ar sail y cynrychiolaethau a gafwyd ac er mwyn caniatáu aduno tair adran etholiadol Glantwymyn, Llanbrynmair a Machynlleth ag ardaloedd eraill yn Sir Drefaldwyn.
- 5.245 Ar ôl ystyried y ddau safbwynt gwrthwynebol ar gynnwys neu eithrio Cymuned Rhiwabon yn yr etholaeth hon, mae'r Comisiwn yn derbyn argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol ac yn cynnig y dylid cynnwys Cymuned Rhiwabon o fewn yr etholaeth hon. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu'r cysylltiadau cymdeithasol agos sy'n bodoli rhwng Rhiwabon a Johnstown, Pen-y-Cae, Plas Madog a Cefn, a ddangoswyd yn glir mewn cynrychiolaethau a roddwyd i'r Comisiwn.
- 5.246 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**
1. **adrannau etholiadol Sir Conwy Llangernyw (1,176), Llansannan (1,532) ac Uwchaled (1,153);**
  2. **adrannau etholiadol Sir Ddinbych Corwen (1,864), Canol Dinbych (1,423), Dinbych Isaf (3,574), Dinbych Uchaf/Henllan (2,481), Efenechtyd (1,271), Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla (1,923), Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal (1,215), Llandrillo (935), Llandyrnog (1,740), Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern (1,855), Llangollen (3,349), Llanrhaeadr-Yng-Nghinmeirch (1,505), Ruthun (4,235) a Trefnant (1,601) a chymuned Bodfari (290);**
  3. **adrannau etholiadol Sir Powys Banwy (795), Aberriw (1,103), Ffordun (1,107), Cegidfa (1,833), Llandrinio (1,687), Llandysilio (1,387), Llanfair Caereinion (1,354), Llanfihangel (891), Llanfyllin (1,187), Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin (1,758), Llansanffraid (1,526), Llanwddyn (834), Meifod (1,064), Trewern (1,069), Castell y Trallwng (1,029), Y Trallwng Gungrog (1,954) ac Y Trallwng Llanerch Hudol (1,653); ac,**

4. adrannau etholiadol Bwrdeistref Sirol Wrecsam Cefn (3,874), Gogledd y Waun (1,883), De'r Waun (1,580), Dyffryn Ceiriog/Ceiriog Valley (1,705), Johnstown (2,466), Llangollen Wledig (1,577), Pant (1,634), Pen-y-cae (1,549), Pen-y-cae a De Ruabon (1,943) a Plas Madoc (1,219) a wardiau Ponciau North a South a Rhos yng Nghymuned Rhosllanerchrugog (3,025).

Byddai gan yr etholaeth hon 79,963 o etholwyr sydd 4.3% yn uwch na chwota etholiadol y D o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.

- 5.247 Cynigiwyd 'Glyndwr and North Powys' o rai cyfeiriadau fel enw ar etholaeth ac roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn amau pa ardal y mae 'Glyndwr' yn ei gwmpasu. Roedd rhywfaint o wrthwynebiad i'r penderfyniad i beidio â chynnwys enw hanesyddol Sir Drefaldwyn mewn enw etholaeth.
- 5.248 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid: "...enwi'r etholaeth yn *Denbigh and North Montgomeryshire*" Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r argymhelliad hwn ac felly mae'n cynnig yr enw **Denbigh and North Montgomeryshire** ar gyfer yr etholaeth (gydag enw cyfatebol swyddogol **Dinbych a Gogledd Sir Drefaldwyn**).

## 25. Gwynedd

- 5.249 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
  1. Mae gan etholaeth bresennol **Aberconwy** CC gyfanswm o 44,962 o etholwyr sydd 41% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 38% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  2. Mae gan etholaeth bresennol **Arfon** CC gyfanswm o 40,707 o etholwyr sydd 47% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 44% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  3. Mae gan etholaeth bresennol **Dwyfor Meirionnydd** CC gyfanswm o 44,769 o etholwyr sydd 42% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 38% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  4. Mae gan etholaeth bresennol **Montgomeryshire** CC gyfanswm o 48,563 o etholwyr sydd 37% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 33% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 5.250 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:
  1. etholaeth bresennol Dwyfor Meirionnydd CC;

2. adrannau etholiadol Sir Conwy Bettws-y-Coed (985), Crwst (1,623), Gower (908), Trefriw (1,035) ac Uwch Conwy (1,294);
3. adrannau etholiadol Sir Gwynedd Bontnewydd (856), Cadnant (1,437), Cwm-y-Glo (723), Y Groeslon (1,297), Llanberis (1,474), Llanllyfni (851), Llanrug (1,308), Llanwnda (1,469), Menai (Caernarfon) (1,798), Peblig (Caernarfon) (1,445), Penygroes (1,284), Seiont (2,158), Tal-y-sarn (1,294) ac Waunfawr (1,223); ac,
4. adrannau etholiadol Sir Powys Glantwymyn (1,624), Llanbryn-mair (761) a Machynlleth (1,654).

Byddai gan yr etholaeth hon 73,297 o etholwyr sydd 4.4% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Gwynedd**.

- 5.251 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn amau maint yr etholaeth arfaethedig, gan y byddai'n un o'r etholaethau mwyaf yng Nghymru ar 3,160km<sup>2</sup>. Dangosodd nifer o gynrychiolaethau y dylai ardaloedd gwledig yng Nghymru gael eu heithrio o'r meini prawf statudol. O ystyried y nifer gymharol fach o etholwyr mewn rhannau gwledig o Gymru, mae'n anochel o dan y trefniadau newydd, y byddai rhai etholaethau'n fawr o ran arwynebedd. Ni all y Comisiwn wyro oddi wrth y rheolau a amlinellir yn y ddeddfwriaeth. Felly nid yw'n bosibl creu 'achos arbennig' neu 'eithriad' ar gyfer 'Gwynedd'.
- 5.252 Fel y'i disgrifiwyd yn 5.222 i 5.225, cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau yn gwrthwynebu cynigion cychwynol y Comisiwn a oedd yn effeithio ar etholaeth bresennol Montgomeryshire.
- 5.253 Fodd bynnag, roedd cynigion, megis y rhai a wnaed gan David Rossiter et al., a gefnogwyd gan eraill, a ddiwygiodd y cynigion fel y cafodd Montgomeryshire ei rhannu yn ddwy etholaeth yn hytrach nag yn dair etholaeth. Mae'r cynigion yn ychwanegu tair adran etholiadol Montgomeryshire a gynigir i fod yn etholaeth 'Gwynedd' ar hyn o bryd (Glantwymyn, Llanbryn-mair and Machynlleth) i etholaeth 'South Powys'. Fel y'i disgrifiwyd yn 5.233, mae'r Comisiwn yn derbyn y gwrthgynnig hwn.
- 5.254 Derbyniodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau yn ymwneud â Chymuned Llandeiniolen (adrannau etholiadol Bethel, Deiniolen a Penisarwaun) a'i chysylltiadau cymunedol â Chaernarfon. Awgrymodd y cynrychiolaethau y dylid cynnwys Cymuned Llandeiniolen yn etholaeth arfaethedig Gwynedd. Er y gwnaed cynrychiolaethau bod gan yr ardal hon gysylltiadau ac agosrwydd daearyddol at ardal Bangor, gwnaed achos cryfach a ddangosodd y cysylltiadau cryf sy'n bodoli rhwng Cymuned Llandeiniolen a Chaernarfon, o ran ardaloedd dalgylchoedd ysgolion, cysylltiadau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.

- 5.255 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid: *“...cynnwys tair adran etholiadol Bethel, Penisarwaun a Deiniolen o fewn etholaeth arfaethedig Gwynedd...”*.
- 5.256 Hyd yn oed o ystyried ychwanegu'r tair adran etholiadol a soniwyd amdanynt uchod, byddai Gwynedd yn parhau i fod yn is na chwota etholiadol y DU ac felly byddai angen ychwanegu o leiaf un adran etholiadol ychwanegol. Un awgrym a gafodd y Comisiwn oedd y dylid ychwanegu adran etholiadol Uwchaled at 'Gwynedd'. Fodd bynnag, mae'r adran etholiadol hon o fewn etholaeth bresennol Clwyd West ar hyn o bryd, a fyddai'n etholaeth bresennol ychwanegol i'w chynnwys o fewn etholaeth arfaethedig 'Gwynedd'. Diystyriwyd y dewis amgen o greu adran etholiadol o Geredigion gan y byddai'n Awdurdod Unedol ychwanegol yn yr etholaeth arfaethedig. Lleihaodd hyn ddewisiadau'r Comisiwn i ddwy adran etholiadol o fewn etholaeth bresennol Aberconwy, roedd adrannau ohoni eisoes wedi'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig 'Gwynedd'; Caerhun ac Eglwysbach oedd y rhain. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn datgan mai'r gymuned ym muddiant Caerhun oedd Tref Conwy. Yn wir, mae canol prif boblogaeth yr adran ar y ffin â'r dref. Mae poblogaeth Eglwysbach wedi'i lledaenu ar draws yr adran ac mae'n fwy tebyg i adrannau eraill o Awdurdod Unedol Conwy ac etholaeth bresennol Aberconwy sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y cynnig ar gyfer Gwynedd.
- 5.257 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad: *“Rydym o'r farn bod adran etholiadol Eglwysbach yn briodol...i'w chynnwys o fewn etholaeth arfaethedig Gwynedd er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni'r amrediad etholiadol...”*.
- 5.258 Ar ôl ystyried cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad ei bod yn briodol dileu tair adran etholiadol Powys Glantwymyn, Llanbrynmair a Machynlleth o'r etholaeth arfaethedig a lleoli Cymuned Llandeniolen ac adran etholiadol Conwy Eglwysbach yn eu lle. Mae hyn wedi'i seilio ar y cynrychiolaethau cryf yn ymwneud â'r buddiant cymunedol sydd gan Gymuned Llandeniolen â Chaernarfon. Ystyrir mai Eglwysbach yw'r adran etholiadol ychwanegol mwyaf priodol i'w ychwanegu at yr etholaeth ac mae'n caniatáu creu etholaethau ar draws canolbarth Cymru a gogledd Cymru sy'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well. Câi'r etholaeth hon ei ffurfio erbyn hyn o ddwy ardal Awdurdod Unedol yn hytrach na thair, a thair etholaeth sydd eisoes yn bodoli yn hytrach na phedair.
- 5.259 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**
1. etholaeth bresennol Dwyfor Meirionnydd CC;
  2. adrannau etholiadol Sir Conwy Betws-y-Coed (985), Crwst (1,623), Eglwysbach (1,206), Gower (908), Trefriw (1,035) ac Uwch Conwy (1,294); ac,

3. adrannau etholiadol sir Gwynedd Bethel (1,025), Bontnewydd (856), Cadnant (1,437), Cwm-y-Glo (723), Deiniolen (1,204), Y Groeslon (1,297), Llanberis (1,474), Llanllyfni (851), Llanrug (1,308), Llanwnda (1,469), Menai (Caernarfon) (1,798), Peblig (Caernarfon) (1,445), Penisarwaun (1,287), Penygroes (1,284), Seiont (2,158), Tal-y-sarn (1,294) ac Waunfawr (1,223).

Byddai gan yr etholaeth hon 73,980 o etholwyr sydd 3.5% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.

- 5.260 Cyn belled ag y mae enw'r etholaeth yn y cwestiwn, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi'r enw a awgrymwyd gan fod yr etholaeth arfaethedig yn cwmpasu llawer o Sir Gwynedd.
- 5.261 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid newid enw etholaeth arfaethedig Gwynedd gan yr ystyriwyd bod yr enw "*yr un mor briodol na'r rhai a gynigiwyd yn y cynrychiolaethau rydym wedi'u cael, neu'n fwy priodol na nhw.*" Ar ôl ystyried y mater, mae'r Comisiwn yn parhau o fod o'r farn mai **Gwynedd** yw'r enw priodol ar yr etholaeth.

## 26. Ynys Môn a Bangor (Isle of Anglesey and Bangor)

- 5.262 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:
  1. Mae gan etholaeth bresennol **Aberconwy** CC gyfanswm o 44,962 o etholwyr sydd 41% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 38% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  2. Mae gan etholaeth bresennol **Arfon** CC gyfanswm o 40,707 o etholwyr sydd 47% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 44% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  3. Mae gan etholaeth bresennol **Ynys Môn** CC gyfanswm o 49,524 o etholwyr sydd 35% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 32% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 5.263 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:
  1. etholaeth bresennol Ynys Môn CC; ac,
  2. adrannau etholiadol Sir Conwy Bryn (1,347) a Pandy (1,492); ac,
  3. adrannau etholiadol Sir Gwynedd Arllechwedd (993), Bethel (1,025), Deiniol (569), Deiniolen (1,204), Dewi (1,229), Garth (702), Gerlan (1,592), Glyder (1,288), Hendre (904), Hirael (921), Marchog (1,442), Menai



(Bangor) (2,483), Ogwen (1,605), Penisarwaun (1,287), Pentir (1,678), Tregarth a Mynydd Llandygái (1,596) ac Y Felinheli (1,572).

Byddai gan yr etholaeth hon 74,453 o etholwyr sydd 2.9% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Menai ac Ynys Môn**.

- 5.264 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a awgrymodd y dylid ymdrin ag Ynys Môn fel ‘achos arbennig’ ac felly, dylai gael ei heithrio o’r meini prawf deddfwriaethol, fel roedd yn wir yn achos Ynysoedd y Gorllewin ac Orkney a Shetland yn yr Alban ac Ynys Wyth. Ni all y Comisiwn wyro oddi wrth y rheolau a amlinellir yn y ddeddfwriaeth. Felly nid yw’n bosibl creu ‘achos arbennig’ neu ‘eithriad’ ar gyfer Ynys Môn.
- 5.265 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn ymwneud â Chymuned Llandeiniolen (adrannau etholiadol Bethel, Deiniolen a Penisarwaun) a’i chysylltiadau cymunedol â Chaernarfon (yn etholaeth arfaethedig Gwynedd) a Chymuned Penmaenmawr (adrannau etholiadol Capel Ulo a Pant-yr-Afon/Penmaenan) a’i chysylltiadau cymunedol â Bangor a/neu Gonwy.
- 5.266 Pe câi Cymuned Llandeiniolen ei chynnwys yn etholaeth ‘Gwynedd’ (gweler 5.254), byddai angen etholwyr ychwanegol ar gyfer etholaeth ‘Menai ac Ynys Môn’ er mwyn bodloni’r amrediad statudol. Rhoddwyd cynrychiolaethau a awgrymodd mai Cymuned Penmaenmawr, o etholaeth arfaethedig ‘North Wales Coast’ oedd fwyaf priodol i’w chynnwys yn etholaeth ‘Menai ac Ynys Môn’ er mwyn sicrhau bod yr etholaeth hon yn bodloni’r amrediad etholiadol statudol.
- 5.267 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol: “... y dylid cynnwys tair adran etholiadol Bethel, Penisarwaun a Deiniolen o fewn etholaeth arfaethedig Gwynedd...” ac felly, “*mai’r ddwy adran etholiadol hyn [Capel Ulo a Pant-ar-Afon/Penmaenan] yw’r rhai priodol i’w cynnwys o fewn etholaeth arfaethedig Menai ac Ynys Môn.*”
- 5.268 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, mae’r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ac mae’n cynnig dileu Cymuned Llandeiniolen o’r etholaeth arfaethedig hon ac i gynnwys Cymuned Penmaenmawr yn ei lle. Mae’r cynnig hwn wedi’i seilio ar gynrychiolaethau cryf yn ymwneud â’r buddiant cymunedol sydd gan Gymuned Llandeiniolen â Chaernarfon. Mae’r Comisiwn hefyd wedi cael cynrychiolaethau a amlinellodd y cysylltiadau hanesyddol, cymdeithasol a gwleidyddol rhwng Cymuned Penmaenmawr ac adrannau etholiadol Bryn a Pandy i’r gorllewin, ond rhoddwyd rhai cynrychiolaethau i’r gwrthwyneb. Byddai hyn yn caniatáu creu etholaethau ar draws canolbarth Cymru a gogledd Cymru sy’n adlewyrchu’r meini prawf statudol yn well.
- 5.269 **Felly mae’r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o’r canlynol:**

1. etholaeth bresennol Ynys Môn CC; ac,
2. adrannau etholiadol Sir Conwy electoral Bryn (1,347) Capel Ulo (1,238), Pandy (1,492) a Pant-yr-Afon/Penmaenan (2,201); ac,
3. adrannau etholiadol Sir Gwynedd Arllechwedd (993), Deiniol (569), Dewi (1,229), Garth (702), Gerlan (1,592), Glyder (1,288), Hendre (904), Hirael (921), Marchog (1,442), Menai (Bangor) (2,483), Ogwen (1,605), Pentir (1,678), Tregarth a Mynydd Llandygái (1,596) ac Y Felinheli (1,572).

**Byddai gan yr etholaeth hon 74,376 o etholwyr sydd 3% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.**

- 5.270 Cyn belled ag y mae enw'r etholaeth yn y cwestiwn, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a ddangosodd fod yr enw a awgrymwyd naill ai'n rhy hir neu na soniodd am ychwanegu'r tir mawr, yn benodol Dinas Bangor.
- 5.271 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol: *"...y dylid enwi etholaeth arfaethedig Menai ac Ynys Môn yn Ynys Môn a Bangor."* Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r argymhelliad hwn ac felly mae'n cynnig yr enw **Ynys Môn a Bangor** ar gyfer yr etholaeth (gydag enw cyfatebol swyddogol **Isle of Anglesey and Bangor**).

## **27. Conwy and Colwyn (Conwy a Cholwyn)**

- 5.272 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig arnynt fel a ganlyn:
1. Mae gan etholaeth bresennol **Aberconwy** CC gyfanswm o 44,962 o etholwyr sydd 41% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 38% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
  2. Mae gan etholaeth bresennol **Clwyd West** CC gyfanswm o 58,215 o etholwyr sydd 24% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 20% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
- 5.273 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o adrannau etholiadol Sir Conwy Abergele Pensarn (2,059), Betws yn Rhos (1,680), Caerhun (1,686), Capel Ulo (1,238), Colwyn (3,553), Conwy (3,386), Craig-y-Don (2,797), Deganwy (3,344), Eglwysbach (1,206), Eirias (2,763), Gele (3,901), Glyn (3,087), Gogarth (3,001), Bae Cinmel (4,623), Llanddulas (1,270), Llandrillo-yn-Rhos (6,313), Llansanffraid (1,831), Llysfaen (1,945), Marl (3,069), Mochdre (1,449), Mostyn (2,809), Pant-yr-Afon/Penmaenan (2,201), Penrhyn (3,911), Pensarn (2,096), Pentre Mawr (2,829), Rhiw (4,955), Tywyn (1,923) a Tudno (3,703). Byddai gan yr etholaeth hon 78,628 o etholwyr sydd 2.6% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob

etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **North Wales Coast**.

- 5.274 Fel y'i hamlinellwyd yn 5.254, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn ymwneud â Chymuned Llandeiniolen (adrannau etholiadol Bethel, Deiniolen a Penisarwaun) a'i chysylltiadau cymunedol â Chaernarfon a Chymuned Penmaenmawr (adrannau etholiadol Capel Ulo a Pant-yr-Afon/Penmaenen) a'i chysylltiadau cymunedol â Chonwy. Yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori, cafodd y Comisiwn gryn wrthwynebiad hefyd i wrthgynnig y Blaid Lafur o'r enw 'Aberconwy and North Powys', etholaeth a fyddai'n cynnwys ardaloedd o Landudno i'r Trallwng.
- 5.275 Pe câi Cymuned Llandeiniolen ei chynnwys yn etholaeth 'Gwynedd' (gweler 5.254), byddai angen etholwyr ychwanegol ar etholaeth 'Menai ac Ynys Môn' er mwyn bodloni'r amrediad statudol. Rhoddwyd cynrychiolaethau mai Cymuned Penmaenmawr, o etholaeth arfaethedig 'North Wales Coast', oedd yr etholaeth fwyaf priodol i'w chynnwys yn etholaeth 'Menai ac Ynys Môn' er mwyn sicrhau bod yr etholaeth yn bodloni'r amrediad etholiadol statudol.
- 5.276 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol: *"... mai'r ddwy adran etholiadol hyn [Capel Ulo a Pant-ar-Afon/Penmaenan] yw'r rhai priodol i'w cynnwys o fewn etholaeth arfaethedig Menai ac Ynys Môn"*.
- 5.277 Fel y'i hamlinellwyd yn 5.256, er mwyn gwneud newidiadau i sicrhau bod yr etholaethau yng nghanolbarth Cymru a gogledd Cymru yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well, byddai angen ychwanegu o leiaf un adran etholiadol ychwanegol at etholaeth arfaethedig Gwynedd. Roedd un awgrym a gafodd y Comisiwn yn nodi y dylid ychwanegu adran etholiadol Uwchaled at 'Gwynedd'. Fodd bynnag, mae'r adran etholiadol hyn o fewn etholaeth bresennol Clwyd West ar hyn o bryd, a fyddai'n etholaeth ychwanegol sydd eisoes yn bodoli i'w chynnwys yn etholaeth arfaethedig 'Gwynedd'. Diystyriwyd y dewis amgen o greu adran etholiadol o Geredigion gan y byddai'n Awdurdod Unedol ychwanegol yn yr etholaeth arfaethedig. Lleihaodd hyn ddewisiadau'r Comisiwn i ddwy adran etholiadol o fewn etholaeth bresennol Aberconwy, roedd adrannau ohoni eisoes wedi'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig 'Gwynedd'; Caerhun ac Eglwysbach oedd y rhain ac roedd y ddwy ohonynt eisoes o fewn etholaeth arfaethedig 'North Wales Coast'. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn datgan mai'r gymuned ym muddiant Caerhun oedd Tref Conwy. Yn wir, mae canol prif boblogaeth yr adran ar y ffin â'r dref. Mae poblogaeth Eglwysbach wedi'i lledaenu ar draws yr adran ac mae'n fwy tebyg i adrannau eraill o Awdurdod Unedol Conwy ac etholaeth bresennol Aberconwy sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y cynnig ar gyfer Gwynedd.
- 5.278 Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad: *"Rydym o'r farn mai adran etholiadol Eglwysbach yw'r un briodol ... i'w chynnwys o fewn etholaeth arfaethedig Gwynedd er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni'r amrediad etholiadol..."*.

5.279 Ar ôl ystyried cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad ei bod yn briodol dileu tair adran etholiadol Conwy Capel Ulo, Eglwysbach a Phant-ar-Afon/Penmaenan o'r etholaeth arfaethedig hon. Mae achos cymhellol dros gynnwys Cymuned Llandeiniolen yn etholaeth arfaethedig Gwynedd, am y rhesymau a roddwyd yn 5.254. Ar ôl dileu Llandeiniolen, byddai angen etholwyr ychwanegol ar etholaeth arfaethedig Ynys Môn a Bangor er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni'r amrediad statudol. Felly mae'r Comisiwn yn derbyn yr argymhelliad y dylid cynnwys Cymuned Penmaenmawr yn etholaeth Ynys Môn a Bangor, am y rhesymau a roddwyd yn 5.268. Mae'r Comisiwn hefyd yn derbyn argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol mai Eglwysbach yw'r adran etholiadol ychwanegol fwyaf priodol i'w chynnwys gydag etholaeth Gwynedd, am y rhesymau a roddwyd yn 5.277. Mae'r newidiadau hyn yn caniatáu creu etholaethau ar draws canolbarth Cymru a gogledd Cymru sy'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well.

5.280 Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol o adrannau etholiadol Sir Conwy Abergele Pensarn (2,059), Betws yn Rhos (1,680), Caerhun (1,686), Colwyn (3,553), Conwy (3,386), Craig-y-Don (2,797), Deganwy (3,344), Eirias (2,763), Gele (3,901), Glyn (3,087), Gogarth (3,001), Bae Cinmel (4,623), Llanddulas (1,270), Llandrillo-yn-Rhos (6,313), Llansanffraid (1,831), Llysfaen (1,945), Marl (3,069), Mochdre (1,449), Mostyn (2,809), Penrhyn (3,911), Pensarn (2,096), Pentre Mawr (2,829), Rhiw (4,955), Tywyn (1,923) a Tudno (3,703). Byddai gan yr etholaeth hon 73,983 o etholwyr sydd 3.5% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.

5.281 Cyn belled ag y mae enw'r etholaeth yn y cwestiwn, cafodd y Comisiwn wrthwynebiad cryf i'r enw 'North Wales Coast' a awgrymwyd. Awgrymodd nifer sylweddol o gynrychiolaethau y dylai enw'r etholaeth gydnabod y byddai'r etholaeth yn cynnwys adrannau etholiadol cwbl newydd yng Nghyngor Sir Conwy, gan adlewyrchu dwy fwrdeistref ardal flaenorol Conwy a Cholwyn.

5.282 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol: "y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn Conwy and Colwyn." Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r argymhelliad hwn ac felly mae'n cynnig yr enw **Conwy and Colwyn** ar gyfer yr etholaeth (gydag enw cyfatebol swyddogol **Conwy a Cholwyn**).

## 28. Flint and North Denbighshire (Fflint a Gogledd Sir Ddinbych)

5.283 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

1. Mae gan etholaeth bresennol **Delyn** CC gyfanswm o 53,906 o etholwyr sydd 30% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob

etholaeth a 26% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.

2. Mae gan etholaeth bresennol **Vale of Clwyd** CC gyfanswm o 56,264 o etholwyr sydd 27% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 23% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.

5.284 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. adrannau etholiadol Sir Ddinbych Bodelwyddan (1,639), Diserth (1,883), Canol Prestatyn (2,806), Dwyrain Prestatyn (3,145), Prestatyn Meliden (1,545), Gogledd Prestatyn (4,682), De Orllewin Prestatyn (2,803), Rhuddlan (2,940), Dwyrain y Rhyl (3,769), De y Rhyl (3,035), De Ddwyrain y Rhyl (5,972), De Orllewin y Rhyl (3,722), Gorllewin y Rhyl (3,481), Dwyrain Llanellwy (1,376), Gorllewin Llanellwy (1,318) a Tremeirchion (heb Gymuned Bodfari) (1,039) ac,
2. adrannau etholiadol Sir y Fflint Dwyrain Bagillt (1,444), Gorllewin Bagillt (1,610), Brynffordd (1,766), Caerwys (2,043), Cilcain (1,559), Ffynngroyw (1,495), Castell y Fflint (1,570), Coleshill Y Fflint (3,034), Oakenholt Y Fflint (2,101), Trelawny Y Fflint (2,767), Maesglas (2,088), Gronant (1,241), Gwernaffield (1,600), Helygain (1,417), Canol Treffynnon (1,423), Dwyrain Treffynnon (1,392), Gorllewin Treffynnon (1,785), Mostyn (1,440), Trelawnyd a Gwaenysgor (1,486) a Chwitffordd (1,862).

Byddai gan yr etholaeth hon 80,278 o etholwyr sydd 4.8% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Dee Estuary**.

5.285 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau yn mynegi pryderon, o dan y cynnig hwn, y câi tref Yr Wyddgrug ei gwahanu oddi wrth y cymunedau i'r gogledd ohoni sy'n troi at Yr Wyddgrug fel eu canolfan gymdeithasol ac economaidd. O ystyried ei lleoliad yn Sir y Fflint a maint yr anheddiad, Tref yr Wyddgrug yn anochel fydd y ganolfan gymdeithasol ac economaidd ar gyfer yr ardaloedd cyfagos yn Sir y Fflint a thros y ffin yn Sir Ddinbych. Er enghraifft, awgrymodd y Blaid Lafur, wrthgynnig ar gyfer yr ardal hon a gadwodd etholaeth bresennol Delyn ynghyd ag adrannau etholiadol o etholaeth bresennol Vale of Clwyd. Roedd y gwrthgynnig hwn yn cynnwys newidiadau sylweddol i gynigion y Comisiwn ar gyfer gogledd Cymru a chafodd sgîl-ffeithiau a wrthwynebwyd yn gryf yn ystod yr ail gyfnod ymgyngori.

5.286 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid gwneud unrhyw newid i gyfansoddiad etholaeth arfaethedig Dee Estuary.

5.287 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, mae'r Comisiwn yn derbyn argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer yr etholaeth hon. Oherwydd y lleoliad daearyddol, ffiniau Awdurdodau Unedol a maint Cymunedau ac Adrannau

Etholiadol, byddai gwrthgynigion yr etholaeth hon yn cael effeithiau andwyol sylweddol ar faint, siâp a chyfansoddiad etholaethau ar draws gweddill Cymru. Yng ngoleuni'r cynrychiolaethau a wnaed ac o ystyried Rheol 5, mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol cynnwys Yr Wyddgrug yn etholaeth 'Alyn and Deeside' ac nid etholaeth 'Delyn' sy'n briodol ac y dylid cadw ei gynigion cychwynol.

**5.288 Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**

- 1. adrannau etholiadol Sir Ddinbych Bodelwyddan (1,639), Diserth (1,883), Canol Prestatyn (2,806), Dwyrain Prestatyn (3,145), Prestatyn Meliden (1,545), Gogledd Prestatyn (4,682), De Orllewin Prestatyn (2,803), Rhuddlan (2,940), Dwyrain y Rhyl (3,769), De y Rhyl (3,035), De Ddwyrain y Rhyl (5,972), De Orllewin y Rhyl (3,722), Gorllewin y Rhyl (3,481), Dwyrain Llanelwy (1,376), Gorllewin Llanelwy (1,318) a Tremeirchion (heb gymuned Bodfari) (1,039) ac,**
- 2. adrannau etholiadol Sir y Fflint Dwyrain Bagillt (1,444), Gorllewin Bagillt (1,610), Brynffordd (1,766), Caerwys (2,043), Cilcain (1,559), Ffynngroyw (1,495), Castell y Fflint (1,570), Coleshill y Fflint (3,034), Oakenholt y Fflint (2,101), Trelawny y Fflint (2,767), Maesglas (2,088), Gronant (1,241), Gwernaffield (1,600), Helygain (1,417), Canol Treffynnon (1,423), Dwyrain Treffynnon (1,392), Gorllewin Treffynnon (1,785), Mostyn (1,440), Trelawnyd a Gwaenysgor (1,486) a Chwitffordd(1,862).**

**Byddai gan yr etholaeth hon 80,278 o etholwyr sydd 4.8% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.**

5.289 Cyn belled ag y mae enw'r etholaeth yn y cwestiwn, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn gwrthwynebu'r enw a awgrymwyd sef 'Dee Estuary' gan fod ymatebwyr yn teimlo nad yw'n cynrychioli'r ardal y mae'r etholaeth yn ei gwmpasu.

5.290 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol: *"enw tref sirol y sir sy'n ffurfio rhan fwyaf o'r etholaeth yw'r enw priodol ar yr etholaeth"* ac felly *"y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn Flint."* Mae'r Comisiwn yn cytuno gyda'r ymagwedd hon ond mae hefyd o'r farn y dylai'r enw adlewyrchu ardaloedd yn Sir Ddinbych (gan gynnwys Y Rhyl a Phrestatyn) a gynhwysir yn yr etholaeth hon. Felly mae'r Comisiwn yn cynnig yr enw **Flint and North Denbighshire** ar gyfer yr etholaeth (gydag enw cyfatebol swyddogol **Fflint a Gogledd Sir Ddinbych**).

## **29. Alyn and Deeside (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

5.291 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

1. Mae gan etholaeth bresennol **Alyn and Deeside** CC gyfanswm o 61,485 o etholwyr sydd 20% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 16% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
2. Mae gan etholaeth bresennol **Delyn** CC gyfanswm o 53,906 o etholwyr sydd 30% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 26% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.

5.292 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. etholaeth bresennol Alyn and Deeside CC ac,
2. adrannau etholiadol Sir y Fflint Argoed (2,201), Gwernymynydd (1,355), Coed Llai (1,590), Broncoed Yr Wyddgrug (1,982), Dwyrain Yr Wyddgrug (1,536), De Yr Wyddgrug (2,101), Gorllewin Yr Wyddgrug (1,908), New Brighton (2,415), Llaneurgain (2,424) a Northop Hall (1,271).

Byddai gan yr etholaeth hon 80,268 o etholwyr sydd 4.7% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Alyn and Deeside**.

5.293 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau yn mynegi pryderon, o dan y cynnig hwn, y câi tref Yr Wyddgrug ei gwahanu oddi wrth y cymunedau i'r gogledd ohoni sy'n troi at Yr Wyddgrug fel eu canolfan gymdeithasol ac economaidd. O ystyried ei lleoliad yn Sir y Fflint a maint yr anheddiad, Tref yr Wyddgrug yn anochel fydd y ganolfan gymdeithasol ac economaidd ar gyfer yr ardaloedd cyfagos yn Sir y Fflint a thros y ffin yn Sir Ddinbych. Er enghraifft, awgrymodd y Blaid Lafur, wrthgynnig ar gyfer yr ardal hon a gadwodd etholaeth bresennol Delyn ynghyd ag adrannau etholiadol o etholaeth bresennol Vale of Clwyd. Roedd y gwrthgynnig hwn yn cynnwys newidiadau sylweddol i gynigion y Comisiwn ar gyfer gogledd Cymru a chafodd sgîl-ffeithiau a wrthwynebwyd yn gryf yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori.

5.294 Nid argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y dylid gwneud unrhyw newid i gyfansoddiad etholaeth arfaethedig Alyn and Deeside.

5.295 Ar ôl ystyried cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn yn derbyn argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer yr etholaeth hon. Oherwydd y lleoliad daearyddol, ffiniau Awdurdodau Unedol a maint Cymunedau ac Adrannau Etholiadol, nid oes unrhyw drefniant ymarferol amgen y mae modd ei ystyried nad oes iddo effeithiau andwyol sylweddol ar yr ardaloedd cyfagos. Yng ngoleuni'r cynrychiolaethau a gafwyd ac o ystyried Rheol 5, mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad mai cynnwys Yr Wyddgrug yn etholaeth 'Alyn and Deeside' ac nid etholaeth 'Delyn' sydd fwyaf priodol. Yn unol â hynny, cedwir cynigion cychwynnol y Comisiwn.

5.296 Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. etholaeth bresennol Alyn and Deeside CC ac,
2. adrannau etholiadol Sir y Fflint Argoed (2,201), Gwernymynydd (1,355), Coed Llai (1,590), Broncoed Yr Wyddgrug (1,982), Dwyrain Yr Wyddgrug (1,536), De Yr Wyddgrug (2,101), Gorllewin yr Wyddgrug (1,908), New Brighton (2,415), Llaneurgain (2,424) a Northop Hall (1,271).

Byddai gan yr etholaeth hon 80,268 o etholwyr sydd 4.7% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.

5.297 Cyn belled ag y mae enw'r etholaeth yn y cwestiwn, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau nad oeddent yn cefnogi'r enw a awgrymwyd sef 'Alyn and Deeside'. Fodd bynnag, ni chafodd unrhyw enw amgen penodol ei awgrymu na'i ffafrio fel dewis amgen derbyniol.

5.298 Ni chynigiwyd y Comisiynwyr unrhyw argymhelliad mewn perthynas ag enw'r etholaeth hon. Ar ôl ystyried y mater, mae'r Comisiwn yn parhau i fod o'r farn mai **Alyn and Deeside** yw'r enw priodol ar yr etholaeth (gydag enw cyfatebol swyddogol **Alun a Glannau Dyfrdwy**).

### 30. Wrexham Maelor (Wrecsam Maelor)

5.299 Mae'r etholaethau presennol y mae'r etholaeth arfaethedig yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

1. Mae gan etholaeth bresennol **Clwyd South** CC gyfanswm o 54,243 o etholwyr sydd 29% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 26% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.
2. Mae gan etholaeth bresennol **Wrexham** CC gyfanswm o 51,669 o etholwyr sydd 33% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth a 29% yn is na lleiafswm yr amrediad etholiadol statudol o 72,810 o etholwyr ym mhob etholaeth.

5.300 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiwyd creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. etholaeth bresennol Wrexham CC ac,
2. adrannau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Wrecsam Bronington (2,495), Brymbo (2,951), Bryn Cefn (1,562), Coedpoeth (3,602), Esclusham (2,026), Gwenfro (1,221), Marchwiail (1,860), Mwynglawdd (1,939), Brychdyn Newydd (2,704), Owrtyn (2,534), Pen-y-cae a De Rhiwabon (heb ward Groes yng Nghymuned Penycae) (1,044), Ponciau (heb wardiau Ponciau North a South a ward Rhos yng Nghymuned Rhosllanerchrugog) (591) a Rhiwabon (2,155).



Byddai gan yr etholaeth hon 78,353 o etholwyr sydd 2.2% yn uwch na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd **Wrexham Maelor**.

- 5.301 Roedd y cynrychiolaethau a ddaeth i law yn gefnogol o'r etholaeth arfaethedig yn bennaf. Roedd un gynrychiolaeth gan y Blaid Lafur yn cynnwys rhannau o ogledd Wrecsam gyda de Sir y Fflint ond cafodd y Comisiwn ymatebion yn gwrthwynebu'r cynnig hwn. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn ymwneud â phriodoldeb cynnwys Cymuned Rhiwabon yn yr etholaeth hon gan fod ganddi gysylltiadau â'r cymunedau cyfagos sydd o fewn etholaeth the 'Glyndwr and North Powys'.
- 5.302 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol: *"y dylid cynnwys adran etholiadol Rhiwabon a ward De Rhiwabon Cymuned Rhiwabon o fewn etholaeth arfaethedig Glyndwr and North Powys"* ac *"ac eithrio'r newidiadau a argymhellwyd uchod, nid ydym yn gwneud unrhyw argymhellion eraill ar gyfer newidiadau i gyfansoddiad etholaeth arfaethedig... Wrexham Maelor..."*
- 5.303 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, mae'r Comisiwn yn derbyn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ac mae'n cynnig y dylid cynnwys adrannau etholiadol Penycae a De Rhiwabon a Rhiwabon yn gyfan gwbl o fewn etholaeth arfaethedig Denbigh and North Montgomeryshire, gweler paragraff 5.224. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu'r cysylltiadau cymdeithasol agos sy'n bodoli rhwng Rhiwabon a Johnstown, Pen-y-Cae, Plas Madoc a Chefn, a ddangoswyd yn glir yn y cynrychiolaethau a wnaed i'r Comisiwn.
- 5.304 **Felly mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:**

1. etholaeth bresennol Wrexham CC ac,
2. adrannau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Wrecsam Bronington (2,495), Brymbo (2,951), Bryn Cefn (1,562), Coedpoeth (3,602), Esclusham (2,026), Gwenfro (1,221), Marchwiail (1,860), Mwynglawdd (1,939), Brychdyn Newydd (2,704), Owerton (2,534), Ponciau (heb wardiau Ponciau North a South a ward Rhos yng Nghymuned Rhosllanerchrugog) (591).

**Byddai gan yr etholaeth hon 75,154 o etholwyr sydd 1.9% yn is na chwota etholiadol y DU o 76,641 o etholwyr ym mhob etholaeth.**

- 5.305 Derbyniwyd yr enw 'Wrexham Maelor' fel enw ar etholaeth yn gyffredinol ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ei fod yn cyfeirio'n fras ar yr ardal y mae'n ei gwmpas. Er hynny, roedd rhai cynrychiolaethau'n amau cynnwys Maelor yn rhan o'r etholaeth.
- 5.306 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol: *"y dylid enwi'r etholaeth arfaethedig yn Wrexham."* Mae'r Comisiwn o'r farn bod y dylid adlewyrchu'r ardal i'r de-ddwyrain o dref Wrecsam yn enw'r etholaeth ac felly, mae'n

parhau i fod o'r farn mai **Wrexham Maelor** (gydag enw cyfatebol swyddogol **Wrecsam Maelor**) yw'r enw priodol ar yr etholaeth.

## 6 Manylion Cyhoeddi

### Cyhoeddi'r Cynigion Diwygiedig

- 6.1 Cyhoeddir cynigion diwygiedig y Comisiwn a mapiau ar-lein ar wefan y Comisiwn [www.comffin-cymru.gov.uk](http://www.comffin-cymru.gov.uk) ac maent ar gael i'w gweld yn y 49 o leoliadau cyhoeddus a restrir yn Atodiad 3. Anfonwyd copïau caled o'r cynigion at Awdurdodau Unedol, Aelodau Seneddol, Aelodau'r Cynulliad a Phencadlysoedd y Pleidiau Gwleidyddol yng Nghymru a'r DU, ac eraill.
- 6.2 Cyhoeddir Adroddiad Cynigion Diwygiedig y Comisiwn ei hun (yr adroddiad hwn) ochr yn ochr ag adroddiad gan y Comisiynwyr Cynorthwyol. Mae adroddiad y Comisiynydd Cynorthwyol yn crynhoi'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf a'r ail gyfnod ymgynghori, ac mae'n amlygu'r argymhellion annibynnol a wnaed i'r Comisiwn ar sail y cynrychiolaethau hyn.
- 6.3 Mae cynrychiolaethau a wnaed yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori ar gael ar-lein ar wefan y Comisiwn, ynghyd â'r cynrychiolaethau hynny a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf (a gyhoeddwyd yn flaenorol ar 13 Mehefin 2012). Oherwydd cost a chyfyngiadau adnoddau, ni fydd cynrychiolaethau'r ail gyfnod ymgynghori ar gael ar ffurf copi cael mewn lleoliadau cyhoeddus, fodd bynnag, mae cynrychiolaethau penodol ar gael o wneud cais.

### Y Gymraeg

- 6.4 Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ac mae'n croesawu gohebiaeth yn y ddwy iaith.
- 6.5 Mae Adran 7 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn pennu gofyniad ar gyrrff cyhoeddus, sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, fod â chynllun iaith Gymraeg. Mae copi o Gynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn ar y wefan, ac mae ar gael o wneud cais.

## 7 Y Cyfnod Ymgynghori: 24 Hydref 2012 i 19 Rhagfyr 2012

- 7.1 Mae gofyniad i'r Comisiwn wahodd cynrychiolaethau ynglŷn â'u cynigion diwygiedig. Gellir cyflwyno cynrychiolaethau yn ystod cyfnod o 8 wythnos yn cychwyn o'u cyhoeddi ar 24 Hydref 2012. Gellir cyflwyno cynrychiolaethau ar-lein ar wefan y Comisiwn [www.comffin-cymru.gov.uk](http://www.comffin-cymru.gov.uk), drwy e-bost i [comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk](mailto:comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk), drwy'r post i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru, Tŷ Caradog, 1-6 Plas Sant Andreas, Caerdydd, CF10 3BE, neu dros y ffacs i 02920 395250. Gofynna'r Comisiwn fod yr holl gynrychiolaethau'n amlygu'n glir pa ardal neu ardaloedd y maent yn ymwneud â hwy. Cydnabyddir pob cynrychiolaeth a dderbynia'r Comisiwn. Daw'r cyfnod ar gyfer cyflwyno cynrychiolaethau i ben ar 18 Rhagfyr 2012.
- 7.2 Sylwch na fydd y Comisiwn yn ystyried unrhyw gynrychiolaethau a dderbynnir cyn neu ar ôl y cyfnod ymgynghori dynodedig hwn. Mae'r Comisiwn yn gofyn felly i'r holl gynrychiolaethau gael eu cyflwyno o fewn y cyfnod 8 wythnos.
- 7.3 Gofynnir i'r rheiny sy'n dymuno cyflwyno cynrychiolaethau ddweud p'un a ydynt yn cymeradwyo, neu'n gwrthwynebu, cynigion y Comisiwn ac i roi eu rhesymau dros eu cymeradwyaeth neu wrthwynebiad. Yn benodol, gofynnir i wrthwynebwyr ddweud beth fyddent yn ei gynnig fel dewis arall i gynigion y Comisiwn. Dylent nodi fod gwrthwynebiad gyda gwrthgynnig yn debygol o fod yn bwysicach na datganiad o wrthwynebiad yn unig. Yn hyn o beth – ac yn enwedig yng ngolau pwysigrwydd Rheol 2 (yr amrediad etholwyr statudol) – bydd gwrthgynnig sy'n nodi cyfansoddiad yr etholaethau yr effeithir yn uniongyrchol arnynt gan y gwrthgynnig yn cael ei weld yn gyffredinol fel un mwy darbwyllog na chynnig ar gyfer cyfansoddiad un etholaeth yn unig nad yw'n mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau canlyniadol tebygol ar ffigurau etholwyr etholaethau eraill.
- 7.4 Gofynnir i'r rhai sy'n dymuno cyflwyno cynrychiolaethau ystyried y cyflwyniadau y mae'r Comisiwn eisoes wedi'u hystyried mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar ei gynigion cychwynnol. Mae croeso i ymatebwyr gyflwyno unrhyw gynrychiolaeth, ond bydd y rhai sy'n cyflwyno cyflwyniadau newydd, yn hytrach nag ailadrodd cynrychiolaethau sydd eisoes wedi'u hystyried, yn debygol o fod yn fwy defnyddiol i'r Comisiwn.
- 7.5 Dymuna'r Comisiwn bwysleisio fod y cynigion hyn yn ymwneud â'r etholaethau Seneddol yn unig ac nad ydynt yn effeithio ar etholaethau presennol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ffiniau Awdurdodau Unedol, ffiniau adrannau etholiadol na chymunedol, trethi na gwasanaethau. Ni fydd y Comisiwn felly'n ystyried unrhyw gynrychiolaeth a wneir ynglŷn â'r materion hynny. Dymuna'r Comisiwn bwysleisio hefyd na fydd yn ystyried y rhannau o gynrychiolaethau lle gwneir sylwadau ar y nifer o seddi Seneddol a

ddyrrannwyd i Gymru nac ar yr amrediad etholwyr statudol. Mae'r rhain wedi'u pennu gan y Senedd ac ni all y Comisiwn eu newid.

- 7.6 Nid oes unrhyw ddarpariaeth statudol ar gyfer gwrandawriadau cyhoeddus na chyfnod ymgynghori eilaidd yn yr ymgynghoriad ar gynigion diwygiedig y Comisiwn.

### **Polisi Golygu a Pholisi Preifatrwydd**

- 7.7 Dymuna'r Comisiwn gyhoeddi gymaint o'r cynrychiolaethau â phosibl ynghyd â gohebiaeth arall a dderbynia. Fodd bynnag, mae angen cydbwysu'r angen i sicrhau tryloywder yn erbyn diogelu hawl unigolyn i breifatrwydd a'r gofyniad statudol i'r Comisiwn ddiogelu data personol unigolyn.

- 7.8 Mae'r Comisiwn felly wedi creu polisi golygu a fydd yn gymwys i'r holl gynrychiolaethau a dderbynia ac y mae'n eu cyhoeddi. Mae'r rhain fel a ganlyn:

Cynrychiolaethau Ysgrifenedig (gan gynnwys cynrychiolaethau electronig):

Personau Cyhoeddus/Swyddogion (h.y. Aelodau Seneddol/Aelodau'r Cynulliad/Cynghorwyr - yn ysgrifennu mewn rhinwedd swyddogol):

- Mae'r Comisiwn yn bwriadu cyhoeddi enw, cyfeiriad a manylion cyswllt unrhyw berson cyhoeddus/swyddog sy'n ysgrifennu'n swyddogol.
- Bydd llofnodion, fodd bynnag, yn cael eu golygu.

Aelodau'r cyhoedd a Phersonau Cyhoeddus/Swyddogion yn ysgrifennu'n bersonol:

- Mae'r Comisiwn yn bwriadu cyhoeddi enw pawb sy'n cyflwyno cynrychiolaeth, ond bydd yn golygu cyfeiriadau ac eithrio'r lleoliad daearyddol, h.y. y pentref, tref neu ddinas lle mae'r person(au) hwnnw'n byw. Os dymuna aelod o'r cyhoedd i'w enw gael ei olygu, bydd y Comisiwn yn barod i wneud hynny ar gais.
- Bydd pob cyfeiriad e-bost yn cael ei olygu.
- Bydd pob rhif ffôn yn cael ei olygu.
- Bydd pob llofnod yn cael ei olygu.

Yn ogystal, bydd y Comisiwn hefyd yn golygu unrhyw beth mewn cynrychiolaeth a fyddai'n anghyfreithlon a/neu'n enllibus.

## 8 Gwybodaeth Ychwanegol

### Hawlfraint y Goron

- 8.1 Cyhoeddwyd y mapiau sydd ar adnau yn y manau adneuo gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru dan drwydded gan yr Arolwg Ordnans. Mae'r mapiau hyn a'r mapiau sy'n ffurfio rhan o'r ddogfen hon yn destun © Hawlfraint y Goron. Bydd unrhyw atgynhyrchu anawdurdodedig yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil. Dylai olygydd unrhyw bapur newydd sy'n dymuno defnyddio'r mapiau fel rhan o erthygl am y cynigion diwygiedig gysylltu â'r Swyddfa Hawlfraint yn yr Arolwg Ordnans yn gyntaf.

### Ymholiadau

- 8.2 Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch am y cynigion diwygiedig hyn neu unrhyw agwedd arall ar waith y Comisiwn, cysylltwch â:

Comisiwn Ffiniau i Gymru  
Tŷ Caradog  
1-6 Plas Sant Andreas  
Caerdydd  
CF10 3BE

Ffôn: 02920 395031

Ffacs: 02920 395250

E-bost: [comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk](mailto:comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk)

Gwefan: [www.comffin-cymru.gov.uk](http://www.comffin-cymru.gov.uk)

## Atodiad 1 Etholaethau Diwygiedig yn ôl Etholwyr mewn Adrannau Etholiadol

**Aberavon and Ogmore CC – 73,895 o etholwyr (Pen-y-bont ar Ogwr – PBO a Castell-nedd Port Talbot – CNPT)**

<b>Adran Etholiadol</b>	<b>Awdurdod Unedol</b>	<b>Etholwyr</b>	<b>Etholaeth Bresennol</b>
Betws	PBO	1,603	Ogmore
Melin Ifan Ddu	PBO	1,883	Ogmore
Blaengarw	PBO	1,314	Ogmore
Caerau	PBO	5,115	Ogmore
Llangeinor	PBO	924	Ogmore
Llangynwyd	PBO	2,329	Ogmore
Dwyrain Maesteg	PBO	3,833	Ogmore
Gorllewin Maesteg	PBO	4,342	Ogmore
Nant-y-moel	PBO	1,747	Ogmore
Ogmore Vale	PBO	2,335	Ogmore
Pontycymmer	PBO	1,770	Ogmore
Ynysawdre	PBO	2,554	Ogmore
Aberafan	CNPT	4,151	Aberavon
Baglan	CNPT	5,541	Aberavon
Dwyrain Llansawel	CNPT	2,317	Aberavon
Gorllewin Llansawel	CNPT	2,172	Aberavon
Bryn a Chwmafan	CNPT	5,137	Aberavon
Cymmer	CNPT	2,171	Aberavon
Glyncorwg	CNPT	870	Aberavon
Gwynfi	CNPT	1,054	Aberavon
Margam	CNPT	2,294	Aberavon
Port Talbot	CNPT	4,368	Aberavon
Sandfields East	CNPT	5,160	Aberavon
Sandfields West	CNPT	5,079	Aberavon
Tai Bach	CNPT	3,832	Aberavon

**Alyn and Deeside CC – 80,268 o etholwyr**

<b>Adran Etholiadol</b>	<b>Awdurdod Unedol</b>	<b>Etholwyr</b>	<b>Etholaeth Bresennol</b>
Aston	Sir y Fflint	2,456	Alyn and Deeside
Gogledd Ddwyrain Brychdyn	Sir y Fflint	1,702	Alyn and Deeside
De Brychdyn	Sir y Fflint	2,807	Alyn and Deeside
Dwyrain Bistre Bwcle	Sir y Fflint	2,775	Alyn and Deeside
Gorllewin Bistre Bwcle	Sir y Fflint	3,337	Alyn and Deeside
Mynydd Bwcle	Sir y Fflint	2,216	Alyn and Deeside
Pentrobïn Bwcle	Sir y Fflint	3,529	Alyn and Deeside
Caergwrle	Sir y Fflint	1,274	Alyn and Deeside
Canol Cei Conna	Sir y Fflint	2,411	Alyn and Deeside
Cei Conna Golftyn	Sir y Fflint	3,924	Alyn and Deeside
De Cei Conna	Sir y Fflint	4,366	Alyn and Deeside

Cei Conna Gwepre	Sir y Fflint	1,662	Alyn and Deeside
Ewlo	Sir y Fflint	4,092	Alyn and Deeside
Penarlâg	Sir y Fflint	1,503	Alyn and Deeside
Higher Kinnerton	Sir y Fflint	1,279	Alyn and Deeside
Yr Hôb	Sir y Fflint	1,972	Alyn and Deeside
Llanfynydd	Sir y Fflint	1,462	Alyn and Deeside
Mancot	Sir y Fflint	2,639	Alyn and Deeside
Pen-y-ffordd	Sir y Fflint	3,002	Alyn and Deeside
Queensferry	Sir y Fflint	1,410	Alyn and Deeside
Saltney Cyffordd Yr Wyddgrug	Sir y Fflint	937	Alyn and Deeside
Saltney Stonebridge	Sir y Fflint	2,665	Alyn and Deeside
Sealand	Sir y Fflint	2,120	Alyn and Deeside
Dwyrain Shotton	Sir y Fflint	1,416	Alyn and Deeside
Shotton Uchaf	Sir y Fflint	1,739	Alyn and Deeside
Gorllewin Shotton	Sir y Fflint	1,499	Alyn and Deeside
Treuddyn	Sir y Fflint	1,291	Alyn and Deeside
Argoed	Sir y Fflint	2,201	Delyn
Gwernymynydd	Sir y Fflint	1,355	Delyn
Coed Llai	Sir y Fflint	1,590	Delyn
Broncoed Yr Wyddrug	Sir y Fflint	1,982	Delyn
Dwyrain Yr Wyddrug	Sir y Fflint	1,536	Delyn
De Yr Wyddrug	Sir y Fflint	2,101	Delyn
Gorllewin Yr Wyddrug	Sir y Fflint	1,908	Delyn
New Brighton	Sir y Fflint	2,415	Delyn
Llaneurgain	Sir y Fflint	2,424	Delyn
Northop Hall	Sir y Fflint	1,271	Delyn

**Blaenau Gwent CC – 77,304 o etholwyr**

<b>Adran Etholiadol</b>	<b>Awdurdod Unedol</b>	<b>Etholwyr</b>	<b>Etholaeth Bresennol</b>
Abertyleri	Blaenau Gwent	3,421	Blaenau Gwent
Badminton	Blaenau Gwent	2,544	Blaenau Gwent
Beaufort	Blaenau Gwent	2,976	Blaenau Gwent
Y Blaenau	Blaenau Gwent	3,605	Blaenau Gwent
Brynmaur	Blaenau Gwent	4,212	Blaenau Gwent
Cwm	Blaenau Gwent	3,419	Blaenau Gwent
Cwmtylleri	Blaenau Gwent	3,667	Blaenau Gwent
Gogledd Glynebwy	Blaenau Gwent	3,467	Blaenau Gwent
De Glynebwy	Blaenau Gwent	3,021	Blaenau Gwent
Georgetown	Blaenau Gwent	2,668	Blaenau Gwent
Llanhilleth	Blaenau Gwent	3,686	Blaenau Gwent
Nantyglo	Blaenau Gwent	3,491	Blaenau Gwent
Rassau	Blaenau Gwent	2,494	Blaenau Gwent
Sirhowi	Blaenau Gwent	4,387	Blaenau Gwent
Six Bells	Blaenau Gwent	1,878	Blaenau Gwent
Canol a Gorllewin Tredegar	Blaenau Gwent	4,581	Blaenau Gwent
Argoed	Caerffili	1,912	Islwyn
Y Coed Duon	Caerffili	6,168	Islwyn
Cefn Fforest	Caerffili	2,742	Islwyn



Crymlyn	Caerffili	4,334	Islwyn
Trecelyn	Caerffili	4,685	Islwyn
Penmaen	Caerffili	3,946	Islwyn

**Brecon, Radnor and Montgomery CC – 79,965 o etholwyr**

<b>Adran Etholiadol</b>	<b>Awdurdod Unedol</b>	<b>Etholwyr</b>	<b>Etholaeth Bresennol</b>
Aber-craf	Powys	1,140	Brecon and Radnorshire
Bugeildy	Powys	1,106	Brecon and Radnorshire
Bronllys	Powys	967	Brecon and Radnorshire
Llanfair-ym-Muallt	Powys	1,904	Brecon and Radnorshire
Bwlch	Powys	739	Brecon and Radnorshire
Crucywel	Powys	2,243	Brecon and Radnorshire
Cwm-twrch	Powys	1,610	Brecon and Radnorshire
Dyserth a Threcoed	Powys	1,001	Brecon and Radnorshire
Felin-fach	Powys	1,097	Brecon and Radnorshire
Clas-ar-Wy	Powys	1,761	Brecon and Radnorshire
Gwernyfed	Powys	1,188	Brecon and Radnorshire
Y Gelli	Powys	1,243	Brecon and Radnorshire
Trefyclo	Powys	2,295	Brecon and Radnorshire
Llanafanfawr	Powys	1,134	Brecon and Radnorshire
Llanbadarn Fawr	Powys	861	Brecon and Radnorshire
Dwyrain / Gorllewin Llandrindod	Powys	940	Brecon and Radnorshire
Gogledd Llandrindod	Powys	1,469	Brecon and Radnorshire
De Llandrindod	Powys	1,563	Brecon and Radnorshire
Llanelwedd	Powys	959	Brecon and Radnorshire
Llangatwg	Powys	799	Brecon and Radnorshire
Llangors	Powys	879	Brecon and Radnorshire

Llangynllo	Powys	1,021	Brecon and Radnorshire
Llangynidr	Powys	829	Brecon and Radnorshire
Llanwrtyd	Powys	1,463	Brecon and Radnorshire
Llanllyr	Powys	915	Brecon and Radnorshire
Maescar/Llywel	Powys	1,367	Brecon and Radnorshire
Nantmel	Powys	1,197	Brecon and Radnorshire
Pencraig	Powys	1,311	Brecon and Radnorshire
Llanandras	Powys	2,177	Brecon and Radnorshire
Rhaeadr Gwy	Powys	1,607	Brecon and Radnorshire
St. David Fewnol	Powys	1,162	Brecon and Radnorshire
St. John	Powys	2,605	Brecon and Radnorshire
St. Mary	Powys	1,872	Brecon and Radnorshire
Talgarth	Powys	1,308	Brecon and Radnorshire
Cymuned Talgarth	Powys	1,552	Brecon and Radnorshire
Tawe-Uchaf	Powys	1,726	Brecon and Radnorshire
Ynyscedwyn	Powys	1,746	Brecon and Radnorshire
Yscir	Powys	876	Brecon and Radnorshire
Ystradgynlais	Powys	2,001	Brecon and Radnorshire
Blaen Hafren	Powys	1,880	Montgomeryshire
Caersws	Powys	1,835	Montgomeryshire
Yr Ystog	Powys	1,260	Montgomeryshire
Dolforwyn	Powys	1,590	Montgomeryshire
Glantwymyn	Powys	1,624	Montgomeryshire
Ceri	Powys	1,610	Montgomeryshire
Llanbrynmair	Powys	761	Montgomeryshire
Llandinam	Powys	1,120	Montgomeryshire
Llanidloes	Powys	2,222	Montgomeryshire
Machynlleth	Powys	1,654	Montgomeryshire
Trefaldwyn	Powys	1,078	Montgomeryshire
Canol y Drenewydd	Powys	2,177	Montgomeryshire
Dwyrain y Drenewydd	Powys	1,449	Montgomeryshire
Y Drenewydd Gogledd Llanllwchaiarn	Powys	1,742	Montgomeryshire

Y Drenewydd Gorllewin Llanllwchaiarn	Powys	1,361	Montgomeryshire
De y Drenewydd	Powys	1,261	Montgomeryshire
Rhiwcynon	Powys	1,708	Montgomeryshire

**Bridgend CC – 73,596 o etholwyr (Pen-y-bont ar Ogwr – PBO)**

<b>Adran Etholiadol</b>	<b>Awdurdod Unedol</b>	<b>Etholwyr</b>	<b>Etholaeth Bresennol</b>
Bracla	PBO	8,208	Bridgend
Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr	PBO	6,057	Bridgend
Cefn Glas	PBO	1,247	Bridgend
Coety	PBO	603	Bridgend
Corneli	PBO	5,082	Bridgend
Llangrallo Isaf	PBO	1,134	Bridgend
Litchard	PBO	1,798	Bridgend
Llangewydd a Brynhyfryd	PBO	1,949	Bridgend
Morfa	PBO	3,278	Bridgend
Y Castellnewydd	PBO	4,221	Bridgend
Newton	PBO	2,921	Bridgend
Notais	PBO	2,764	Bridgend
Yr Hengastell	PBO	3,589	Bridgend
Pendre	PBO	1,345	Bridgend
Pen-y-fai	PBO	1,893	Bridgend
Canol Dwyrain Porthcawl	PBO	2,591	Bridgend
Canol Gorllewin Porthcawl	PBO	2,788	Bridgend
Y Pîl	PBO	5,510	Bridgend
Rest Bay	PBO	1,958	Bridgend
Abercynffig	PBO	1,485	Ogmore
Bryncethin	PBO	994	Ogmore
Bryncoch	PBO	1,495	Ogmore
Cefn Cribwr	PBO	1,194	Ogmore
Felindre	PBO	2,153	Ogmore
Hendre	PBO	3,064	Ogmore
Penprysg	PBO	2,426	Ogmore
Sarn	PBO	1,849	Ogmore

**Caerfyrddin CC – 73,937 o etholwyr**

<b>Adran Etholiadol</b>	<b>Awdurdod Unedol</b>	<b>Etholwyr</b>	<b>Etholaeth Bresennol</b>
Abergwili	Sir Gaerfyrddin	1,822	Carmarthen East and Dinefwr
Rhydaman	Sir Gaerfyrddin	1,907	Carmarthen East and Dinefwr
Betws	Sir Gaerfyrddin	1,616	Carmarthen East and Dinefwr
Cilycwm	Sir Gaerfyrddin	1,155	Carmarthen East and Dinefwr
Cynwyl Gaeo	Sir Gaerfyrddin	1,306	Carmarthen East and Dinefwr

Garnant	Sir Gaerfyrddin	1,535	Carmarthen East and Dinefwr
Glanaman	Sir Gaerfyrddin	1,785	Carmarthen East and Dinefwr
Gorslas	Sir Gaerfyrddin	3,160	Carmarthen East and Dinefwr
Llanddarog	Sir Gaerfyrddin	1,565	Carmarthen East and Dinefwr
Llandeilo	Sir Gaerfyrddin	2,262	Carmarthen East and Dinefwr
Llanymddyfri	Sir Gaerfyrddin	2,082	Carmarthen East and Dinefwr
Llandybie	Sir Gaerfyrddin	3,017	Carmarthen East and Dinefwr
Llanegwad	Sir Gaerfyrddin	1,949	Carmarthen East and Dinefwr
Llanfihangel Aberbythych	Sir Gaerfyrddin	1,435	Carmarthen East and Dinefwr
Llanfihangel-ar-Arth	Sir Gaerfyrddin	2,155	Carmarthen East and Dinefwr
Llangadog	Sir Gaerfyrddin	1,547	Carmarthen East and Dinefwr
Llangynnwr	Sir Gaerfyrddin	1,895	Carmarthen East and Dinefwr
Llangyndeyrn	Sir Gaerfyrddin	2,401	Carmarthen East and Dinefwr
Llanybydder	Sir Gaerfyrddin	1,932	Carmarthen East and Dinefwr
Manordeilo a Salem	Sir Gaerfyrddin	1,765	Carmarthen East and Dinefwr
Penygroes	Sir Gaerfyrddin	2,134	Carmarthen East and Dinefwr
Pontaman	Sir Gaerfyrddin	2,123	Carmarthen East and Dinefwr
Cwarter Bach	Sir Gaerfyrddin	2,156	Carmarthen East and Dinefwr
Saron	Sir Gaerfyrddin	3,096	Carmarthen East and Dinefwr
Llanismel	Sir Gaerfyrddin	2,168	Carmarthen East and Dinefwr
Tref Caerfyrddin Gogledd	Sir Gaerfyrddin	3,800	Carmarthen West and South Pembrokeshire
Tref Caerfyrddin De	Sir Gaerfyrddin	2,791	Carmarthen West and South Pembrokeshire
Tref Caerfyrddin Gorllewin	Sir Gaerfyrddin	3,681	Carmarthen West and South Pembrokeshire

Cynwyl Elfed	Sir Gaerfyrddin	2,471	Carmarthen West and South Pembrokeshire
Maestref Talacharn	Sir Gaerfyrddin	2,236	Carmarthen West and South Pembrokeshire
Llanboidy	Sir Gaerfyrddin	1,606	Carmarthen West and South Pembrokeshire
Llansteffan	Sir Gaerfyrddin	1,676	Carmarthen West and South Pembrokeshire
Sanclêr	Sir Gaerfyrddin	2,312	Carmarthen West and South Pembrokeshire
Trelech	Sir Gaerfyrddin	1,700	Carmarthen West and South Pembrokeshire
Hendy-gwyn-ar daf	Sir Gaerfyrddin	1,696	Carmarthen West and South Pembrokeshire

**Caerphilly CC – 75,461 o etholwyr**

Adran Etholiadol	Awdurdod Unedol	Etholwyr	Etholaeth Bresennol
Cwm Aber	Caerffili	4,510	Caerphilly
Bedwas, Trethomas a Machen	Caerffili	7,630	Caerphilly
Morgan Jones	Caerffili	4,909	Caerphilly
Hengoed	Caerffili	3,671	Caerphilly
Llanbradach	Caerffili	3,171	Caerphilly
Nelson	Caerffili	3,482	Caerphilly
Penyrheol	Caerffili	8,777	Caerphilly
St. Cattwg	Caerffili	5,586	Caerphilly
St. James	Caerffili	4,153	Caerphilly
St. Martins	Caerffili	6,335	Caerphilly
Ystrad Mynach	Caerffili	3,553	Caerphilly
